



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adolygiad o berfformiad clercod

www.cymru.gov.uk



Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 057/2011

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2011

Adolygiad o berfformiad clercod

Cynulleidfa Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol, Llywodraethwyr Cymru, a chyrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

Trosolwg Mae'r adroddiad ymchwil hwn gan Miller Research yn pennu gwahanol enghreifftiau o arferion clerco cyrff llywodraethol yng Nghymru, ac yn adolygu perfformiad clercod wrth iddynt wneud eu gwaith. Mae hefyd yn ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth sydd ar gael ar gyfer clercod yng Nghymru, ac yn cynnig offer ar gyfer gwerthuso perfformiad clercod.

Rhagor o wybodaeth Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2082 6109
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau

Cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol	1
1.1	Adolygiad strategol	1
1.2	Gweithgaredd clerco corff llywodraethu	2
1.3	Swyddogaeth a pherfformiad clercod cyrff llywodraethu	3
1.4	Arweiniad a chymorth i glercod cyrff llywodraethu	4
1.5	Monitro ac atebolrwydd	4
1.6	Hyfforddiant i glercod	5
1.7	Casgliadau ac argymhellion	5
2.	Cyflwyniad	8
2.1	Dull o ymdrin â'r gwaith	8
3.	Adolygiad strategol	10
3.1	Cyflwyniad	10
3.2	Rheoliadau llywodraethu ysgol	10
3.3	Polisi clerco ar waith	13
3.4	Crynodeb o'r prif bwyntiau	21
4.	Gweithgaredd clerco y corff llywodraethu	23
4.1	Cyflwyniad	23
4.2	Darpariaeth gwasanaeth clerco yr awdurdod lleol	23
4.3	Cost clerco	29
4.4	Crynodeb o'r prif bwyntiau	33
5.	Swyddogaeth a pherfformiad clercod cyrff llywodraethu	35
5.1	Trosolwg perfformiad clerco	35
5.2	Modelau gweithgaredd clerco	35
5.3	Trefniadau cytundebol a chyflenwi gwasanaeth	36
5.4	Dyletswyddau ysgrifenyddol	39

5.5	Gwybodaeth ac arweiniad	43
5.6	Sgiliau cyffredinol	48
5.7	Persbectif a gwrthrychedd	49
5.8	Crynodeb o'r prif bwyntiau	51
6.	Canllawiau a chefnogaeth i glercod cyrff llywodraethu	53
6.1	Lefel strategol	53
6.2	Cefnogaeth ar lefel leol	53
6.3	Crynodeb o'r prif bwyntiau	54
7.	Hyfforddiant i glercod	56
7.1	Cyfrifoldeb am hyfforddi clercod	56
7.2	Darpariaeth hyfforddiant i glercod	57
7.3	Gwerthuso hyfforddiant clercod	61
7.4	Dulliau eraill o hyfforddi a chefnogi clercod yn y dyfodol	62
7.5	Crynodeb o'r prif bwyntiau	64
8.	Monitro ac atebolrwydd	66
8.1	Cyfrifoldeb dros fonitro perfformiad clerco	66
8.2	Monitro trefniadau clercio	67
8.3	Dulliau o fonitro perfformiad clercio	69
8.4	Datblygu offer gwerthuso	71
8.5	Crynodeb o'r prif bwyntiau	72
9.	Casgliadau ac argymhellion	73
9.1	Modelau arferion clercio	73
9.2	Monitro perfformiad	74
9.3	Canllaw i gyrff llywodraethu a chlercod	75
9.4.	Hyfforddiant a chefnogaeth i glercod corff llywodraethu	76
10.	Atodiad 1: Offer gwerthuso	77
10.1	Rhan 1: Offer gwerthuso i gadeiryddion cyrff llywodraethu	77
10.2	Rhan 2: Offer hunanwerthuso i glercod corff llywodraethu	79

Ffigurau

Ffigur 1 Darpariaeth clericio awdurdodau lleol (2005)	16
Ffigur 2 Hyd a lled darpariaeth clericio awdurdodau lleol	23
Ffigur 3 Cyfran sy'n derbyn CLG clericio ar lefel cynradd ac uwchradd	25
Ffigur 4 Ymatebwyr arolwg clericio yn ôl y math o glerc	26
Ffigur 5 Darpariaeth clericio awdurdod lleol	27
Ffigur 6 Rhanbarthau fesul y math o glerc	28
Ffigur 7 Math o glerc yn erbyn iaith	29
Ffigur 8 Darpariaeth arweiniad wrth gyflogi clercod annibynnol	32
Ffigur 9 Perfformiad cyfrifoldebau ysgrifenyddol yn ôl y math o glerc (arolwg clercod)	39
Ffigur 10 Perfformiad cyfrifoldebau ysgrifenyddol yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)	40
Ffigur 11 Perfformiad clerc mewn 'unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan y corff llywodraethol' (arolwg cadeiryddion)	43
Ffigur 12 Darpariaeth arweiniad yn ôl y math o glerc (arolwg clercod)	44
Ffigur 13 Darpariaeth arweiniad yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)	45
Ffigur 14 Deall cyfraith trefn llywodraethu ysgol yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)	47
Ffigur 15 Deall polisi addysgol ehangach a'r gyfraith yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)	48
Ffigur 16 Darpariaeth hyfforddiant i glercod yn ôl math o awdurdod lleol	58
Ffigur 17 Ymwybyddiaeth awdurdod lleol o'r cyfran o glercod ysgol/cymuned	68
Ffigur 18 Ymwybyddiaeth awdurdod lleol o'r cyfran o glercod ysgol/cymuned (yn ôl y math o awdurdod lleol)	68
Ffigur 19 Monitro perfformiad clerc heb fod yn un awdurdod lleol yn ôl y math o glerc	70

1. Crynodeb gweithredol

Yn 2009 coladodd Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru dystiolaeth ar nifer o faterion perthnasol i lywodraethwyr ysgol¹. Argymhellodd y pwyllgor y dylid gwneud arolwg manwl o berfformiad clercod cyrff llywodraethol, gan gynnwys hyfforddiant a chymorth i glercod cyrff llywodraethol. O ganlyniad comisiynodd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cymru (LC) Miller Research (UK) Ltd i gynnal yr adolygiad, ac i ganfod ffyrdd ble gellid gwella hyfforddiant a chymorth i glercod.

Mae dull yr adolygiad wedi cynnwys archwiliad strategol o waith ymchwil yn y gorffennol, cyfweiliadau ansoddol â rhanddeiliaid allweddol, ac arolwg ar y we meintiol o glercod a chadeiryddion, ochr yn ochr ag ymchwil ansoddol â chyrrff llywodraethol, clercod a swyddogion o Unedau Cymorth Llywodraethwyr (UCLI) awdurdodau lleol.

1.1 Adolygiad Strategol

Mae'r adolygiad strategol yn crynhoi'r gofynion statudol i glercod cyrff llywodraethol ysgol ochr yn ochr â thystiolaeth ymchwil diweddar sy'n berthnasol i drefniadau clercio, a hyfforddiant a chymorth i glercod yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau gan y Pwyllgor Menter a Dysgu a Chanolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil. Dangosodd ymchwil blaenorol i drefniadau clercio cyrff llywodraethol fod arferion clercio yn amrywio cryn dipyn ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhai awdurdodau lleol yn unig oedd yn cynnig gwasanaethau clercio drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) â'r corff llywodraethol, ac o'r rhai hynny oedd yn gwneud, roedd rhai yn cynnig gwasanaeth mwy eang nac eraill. Yn yr un ffordd, ni wnaeth pob corff llywodraethol dderbyn CLG (ble roedd yn cael ei gynnig); yn yr achosion hyn gall y clerc fod yn aelod o staff yr ysgol sydd ddim yn dysgu (er enghraifft clerc neu fwrser yr ysgol), neu rywun o'r gymuned leol. Rhwng 2005 a 2008 cododd y nifer o awdurdodau lleol *nad* oeddynt yn cynnig gwasanaeth clercio o saith i un ar ddeg, oedd yn golygu erbyn 2008 (ddwy flynedd cyn yr adolygiad cyfredol) mai dim ond hanner yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru oedd yn cynnig gwasanaeth clercio. Ystyriwyd rhinweddau cymharol pob un o'r modelau a ystyriwyd. Drwy ymchwil gan Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, darganfuwyd mai staffio annigonol oedd y prif reswm pam nad oedd rhai awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth clercio neu'n cynnig gwasanaeth cyfyngedig yn unig. Tra'r awgrymwyd fod clercod awdurdod lleol yn aml mewn gwell sefyllfa i gynnig eglurhad ar bolisi a gweithdrefnau ac i ganfod problemau sy'n gyffredin i gyrff llywodraethol eraill, gall hefyd fod o fantais i gael rhywun annibynnol o'r awdurdod lleol sydd ddim yn clercio i nifer o gyrff llywodraethol. Mewn cymhariaeth, mynegwyd peth pryder am yr effeithiau ar gyrff llywodraethol sy'n derbyn gwasanaeth clercio gan swyddogion unigol a'u diffyg amhleidioldeb neu deyrngarwch rhanedig.

¹ *Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgol* Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2009.

Datgelwyd hefyd fod lefel y cymorth a'r cyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd ac a dderbyniwyd gan glerc cod corff llywodraethol yn amrywio'n fawr. Nid yw'n syndod fod astudiaethau blaenorol wedi dod i'r casgliad nad oedd pob clerc cod corff llywodraethol yn perfformio'r dyletswyddau angenrheidiol, fel ei gosodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, i'r un safon.

1.2 Gweithgaredd clercio corff llywodraethu

Amcan yr ymchwili hwn fu i sefydlu sut mae'r modelau gwahanol yn gweithio yn ymarferol, i archwilio perfformiad y clercod wrth gyflawni eu swyddogaethau, i adolygu hyd a lled a natur y cymorth a'r hyfforddiant sydd ar gael i'r clercod ac yn y pen draw, i ddarparu offer gwerthuso y gellir ei ddefnyddio i werthuso perfformiad clercio, ac i ganfod ffyrdd y gellir gwella hyfforddiant a chymorth i glerc cod.

Mae'r arolwg wedi cynnwys rhaglen eang o ymchwili ansoddol a meintiol. Cynhaliwyd dau arolwg dwyieithog i glerc cod a cadeiryddion cyrff llywodraethol gyda chyfradd ymateb o 261 (clercod) a 301 (cadeiryddion). Fe wnaeth tua 11% o'r ymatebwyr o bob arolwg ateb y cwestiynau yn Gymraeg.

O'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru, roedd 9% yn cynnig gwasanaeth i bob ysgol, 41% yn cynnig gwasanaeth i rai ysgolion, a 50% ddim yn cynnig gwasanaeth o gwbl. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol sydd ddim yn cynnig CLG yn rheolaidd yn cynnig gwasanaeth clercio mewn rhai sefyllfaoedd, fel yn ystod cyfuno ysgolion neu i ysgolion sy'n wynebu anawsterau. Yn ddaeryddol, mae darpariaeth clercio awdurdod lleol yn tra arglwyddiaethu yn Ne Ddwyrain Cymru ac i raddau llai yng Ngorllewin a De Orllewin Cymru. Does dim un o awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn cynnig gwasanaeth clercio. Mae nifer aelodau staff yr awdurdod lleol sy'n gweithio fel clercod i gyrff llywodraethol yn amrywio'n fawr, o ddim ond tri mewn un awdurdod lleol i 18 mewn un arall. Yn y mwyafrif o awdurdodau caiff y clercio ei wneud gan aelodau o'r tîm UCLI. Fodd bynnag, mae bron i'r bumed ran o UCLI sy'n cynnig CLG yn defnyddio staff o adrannau eraill oddi fewn i'r awdurdod lleol i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae parhau i fod yn ddewis y corff llywodraethol unigol os ydynt yn dymuno derbyn y CLG ac mewn rhai awdurdodau ble darperir CLG, mae niferoedd arwyddocaol o gyrff llywodraethol yn cael eu clercio drwy ddull arall. Roedd pymtheg y cant o ymatebwyr i arolwg y cadeiryddion yn dod o awdurdodau lleol ble y cynigir CLG, ond roeddynt yn derbyn cymorth yn eu swyddogaeth fel cadeirydd naill ai gan glerc o'r ysgol neu o'r gymuned.

Roedd adborth o fwy nag un corff llywodraethol ysgol cyfrwng Cymraeg yn dangos fod cyflenwad annigonol o glerc cod Cymraeg eu hiaith mewn rhai rhannau o'r wlad.

Problemau ariannol a daeryddol oedd yn cael eu gweld fel y prif ffactorau oedd yn atal rhai awdurdodau lleol rhag darparu gwasanaeth clercio. Nid yw'r gost sylfaenol o ddarparu clercio naill ai'n gyson nac yn dryloyw, ac mae'r tâl am CLG clercio neu faint yr honorariwm a delir am glercio yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Ymhlith yr awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG clercio, mae cost y gwasanaeth yn amrywio'n sylweddol. Er hynny, gall y swm a delir i glerc cod sydd heb fod yn rhai awdurdodau lleol fod hyd yn oed yn fwy gwahaniaethol ac yn gyffredinol yn llawer llai tryloyw.

Mewn rhai awdurdodau ble mae rhai neu'r cyfan o'r cyrff llywodraethol yn penodi clerc sydd heb fod o'r awdurdod lleol, mae'r UCLI yn dal i ddarparu canllaw ar faint y dylid ei dalu i glercod ac yn dal i fod yn rhan o brosesu'r taliad. Hyd yn oed mewn ardaloedd ble mae'r UCLI yn darparu swydd ddisgrifiad safonol ac/neu yn rhan o recriwtio clercod fodd bynnag, gall fod anghysondeb sylweddol yn yr amser mae clercod annibynnol yn ei dreulio wrth eu dyletswyddau. Mae gwir gost clercio sy'n annibynnol o'r awdurdod lleol yn amrywio o ysgol i ysgol, ac mewn rhai achosion darperir clercio heb gost i'r corff llywodraethol.

1.3 Swyddogaeth a pherfformiad clercod cyrff llywodraethu

Roedd yr holl randdeiliaid yn gweld swyddogaeth clercio yn ddeublyg yn nhermau eu dyletswyddau ysgrifenyddol a'u swyddogaeth cynghori wrth gynnig cyngor i'r corff llywodraethol ar "faterion trefniadol a chyfansoddiadol". Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau mawr iawn yn y ffordd roedd y swyddogaeth olaf yn cael ei dehongli.

Yn ystod archwiliadau Estyn canfuwyd yr enghreifftiau gorau mewn awdurdodau lleol sy'n darparu arfer clercio yn ganolog. Cyfeiriodd nifer o lywodraethwyr o sawl awdurdod gwahanol at y sicrwydd a gynigir gan CLG, yn ychwanegol at sail gwybodaeth y clerc a'u safle oddi fewn i'r awdurdod lleol. Er hynny, roedd gan lawer o sylwebwyr bryderon am glercod yr awdurdod lleol yn gyfrifol am nifer fawr o gyrrff llywodraethol ar y sail y gallai hyn gyfyngu lefel yr ymroddiad i gorff llywodraethol. Canfuwyd anghysondeb personél hefyd yn broblem gyda chlercod awdurdod lleol ac roedd cytundeb cyffredinol fod angen dilyniant wrth glercio. Teimlwyd y gallai clercod sydd wedi'u recriwtio yn annibynnol gael mwy o amser a'r gallu i ganolbwyntio yn fwy ar gorff llywodraethol unigol a bod clercod sydd yn yr ysgol â chyfle i wybod mwy am ysgolion unigol. Fodd bynnag, mae'n anoddach cadw safonau clercio cyson, a gall monitro perfformiad fod yn gyfyngedig.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn yr arolwg clercod yn graddio eu hunain yn weddol uchel yn y prif agweddau ysgrifenyddol o'r gwaith, er ar draws pob agwedd o'u gwaith, roedd clercod cymuned yn graddio eu hunain yn is na chlercod yr awdurdod lleol a'r rhai oedd yn yr ysgol. Mae'n amlwg fod clercod awdurdod lleol yn gweld eu hunain cystal â neu'n well na chlercod sydd mewn ysgolion ym mhob dyletswydd, ac eithrio anfon gwaith papur gyda digon o rybudd ymlaen llaw. Yn arolwg y cadeiryddion, roedd clercod awdurdod lleol yn cael graddfa uwch na chlercod cymuned ym mhob agwedd a doedd dim enghreifftiau yn yr ymchwil ansoddol o adborth beirniadol ar ddyletswyddau ysgrifenyddol clerc yr awdurdod lleol gan y llywodraethwyr oedd yn derbyn y CLG.

Yn nhermau darparu cyngor a chanllaw, awgrymwyd gan sawl rhanddeiliaid a nifer o lywodraethwyr fod gan glerc effeithiol wybodaeth dda mewn amrywiaeth eang o feysydd. Fodd bynnag mae'r farn am yr hyn mae cynghori yn rhinwedd ei swydd yn ei gwmpasu yn amrywio'n sylweddol oddi fewn i wahanol UCLI ac ymysg y cyrff llywodraethol, ac mewn un awdurdod lleol y farn yn yr UCLI oedd na ddylid disgwyl i'r clerc lywio'r corff llywodraethol. Teimlai rhai bod geiriad amwys i ddarparu corff llywodraethol "â chyngor ar ei swyddogaethau a'i weithdrefnau"² sydd wedi'i roi yn

² Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

rheoliadau 2005 yn cyfrif am y gwahanol ddehongliadau o swyddogaeth y clerc. Gwelir clercod awdurdodau lleol, ac maent yn gweld eu hunain, fel bod wedi eu paratoi'n well yn nhermau darparu cyngor a rhoi gwybodaeth i lywodraethwyr. Ar y cyfan, roedd clercod awdurdodau lleol yn cael eu gweld fel bod yn ddiuedd o anghenraid, er bod mwy nac un llywodraethwr wedi mynegi pryder y gallai pethau newid os oedd angen i awdurdodau lleol gwtogi'r gwasanaeth clerccio, a allai roi'r clercod mewn sefyllfa anodd os oeddynt o ganlyniad angen rhoi llai o amser i glercio.

Ymhellach, tra roedd gwybodaeth gyd-destunol o'r ysgol yn cael ei weld yn fanteisiol, i ryw raddau fe wnaeth sawl sylwebydd awgrymu "y gall ei wneud yn fwy anodd aros yn wrthrychol".

1.4 Arweiniad a chymorth i glercod cyrff llywodraethu

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Chanllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgol yng Nghymru Llywodraeth Cymru (LC) yw prif ffynonellau arweiniad dogfennol i glercod cyrff llywodraethol ar lefel genedlaethol. Mae'r cymorth a'r adnoddau a gynigir gan Lywodraethwyr Cymru hefyd yn ffynhonnell o wybodaeth bwysig, er bod y sefydliad yn gwasanaethu llywodraethwyr yn ogystal â chlercod.

Roedd cymorth ac arweiniad ar lefel awdurdod lleol yn cael eu gweld yn gyffredinol i fod yn fwyaf gwerthfawr i glercod, er bod cydnabyddiaeth gyffredinol nad yw'r ddarpariaeth yn gyson o bell ffordd. Mae'r adborth gan y mwyafrif o glercod yn awgrymu mai'r cyngor ac arweiniad anffurfiol a ddarperir gan UCLI dros y ffôn a drwy e-bost yw'r mwyaf cyffredin ac yn y pen draw, y pwysicaf.

1.5 Monitro ac atebolrwydd

Nid oedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o unrhyw fonitro ffurfiol oedd yn gyson ledled Cymru, "ac eithrio monitro Estyn o'r cyrff llywodraethol". Canfuwyd fod dull anffurfiol o fonitro perfformiad clerccio yn weddol gyffredin. Roedd canran arwyddocaol o sylwebyddion (gan gynnwys llywodraethwyr) yn teimlo y dylai'r corff llywodraethol dderbyn cyfrifoldeb am werthuso clercod corff llywodraethol, hyd yn oed mewn achosion ble mae'r CLG wedi'i dderbyn. Hanner yr awdurdodau lleol oedd yn cynnig CLG i rai ysgolion a dim ond y bumed ran o awdurdodau lleol oedd yn cynnig CLG i'r holl ysgolion oedd yn darparu arweiniad o'r fath. Fodd bynnag, roedd llai na'r bumed ran o'r UCLI oedd ddim yn cynnig clerccio awdurdod lleol o gwbl yn darparu arweiniad i'r cyrff llywodraethol i fonitro perfformiad y clerc eu hunain.

O'r awdurdodau hynny oedd yn cynnig CLG roedd y mwyafrif yn cyflawni'r weithdrefn drwy adolygiad gwasanaeth blynyddol a gwblheir gan y cyrff llywodraethol. Mewn rhai awdurdodau roedd rheolwr yr UCLI yn gwneud ymweliad monitro blynyddol mewn cyfarfod gan bob clerc ac roedd y mwyafrif o UCLI yn cadw'r cofnodion. Er bod awdurdodau lleol yn cadw cofnodion clercod sydd ddim yn rhan o'r awdurdod lleol, nid yw'r cofnodion hyn yn helaeth. Gwneir monitro glercod sydd ddim yn rhan o awdurdod lleol yng Nghymru gan ychydig dan hanner yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae'r monitro sy'n digwydd ymhell o fod yn drwyadl. Fodd bynnag, does yna ddim barn gyffredinol fod y dulliau presennol o fonitro yn ddiffygiol, a bod angen system gadarnach.

1.6 Hyfforddiant i glercod

Roedd y mwyafrif o randdeiliaid a llywodraethwyr yn credu fod cyfrifoldeb hyfforddi clercod yn gorffwys yn rhannol, os nad yn gyfan gwbl, gyda'r awdurdod lleol. Roedd nifer arwyddocaol o randdeiliaid, swyddogion UCLI a llywodraethwyr yn teimlo er mai dyletswydd yr awdurdodau lleol yn bennaf yw darparu hyfforddiant, mai swyddogaeth cyrff llywodraethol yw ysgogi'r galw a galluogi eu clercod i fynychu. Roedd rhai llywodraethwyr yn teimlo fod clercod eu hunain angen cymryd cyfrifoldeb dros fynychu hyfforddiant. Roedd cefnogaeth sylweddol i LICC i wneud hyfforddiant yn orfodol i glercod ac roedd rhai yn awgrymu y gallai hyn hefyd gwmpasu monitro perfformiad.

Roedd y mwyafrif o randdeiliaid yn ansicr am fynychder hyfforddiant i glercod. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru sydd ddim ar hyn o bryd yn cynnig hyfforddiant i glercod (UCLI yn cynnig CLG clerco i'r holl ysgolion). Mae'r problemau sy'n cyfyngu darpariaeth a derbyn yr hyfforddiant yn cynnwys cost (i'r UCLI i'w cyflenwi), amser a logisteg. Ar draws y 22 awdurdod lleol, y math mwyaf cyffredin o hyfforddiant yw un anffurfiol a heb ei achredu – ac yn fwyaf cyffredin mewn sesiwn grŵp. Mewn awdurdodau lleol sydd â lefel uchel yn derbyn CLG clerco, mae'n haws ac yn rhatach i hyfforddi clercod oddi fewn i'r awdurdod lleol. Nid yw cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill wrth gyflenwi hyfforddiant clercod yn gyffredin. Mae mwyafrif y cyrff llywodraethol yn gwerthuso sesiynau hyfforddiant i'w clercod mewn rhyw ffurf, yn bennaf drwy ffurflenni adborth ôl hyfforddiant a gwblheir gan glercod, ac mae'r adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r sylwebyddion yn cael anhawster yn canfod enghreifftiau penodol o'r effaith mae hyfforddiant wedi'i gael ar berfformiad eu clerco neu eu perfformiad eu hunain. Sylwyd mai'r budd mwyaf cyffredin i ddeillio o hyfforddiant oedd y cyfle i rwydweithio a thrafod arferion â chlercod eraill. Roedd mwyafrif y sylwebyddion yn credu mai cysondeb oedd y peth pwysicaf mewn hyfforddiant a chymorth i glercod yn y dyfodol. Yn ychwanegol i'r hyfforddiant, roedd yr angen am swydd ddisgrifiad gyffelyb a manwl yn cael ei weld yn allweddol i sicrhau perfformiad clerco effeithiol.

1.7 Casgliadau ac argymhellion

Modelau arferion clerco

Er bod rhai pryderon arwyddocaol o ran amrywiadau mewn perfformiad clerco, un o'r negeseuon cryfaf o'r arolwg hwn yw nad yw llywodraethwyr eisiau newid radical i'r system clerco. Roedd mwyafrif y llywodraethwyr oedd yn gynwysedig yn yr ymchwil ansoddol yn teimlo fod eu model hwy yn gweithio'n dda iawn.

O ran logisteg, byddai'n anodd cyflwyno model CLG i bob awdurdod lleol. Ymhellach, o ystyried y diffyg tryloywder amlwg yng nghost clerco'r corff llywodraethol, mae oblygiadau ariannol cyflwyno model sengl (yn arbennig y model CLG) yn anodd ei amcangyfrif, ac yn arbennig o anymarferol yng ngoleuni toriadau cyllid yn y sector gyhoeddus.

Roedd y tu hwnt i sgôp yr adolygiad hwn i ddarparu argymhellion a ddylid diwygio'r modelau eang o glercod y cyrff llywodraethol. Yn sicr mae cryfderau a gwendidau

ym mhob dull, a byddai angen ymchwilio yn ddyfnach i'r trefniadau cyllidol sydd ar hyn o bryd yn rhan o ddarparu clercio cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd.

Monitro perfformiad

Mae'r adolygiad, fodd bynnag, wedi dod â nifer o faterion allweddol i'r amlwg, sydd angen eu hystyried yn y dyfodol agos. Diffyg dull effeithiol a chyson o fonitro perfformiad clercio yw'r pryder sy'n tanategu'r mwyafrif o'r problemau a ganfuwyd yn y gwaith ymchwil. Heb archwiliad digonol o berfformiad clercio – yn nhermau beth maent yn ei wneud a pha mor dda maent yn ei wneud – mae'n anodd iawn i awdurdodau lleol i ganfod arfer gwael, blaenoriaethu hyfforddiant neu ddarparu arweiniad priodol. Yr hyn mae'r adolygiad wedi'i ganfod yw'r angen am ddull mwy ffurfiol o fonitro perfformiad clercio ar lefel awdurdod lleol ac o bosib ar lefel cenedlaethol, o ystyried y diffyg asesiad cyffredinol a meincnodi strategol. Mae rhan o'r comisiwn hwn yn cynnwys creu offer gwerthuso i glercod i asesu eu perfformiad eu hunain ac i'r cyrff llywodraethol asesu perfformiad eu clerc. Cynlluniwyd yr offer hwn wedi'i seilio ar y dyletswyddau a osodwyd yn Rheoliadau 2005, ac a arweiniwyd gan ddangosyddion priodol a fwriadwyd i gynorthwyo clercod a chadeiryddion wrth wneud asesiad rhesymol. Nid cynllunio a rhannu offer asesu yw'r cyfan sydd ei angen ac mae angen i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol a chlercod gymryd cyfrifoldeb am gwblhau a choladu eu ffurflenni hunanasesu. Mae angen i UCLI ddefnyddio gwerthusiadau cyfanredol i ganfod achosion pryder neu brif anghysondebau rhwng asesiadau'r cyrff llywodraethol ac asesiadau'r clerc priodol. Dylai awdurdodau lleol ystyried cynnal y system ar-lein gan ganiatáu am ddadansoddiad, riportio a chynnig hyfforddiant o ganlyniad i hyn i gyd yn electronig.

Arweiniad i gyrff llywodraethol a chlercod

Mae problemau eraill sy'n berthnasol i atebolrwydd a thryloywder yn cyfrannu at y diffyg archwiliad hwn. Er bod rhai awdurdodau lleol yn darparu swydd ddisgrifiadau i gyrff llywodraethol, nid yw hyn yn gyffredin i bawb, ac nid oes gweithdrefn ffurfiol i sicrhau fod clercod a chyrff llywodraethol yn ymwybodol o hyd yn oed y lleiafswm o ddyletswyddau a ddisgwyllir gan glerc i gorff llywodraethol. Mae hyn yn mynd law yn llaw â'r broblem o fonitro, o ystyried nad oes syniad clir o beth yw'r dyletswyddau angenrheidiol, mae'n anodd iawn asesu perfformiad swyddogaeth clerc. Er bod argymhellion o ymchwil blaenorol wedi arwain at ddatblygu swydd ddisgrifiad safonol a rhaglen hyfforddi clercod, ymddengys fod defnydd (a hyd yn oed gwybodaeth) o'r adnoddau hyn yn gyfyngedig, ar waethaf y ffaith fod galw yn parhau gan lywodraethwyr a chlercod i gael mwy o gyfeiriad strategol. Nid yw sicrhau fod swydd ddisgrifiad ar gael i awdurdodau lleol o anghenraid yn golygu eu bod yn cael eu defnyddio neu eu bod yn cyrraedd y gynulleidfa a fwriedir (hy: llywodraethwyr a chlercod). Serch hynny ble y defnyddiwyd y swydd ddisgrifiad (neu ble cafodd ei addasu) derbyniodd gymeradwyaeth. Mae angen i hyn ddod yn gyffredin i bawb ar draws yr holl awdurdodau lleol ble mae cyrff llywodraethol yn cyflogi clercod yn annibynnol. Petai yn dod yn ofynnol i awdurdodau lleol i rannu swydd ddisgrifiad safonol i glercod (er hynny gyda pheth amrywiad yn y cynnwys i gymryd i ystyriaeth wahaniaethau lleol), byddai hyn yn gwneud llawer i helpu i godi safonau yn gyfunol mewn clercod.

Hyfforddiant a chymorth i glercod cyrff llywodraethol

Er bod lleiafrif o sylwebwyr heb fod yn arbennig o blaid gwneud hyfforddiant i glercod yn anghenraid gorfodol i'r swyddogaeth, y farn bennaf yw bod angen elfen o hyfforddiant gorfodol i sicrhau fod pob clerc yn cyflenwi'r dyletswyddau angenrheidiol. Mae angen ystyried dulliau newydd er mwyn i'r fforymau fod yn hygyrch i bawb. Mynegodd llawer o glercod ddiddordeb mewn fforwm ar-lein, ac mae potensial i gyflenwi'r rhain ar lefel genedlaethol a fyddai'n caniatáu rhannu sgiliau a phrofiadau â llawer mwy o glercod yn gweithio mewn cyd-destun gwahanol iawn.

Efallai y daw amser yn y dyfodol pan na fydd yr UCLI yn gallu darparu'r rhychwant o wasanaeth clercio a gynigir ar hyn o bryd gan rai awdurdodau lleol. Yn yr achos hwn bydd swyddogaeth cyflwyno hyfforddiant a monitro effeithiol hyd yn oed yn fwy hanfodol i sicrhau fod clercod sydd ddim yn rhai awdurdod lleol yn perfformio eu dyletswyddau i safon ddigonol.

2. Cyflwyniad

Yn 2009 coladodd Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru dystiolaeth ar nifer o faterion perthnasol i lywodraethwyr ysgol³. Cwblhawyd adroddiad cryno'r Pwyllgor gyda nifer o argymhellion gan gynnwys sawl un oedd yn cyfeirio'n benodol at glercod a chyrrff llywodraethol. Un o'r argymhellion hyn oedd:

'O ystyried y rhan hanfodol y mae'r clercod yn ei chwarae, rydym yn argymhell y dylai eu perfformiad wrth gyflawni eu cyfrifoldebau'n addas ac i safon sy'n ddigonol o uchel gael ei arolygu, ac y dylid chwilio am ffyrdd arloesol o ddarparu hyfforddiant a chymorth ar eu cyfer.'

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, comisiynwyd Miller Research (DU) Cyf gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) o Lywodraeth Cymru (LC) i gynnal adolygiad o berfformiad clercod cyrrff llywodraethol ysgolion, a'r hyfforddiant a'r cefnogaeth ar eu cyfer. Pwrpas yr arolwg hwn yw ateb y cwestiynau canlynol:

Beth sydd ei angen ar glercod i wneud yn dda i fod yn effeithiol?

Beth maent yn ei wneud yn dda ar hyn o bryd a beth sydd heb fod cystal?

Beth ellid ei wneud i wella eu perfformiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r gwaith, sy'n cynnwys ymchwil meintiol ac ansoddol gyda chlercod a chadeiryddion cyrrff llywodraethol ysgolion, yn ogystal ag arolwg o Unedau Cymorth Llywodraethwyr ar draws pob un o 22 awdurdodau lleol Cymru. Mae'r gwaith ymchwil gydag ymarferwyr wedi'i gyfarwyddo gan adolygiad llenyddol llawn a chyfweliadau ansoddol â rhanddeiliaid allweddol o sefydliadau fel Lywodraethwyr Cymru, Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chanolfan Cymru Gyfan i Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil.

2.1 Dull o ymdrin â'r gwaith

Ar ddechrau'r gwaith ymchwil gwnaed arolwg meintiol ar y we o Unedau Cefnogi Llywodraethwyr (UCLL) ym mhob awdurdod lleol er mwyn canfod pa awdurdodau sy'n cynnig Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) a lefel y cyrrff llywodraethol sydd wedi derbyn yn yr ardaloedd hyn yn ogystal â ffactorau eraill fel cost a chwmpas CLG clerco, a darpariaeth hyfforddiant clerco a'r rhai sydd wedi derbyn y cynnig i hyfforddi clercod.

Er mwyn cael gwybodaeth statudol ddilys ar berfformiad clerco ar draws Cymru, cynhaliwyd dau arolwg meintiol o gadeiryddion cyrrff llywodraethol a chlercod cyrrff llywodraethol yn eu tro i asesu eu safbwyntiau ar drefniadau clerco a pherfformiad o safbwynt "cyflenwad" a "galw". I lwyddo i gael ymateb statudol dilys cynhwyswyd pob ysgol a gynhelir ar draws Cymru yn yr arolwg. Cynhaliwyd dau arolwg dwyieithog i

³ Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgol Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2009.

glercod a chadeiryddion cyrff llywodraethol gyda chyfradd ymateb o 261 (clercod) a 301 (cadeiryddion). Fe wnaeth tua 11% o'r ymatebwyr o bob arolwg ateb y cwestiynau yn Gymraeg.

Ymgwymerwyd â mwy o ymchwil trylwyr gyda 16 o gyrff llywodraethol a ddewiswyd o blith chwech awdurdod lleol wedi eu lleoli mewn pedwar rhanbarth yng Nghymru. Dewiswyd cyrff llywodraethol gan ddefnyddio fframwaith sampl dewis a oedd yn sicrhau sylw i nifer o amrywiadau, gan gynnwys:

Cyrff llywodraethol drwy gyfrwng Cymraeg/Saesneg.

Cyrff llywodraethol ysgolion cynradd/uwchradd.

Cyrff llywodraethol gyda chlercod oedd yn gyflogedig gan yr ysgol/gweithwyr yr awdurdod lleol/pobl eraill.

Cyrff llywodraethol â chlerc oedd yn gyflogedig gan yr ysgol/person arall ond oedd wedi ei leoli yn yr awdurdod lleol oedd yn cynnig CLG/cyrff llywodraethol gyda chlercod oedd yn gyflogedig gan yr ysgol/peron arall ond wedi ei leoli mewn awdurdod lleol sydd *ddim yn cynnig* CLG.

Cyrff llywodraethol gyda chlercod sydd wedi/heb dderbyn cymorth hyfforddiant gan yr awdurdod lleol.

3. Adolygiad strategol

3.1 Cyflwyniad

Ymgwymerwyd ag adolygiad o ddogfennaeth rheoleiddio a'r adroddiadau ymchwil perthnasol ar gychwyn y comisiwn i wneud yn glir sail y dystiolaeth oedd yn bodoli ac i arwain elfennau dilynol y gwaith. Mae'r adran sy'n dilyn yn crynhoi anghenion statudol clerod cyrff llywodraethol ochr yn ochr â chanfyddiadau ymchwil diweddar, ac yn adnabod materion penodol sy'n ymwneud â threfniadau clerocio, a hyfforddiant a chymorth i glerod yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn ystyried:

Rheolaethau cyfredol i gyrff llywodraethol a chlerod a gyhoeddwyd yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Y canllawiau sy'n bodoli i gyrff llywodraethol.

Ymchwil blaenorol ynglŷn â pherfformiad clerod corff llywodraethol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Ymchwil blaenorol ar ddarpariaeth hyfforddiant a chymorth i glerod.

3.2 Rheoliadau llywodraethu ysgol

Cyrff llywodraethol

Mae Deddf Addysg 2002 yn datgan fod yn rhaid i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru gael corff llywodraethol. Mae cyrff llywodraethol ysgolion â rhan ganolog mewn hyrwyddo safonau uchel cyrhaeddiad addysgol, ac mae meysydd cyfrifoldeb llywodraethwyr⁴ yn cynnwys:

Cyfeiriad strategol yr ysgol, drwy osod nodau ac amcanion ; polisiau i gyrraedd y nodau a'r amcanion; a thargedau i gyrraedd y nodau a'r amcanion.

Archwilio ei berfformiad drwy fonitro a gwerthuso cynnydd tuag at nodau ac amcanion yr ysgol ac adolygu'r fframwaith strategol a grëwyd gan y llywodraethwyr.

Trefn llywodraethol, gan gynnwys cydsyniad y gyllideb a'r staff.

Mae'n ofynnol i Gyrff Llywodraethol i gydymffurfio â rhai rheoliadau fel y cyhoeddwyd yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a ddaeth i rym yn Hydref 2005 (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel rheoliadau 2005). Gwirfoddolwyr di-dâl yw llywodraethwyr ysgolion a phenderfynir ar gynnwys y corff llywodraethol gan faint yr ysgol a'r math o ysgol (ysgol gynradd/uwchradd), a bydd yn cynnwys lleiafswm o rhiant-lywodraethwyr, llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol,

⁴ Fel y cyfeiriwyd yn *Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgol, Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gorff 2009*.

athro-lywodraethwyr, llywodraethwyr o blith y staff⁵ a llywodraethwyr cymunedol⁶. Yn ogystal â'r categorïau hyn mae'n rhaid i gorff llywodraethol gynnwys cadeirydd, dirprwy gadeirydd a chlerc. Gall pennaeth yr ysgol ddewis bod yn aelod o'r corff ac mae ganddo ef/hi yr hawl cyfreithiol i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol ac i gynnig cyngor.

Gall llywodraethwyr fod yn eu swydd am fwyafswm o bedair blynedd o ddyddiad eu hapwyntiad, er eu bod yn rhydd i ymddiswyddo ar unrhyw adeg a gellir eu hail apwyntio am dymor pellach. Dim ond drwy'r gweithdrefnau a osodwyd gan reoliadau 2005 yn unig y gellir eu diswyddo.

Clercod cyrff llywodraethol

Dywed rheoliadau 2005⁷ fod yn rhaid i gorff llywodraethol apwyntio clerc na all fod yn lywodraethwr, yn aelod nad yw'n lywodraethwr ar unrhyw un o bwyllgorau'r corff llywodraethol neu yn bennaeth yr ysgol. Yn ôl deddfwriaeth gyfredol dim ond cyfarfodydd llawn o'r corff llywodraethol a chyfarfodydd y pwyllgorau statudol⁸ mae'n *rhaid* eu clercio.

Mae rheoliadau 2005 yn datgan⁹ fod yn rhaid i glerc y corff llywodraethol:

Alw cyfarfodydd y corff llywodraethol.

Fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r corff llywodraethol a sicrhau y cynhyrchir cofnodion o'r gweithrediadau.

Cadw cofrestr o aelodau'r corff llywodraethol a rhoi gwybod os oes lleoedd gwag ar y corff llywodraethu.

Cadw cofrestr o bresenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd llywodraethol a rhoi gwybod am rhai nad ydynt yn mynychu i'r corff llywodraethol.

Rhoi a derbyn cyhoeddiadau yn ôl:

Hysbysiad o swyddi gwag ac apwyntiadau.

Ymddiswyddiadau.

Diswyddo llywodraethwyr.

Ymddiswyddo cadeirydd neu ddirprwy gadeirydd.

Galw cyfarfodydd.

Hysbysiad o waharddiadau.

⁵ Mewn ysgolion cynradd gyda llai na 100 o ddisgyblion, mae'n ddewisol i gael llywodraethwyr staff ai peidio.

⁶ Mae mathau eraill hefyd o lywodraethwyr y gellir eu hapwyntio ond mae rhain mewn categorïau gorfodol.

⁷ Dan reoliad 43, rhan (1).

⁸ h.y. pwyllgor diswyddo staff, pwyllgor apelïadau diswyddo staff, pwyllgor disgyblu disgyblion, a pwyllgor derbyn.

⁹ Dan reoliad 43, rhan (1).

Riportio i'r corff llywodraethol yn ôl y gofyn am gyflawni ei ddyletswyddau/ei dyletswyddau.

Gwneud cyfrifoldebau eraill y gall y corff llywodraethol benderfynu arnynt o dro i dro.

Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau hyn, mae'r rheoliadau hefyd yn mynnu y *gall* clercc i'r corff llywodraethol gynnig cyngor ac arweiniad ar y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau (ychwanegwyd pwyslais)¹⁰.

Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau yn rhan 1 (sy'n orfodol) a rhan 2 (sy'n ddewisol) yn cyfeirio'n uniongyrchol at un o'r ffactorau sydd o ddiddordeb allweddol i'r ymchwil hwn, hynny yw, edrych ar y gwahaniaethau ym mherfformiad clerccod y cyrff llywodraethol yn eu rôl ysgrifenyddol a'u rôl ymgynghorol. Mae'r ffaith fod yr ail rôl yn cael ei disgrifio fel cyfrifoldeb dewisol yn rheoliadau 2005 yn debyg o fod wedi dylanwadu ar amrywiaethau yn y ffordd y cafodd ei dehongli ac, yn ei dro, ei defnyddio gan gyrff llywodraethol a'u clerccod.

Canllaw ar swyddogaeth clercc y corff llywodraethol

Mae Llywodraeth Cymru (LC) yn cynnig canllaw¹¹ i ddarpar lywodraethwyr ac i lywodraethwyr presennol, sy'n cynnig cyfeiriad defnyddiol iddynt ar eu rôl a'u cyfrifoldebau cyfreithiol, gan gynnwys canllaw penodol ar Reoliadau 2005. Prif bwrpas y cyhoeddiad yw cynorthwyo llywodraethwyr i weithredu'n fwy effeithiol ac yn unol ag anghenion y rheoliadau.

Mae'r ddogfen yn cynnwys adran yn benodol ar glerccod cyrff llywodraethol sydd yn ei hanfod yn grynoded o Reoliadau 2005 ar apwyntio a diswyddo clerccod, a'u cyfrifoldebau. Mae'r arweiniad hefyd yn cynnig amlinelliaid byr o rôl a phriodoleddau hanfodol clercc¹². Mae'n arwyddocaol fod clercc y corff llywodraethol yn cael ei restru gyntaf yn y ffynonellau a argymhellir i lywodraethwyr wrth chwilio am gyngor yn y cyflwyniad i'r canllaw¹³.

¹⁰ *Dan reoliad 43, rhan (2).*

¹¹ *Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgol yng Nghymru.*

¹² Mae hyn yn cynnwys y gallu i weithio'n effeithiol ac yn gydweithredol, gyda sgiliau ac arbenigrwydd mewn materion cyfansoddiadol a threfniadol, cynnig cyngor diduedd, ac aros yn atebol i'r corff llywodraethol.

¹³ Mae ffynonellau eraill, er mwyn iddynt ymddangos yn y canllaw, yn cynnwys swyddogion yr awdurdod lleol, Llywodraethwyr Cymru; awdurdod esgobaethol a/neu corff sylfaen (i ysgolion enwadol ac/neu ysgolion sefydledig); a chyngor cyfreithiol annibynnol, fel cyfreithiwr.

3.3 Polisi clercio ar waith

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o brif gasgliadau ymchwil blaenorol a wnaed i drefniadau clercio corff llywodraethol, perfformiad clercio a hyfforddiant clercod ledled Cymru.

Mae arferion clercio Cyrff Llywodraethol yn amrywio llawer ledled awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae rhai yn cynnig gwasanaeth clercio i bob ysgol drwy Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)¹⁴, rhai yn cynnig gwasanaeth i rai ysgolion yn unig ac eraill ddim yn cynnig gwasanaeth o gwbl. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth hefyd yn amrywio ledled Cymru, ac mae rhai cyrff llywodraethol yn dewis clerc o'r ysgol neu oddi fewn i ardal leol, yn lle creu cytundeb â chlerc awdurdod lleol drwy CLG. Yn yr un modd mewn achosion ble nad yw'r gwasanaeth yn cael ei gynnig o gwbl, gorfodir cyrff llywodraethol i recriwtio clercod yn annibynnol.

Tra bod Rheoliadau 2005 yn gosod allan cyfrifoldebau unigol clercod cyrff llywodraethol datguddiodd tystiolaeth o ymchwil blaenorol¹⁵ fod lefel y gwasanaeth a gynigiwyd gan glercod yn gallu amrywio o drefnu cyfarfodydd a chymryd cofnodion i ddarparu cyngor hanfodol ar faterion trefniadol. Yn achos clercod awdurdod lleol yn benodol, canfuwyd fod y gwasanaeth yn cwmpasu arweiniad ar faterion cyfreithiol na fyddai, efallai, yn syrthio oddi fewn i CLG. Ymhellach, awgrymodd yr ymchwilwyr fod clercod yr awdurdod lleol mewn gwell safle i gynnig eglurhad ar bolisi a gweithdrefnau, ac i ganfod problemau sy'n gyffredin i gyrff llywodraethol eraill.

Swyddogaeth llywodraethwyr ysgol

Arweiniodd ymchwiliad yn 2009 gan Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lywodraethwyr ysgolion, at gyhoeddi *Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion* (cyfeiriwyd ato eisoes). Deilliodd y gwaith hwn o ymchwiliad a gynhaliwyd ynghynt yn yr un flwyddyn i'r defnydd o Gytundeb ynghylch Llwyth Gwaith Athrawon a ganfu nifer o bryderon mewn perthynas â swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion. Roedd y meysydd o ddiddordeb penodol yn cynnwys cyfathrebu rhwng cyrff llywodraethol a'r awdurdod lleol a LICC, y berthynas rhwng llywodraethwyr a'r penaethiaid, hyfforddi llywodraethwyr ac a ddylai hyn fod yn orfodol, a'r achosion a nifer y lleoedd gwag ymhlith llywodraethwyr.

¹⁴ Sylfaenwyd y costau oddi fewn i'r cytundeb ar nifer o gyfarfodydd a glerciwyd, a'r math o ysgol (cynradd/uwchradd) ymhlith ffactorau eraill. Felly mae costau CLG yn amrywio cryn lawer oddi fewn i awdurdodau lleol.

¹⁵ *Gwasanaethau Clercio Cyrff Llywodraethol yng Nghymru*, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil 2005.

Daeth y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Menter a Dysgu o ymgynghoriad gydag ystod o randdeiliaid¹⁶, a phwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno dyfarniad dealladwy ar swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru.

Trefniadau clericio cyrff llywodraethol

Edrychodd y Pwyllgor yn benodol ar swyddogaeth clercod cyrff llywodraethol¹⁷, a'r gwahanol drefniadau clericio sydd yn eu lle ledled Cymru, gan ddyfynnu safbwyntiau gwahanol rhanddeiliaid ar werth y trefniadau hyn. Adnabu Llywodraethwyr Cymru y problemau sy'n wynebu rhai awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaeth clericio i bob ysgol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ond hefyd roeddent yn tynnu sylw at anhawster cyrff llywodraethwyr i recriwtio clerc yn annibynnol. Mynegodd Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru (CLILC) hefyd bryder fod rai ysgolion yn profi anawsterau wrth recriwtio clercod i gyrff llywodraethol, a'r perygl ble mae clercod yn cael eu cyflogi gan yr ysgol dan gytundeb gwahanol fod "rhaniadau'r swyddogaethau yn cael eu cymylu".

I gydnabod absenoldeb darlun cynhwysfawr o'r gwahanol drefniadau clericio a'u heffeithiolrwydd gweithredol, argymhellodd y Pwyllgor arolygu perfformiad y clercod a chwilio am ddulliau arloesol o ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth. Cefnogwyd yr argymhelliad yn ymateb y gweinidog, ac a arweiniodd o ganlyniad at gomisiynu'r gwaith ymchwil hwn.

Monitro a gwerthuso

Mynegodd y Pwyllgor eu pryderon am hyd yr amser rhwng arolygiadau ysgolion, ac argymhellwyd y dylai awdurdodau lleol gael gwell cyfrifoldeb dros fonitro a gwerthuso'r gwaith a wneir yn eu hysgolion eu hunain, a gwneud hyn o bosib drwy swyddogaeth y corff llywodraethol. Wrth ymateb i'r Pwyllgor, gwnaeth y CLILC y sylw os yw swyddogaeth y clerc i'w datblygu i fod yn swyddogaeth addas gymwysedig, mae'n rhaid i'r swydd gael ei thalu'n briodol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n anodd rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i glercod am reoli busnes y corff llywodraethol heb gyflogi gweithiwr proffesiynol cyflogedig, a byddai hyn yn golygu adnoddau gan LICC.

Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad mewn egwyddor, i gydnabod pwysigrwydd canfod y gwendidau a mynd i'r afael â hwy'n gyflym. Fodd bynnag, ni wnaeth y Gweinidog dderbyn fod angen pwerau ymyrraeth ychwanegol ar awdurdodau lleol, nac, yn ei dro, fod y sefyllfa'n gwarantu cyllideb ychwanegol i fonitro perfformiad ysgol ac i ymyrryd ble mae hynny'n angenrheidiol. Ymhellach, tra roedd y Gweinidog yn cytuno fod efallai swyddogaeth i glercod cyrff llywodraethol wrth fonitro perfformiad cyrff llywodraethol, ac mewn rhai achosion yr ysgol ei hun, mynegwyd pryder ynglŷn â "*gosod clercod mewn safleoedd o fod, neu o ymddangos, fel llygaid*

¹⁶Gan gynnwys y gweinidog (ar y pryd) dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'i swyddogion; Llywodraethwyr Cymru; Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon; Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, ac Estyn.

¹⁷Yn nhermau gweithredu fel ysgrifennydd i'r corff llywodraethol, a hefyd wrth gynnig cyngor trefniadol a chyfreithiol.

a chlustiau'r awdurdodau lleol pan oeddent mewn gwirionedd yn benodai ac yn weision y corff llywodraethol". Felly cynghorodd y Gweinidog y dylid gohirio dedfryd ar swyddogaeth newydd i'r clerics nes y gwneid ymchwil pellach – hy, yn dilyn yr adolygiad hwn.

Hyfforddiant a chymorth i gyrff llywodraethol

Cyfeiriodd adroddiad y Pwyllgor at ymchwil diweddar¹⁸ i lefel y cymorth a'r hyfforddiant oedd ar gael mewn awdurdodau lleol, oedd yn canfod perthynas rhwng gwahanol lefelau o amser ymroddedig swyddog cymorth i lywodraethwr a gallu'r awdurdod lleol i drosglwyddo rhaglen hyfforddiant orfodol.

Gwnaeth y CLILC y sylw fod rhai clerics yn teimlo'n anabl i gymryd swyddogaeth ymgynghorol ar faterion cymhleth ond yn lle hynny yn dibynnu ar y cyngor a gynigir gan awdurdodau lleol a llinell gymorth Llywodraethwyr Cymru. Gwnaeth y CLILC hefyd y pwynt fod hyfforddiant ar y cyd rhwng cadeiryddion cyrff llywodraethol a chlerics yn effeithiol yn nhermau caniatáu i'r ddwy ochr i ennill "dealltwriaeth ddefnyddiol o'u swyddogaethau priodol a'r ffiniau rhyngddynt".

Wrth ddyfynnu canfyddiadau o waith ymchwil diweddar, gwnaeth y Pwyllgor y sylw fod yna eisoes raglen hyfforddi llywodraethwyr blynyddol yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, gan gynnwys rhaglen hyfforddiant a gyllidwyd gan LICC i gadeiryddion a chlerics¹⁹. Fodd bynnag, tra canfuwyd fod presenoldeb (llywodraethwyr) yn y digwyddiadau hyfforddi ar y cyfan yn dda, roedd hyn yn rhywbeth y nodwyd y gellid ei wella ac mewn rhai awdurdodau lleol canfuwyd cydberthynas rhwng y corff llywodraethol uchaf ei bresenoldeb ac arolwg ysgol ardderchog.

Casglodd y Pwyllgor fod 22 gwahanol fodel o hyfforddiant a chymorth gan awdurdodau lleol a thra nad oedd un dull o hyfforddi yn gweddu i bawb, cydnabuwyd y byddai un model cymorth sylfaenol creiddiol yn fanteisiol. Yn ei dro cymeradwyodd y Gweinidog hyfforddiant ymarferwyr cyrff llywodraethol ar y cyd presennol, a thanlinellodd yr angen i awdurdodau lleol ymestyn hyfforddiant ar y cyd, yn arbennig wrth i Framwaith Effeithiolrwydd Ysgol aeddfedu. Cyfeiriodd y Gweinidog at wahanol sianelau cyfathrebu i lywodraethwyr sy'n bodoli ar hyn o bryd²⁰, a anogodd awdurdodau lleol i ddefnyddio'r pecyn hyfforddi sydd i'w gael, yn rhad ac am ddim, i glerics²¹.

I grynhoi, yn y gwaith a ymgymerwyd gan y Pwyllgor ac yn yr ymatebion dilynol gan y Gweinidog ar y pryd a rhanddeiliaid eraill, ystyriwyd swyddogaeth llywodraethwyr

¹⁸ *Darpariaeth Hyfforddiant Awdurdod Lleol i Lywodraethwyr Ysgol yng Nghymru, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil*, 2008.

¹⁹ Sef, Swyddogaeth y Clerics a Swyddogaeth y Cadeirydd, wedi'i ddatblygu gan Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi a Datblygu Llywodraethwyr.

²⁰ Gan gynnwys y cylchlythyr tymhorol 'Cadwyn' wedi'i gyllido gan LICC, yn ogystal ag ymgynghoriadau ac arweiniad gan LICC, cylchlythyrau awdurdod lleol a digwyddiadau, a chynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol wedi'u ffurfio gan gymdeithasau lleol Llywodraethwyr Cymru.

²¹ Wedi'i gyllido gan LICC a'i gynhyrchu gan Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil.

ysgolion mewn ystyr eang. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys materion mewn perthynas â threfniadau clericio, hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr a chlercod, a chyfrifoldebau dros fonitro cyrff llywodraethol. Mae hyn yn cynnig sylfaen o dystiolaeth ddefnyddiol a chymharol i gyfarwyddo'r adolygiad hwn.

Gwasanaethau clericio cyrff llywodraethol yng Nghymru

Cyn y gwaith a ymgwymerwyd gan y Pwyllgor Menter a Dysgu, comisiynwyd gwaith ymchwil gan LICC yn benodol ar glercod cyrff llywodraethol²². Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o ddarpariaeth clericio awdurdodau lleol ar draws 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn 2005:

Ffigur 1 Darpariaeth clericio awdurdodau lleol (2005)

Darpariaeth	Nifer yr ysgolion
Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaeth clericio i bob un o'i ysgolion.	4
Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaeth clericio i rai ysgolion yn unig.	11
Awdurdodau Lleol ddim yn darparu gwasanaeth clericio o gwbl.	7

Yn yr ardaloedd ble roedd darpariaeth clericio yn gyfyngedig (hy, wedi'i gynnig i rai ysgolion ond nid i eraill) methodd yr ymchwilwyr â chanfod unrhyw fath o sail resymegol gyson naill ai dros ble roedd y gwasanaeth clericio'n cael ei gynnig neu ble roedd ysgolion unigol wedi dewis ei dderbyn. Roedd y ddarpariaeth a'r dderbyn wedi'i seilio ar benderfyniad strategol yn yr awdurdod lleol arbennig, ee cynnig gwasanaeth clericio i ysgol gynradd gymunedol yn unig, neu ddewis unigol y corff llywodraethol.

Darganfuwyd mai staffio annigonol oedd y prif reswm pam nad oedd rhai awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth clericio neu ddim ond yn cynnig gwasanaeth cyfyngedig. Ymhellach, roedd y mwyafrif o'r rhai oedd yn darparu gwasanaethau clericio yn 2005 yn ddibynnol ar gefnogaeth yr Adran Addysg y tu allan i Uned Cefnogi Llywodraethwyr (UCLI), yn arbennig ymhlith y rhai oedd yn cynnig darpariaeth gyffredinol²³. Yn nhermau sut yr oedd hyn yn cael ei drosglwyddo i nifer y cyrff llywodraethol oedd yn dewis defnyddio'r gwasanaeth, roedd amrywiaeth mawr, er fod y clercod hynny oedd yn rhan o dim y UCLI yn gyffredinol yn clericio mwy o gyrff llywodraethol na swyddogion eraill oddi fewn i'r Adran Addysg²⁴.

Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid a holwyd yn ystod yr ymchwil yn mynegi pryder am nifer y cyrff llywodraethol oedd yn cael eu clericio gan swyddogion unigol mewn rhai awdurdodau lleol, a'r effaith andwyol ymddangosiadol y gallai hynny ei gael ar ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Oedi wrth gynhyrchu cofnodion, cofnodion anghywir neu gofnodion generig, diffyg amhleidioldeb a ffyddlondeb

²² *Gwasanaethau Clericio Cyrff Llywodraethol yng Nghymru*, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, 2005.

²³ Mewn un awdurdod roedd hyd at 25 o swyddogion yn clericio cyfarfodydd llywodraethwyr.

²⁴ Mewn un awdurdod lleol er enghraifft, roedd swyddogion nad oeddent yn aelodau o dîm UCLI yn clericio 6 cyfarfod ar gyfartaledd, tra roedd Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr yn clericio 11 neu 12.

rhanedig (tuag at yr awdurdod lleol) a chyfathrebu gwael â'r ysgol oedd rhai o'r cwynion allweddol a wnaed yn 2005 mewn perthynas â (rhai) clercod awdurdodau lleol. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, argymhellodd yr ymchwilyr fod awdurdodau lleol yn cyfyngu nifer y cyrff llywodraethol sy'n cael eu clerco gan swyddogion unigol, i sicrhau eu bod yn cael digon o amser i gyflawni eu swyddogaeth fel clerc yn foddhaol.

O ystyried y cwynion am ansawdd amrywiol gwasanaeth clerco'r awdurdod lleol, roedd yn fater o bryder canfod fod monitro a gwerthuso gwasanaeth clerco'r awdurdod i'w hysgolion mor gyfyngedig²⁵. Y dulliau mwyaf cyffredin o fonitro oedd drwy ffurfienni gwerthuso yn cael eu cwblhau gan y cyrff llywodraethol, a chyfarfodydd rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a chadeiryddion y cyrff llywodraethol. Roedd nifer mwy cyfyngedig o awdurdodau lleol i'w canfod yn arsylwi cyfarfodydd neu'n monitro cofnodion, fel ffordd o werthuso ansawdd y gwasanaeth clerco.

Pan ddaeth yn fater o fonitro perfformiad y clercod nad oeddent yn gweithio i awdurdod lleol, canfuwyd bod yr awdurdodau lleol hynny nad oeddynt yn darparu gwasanaeth clerco o gwbl yn fwy ymroddgar na'r rhai oedd yn cynnig gwasanaeth clerco i rai cyrff llywodraethol. Yn y ddau achos roedd monitro wedi'i gyfyngu'n gyffredinol i ddarllen cofnodion y corff llywodraethol a darparu cyngor ac arweiniad ad hoc, er bod lleiafswm o enghreifftiau ble roedd gweithgareddau monitro ychwanegol²⁶. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai ychydig iawn o gyngor a roddwyd i gyrff llywodraethol ar ddulliau hunan fonitro.

Roedd gwaith ymchwil 2005 hefyd yn cynnwys adran sylweddol ar ddarpariaethau hyfforddi sydd eisoes yn bod i glercod cyrff llywodraethol. Bwriadwyd yr adroddiad fel sylfaen wybodaeth y trefniadau cyfredol, ac i lywio datblygiad rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant clercod yng Nghymru.

Ar y pryd cynigiwyd hyfforddiant i glercod gan bob un o bedwar awdurdod lleol oedd yn cynnig gwasanaeth clerco i bob corff llywodraethol, ac roedd wyth o'r 11 awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth clerco i rai cyrff llywodraethol. Er hynny, nid oedd darpariaeth o anghenraid yn hafal i bresenoldeb²⁷, a daeth yr ymchwilyr i'r casgliad fod nifer fawr o swyddogion UCLI yr awdurdod lleol heb dderbyn hyfforddiant ffurfiol. Fodd bynnag, datgelwyd er bod presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol yn gallu bod yn isel, fod y mwyafrif o awdurdodau lleol yn cynnal "fforymau clercod" oedd yn gyffredinol yn cwmpasu hyfforddiant anffurfiol, diweddariad ar y newidiadau cyfreithiol a thrafodaethau am bryderon cyffredinol.

Roedd naw o'r 11 awdurdod lleol oedd yn darparu gwasanaeth clerco i rai o'u hysgolion yn cynnig cyrsiau hyfforddi tra roedd dau yn trosglwyddo gwybodaeth

²⁵ O'r 15 awdurdod lleol oedd yn darparu gwasanaeth clerco, doedd gan chwech ddim dulliau ffurfiol yn eu lle i fonitro eu darpariaeth, tra roedd pedwar awdurdod lleol ddim ond yn defnyddio un dull o fonitro ffurfiol.

²⁶ Er enghraifft, mae un awdurdod lleol hefyd yn trafod materion clerco gyda chadeiryddion llywodraethwyr, tra roedd ail awdurdod lleol yn gwneud archwiliad blynyddol o safbwyntiau'r llywodraethwyr.

²⁷ Dim ond mewn naw o'r 12 awdurdod lleol sy'n darparu hyfforddiant mae swyddogion UCLI wedi bod yn bresennol ar gyrsiau.

am gyrsiau hyfforddi oedd yn cael eu cynnig gan ddarparwyr eraill. O ran hyfforddiant i glercod yn yr awdurdodau lleol nad oeddent yn darparu gwasanaeth clerco o gwbl, roedd chwech allan o saith yn trefnu cyrsiau hyfforddi clercod. Hawliai un eu bod yn trosglwyddo gwybodaeth am hyfforddiant oedd ar gael gan ddarparwyr eraill fel awdurdodau lleol eraill neu Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil.

Archwiliodd y gwaith ymchwil hefyd safon gymharol darpariaeth hyfforddi'r awdurdod lleol, a chanfod fod ansawdd ac addasrwydd yr hyfforddiant yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd. Roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am raglen gynhwysfawr o hyfforddi clercod i sicrhau dull cyson a pherthnasol o hyfforddi clercod, angen a atseiniwyd mewn argymhellion dilynol gan yr ymchwilwyr.

Yn nhermau gwasanaethau i gyrrff llywodraethol nad ydynt yn cael eu cynnig, neu sydd ddim yn derbyn y cynnig o wasanaethau clerco awdurdod lleol, roedd hyn yn golygu darparu swydd ddisgrifiadau a/neu ganllawiau cyflog. Fodd bynnag, canfuwyd fod y ddarpariaeth yn llawer mwy cyffredin ymhlith awdurdodau lleol nad oedd yn darparu gwasanaeth clerco o gwbl nag ymhlith y rhai oedd yn darparu gwasanaeth clerco i ryw raddau²⁸.

Canfu'r gwaith ymchwil fod gwahaniaeth sylweddol yn y ddarpariaeth, cynnwys ac ansawdd hyfforddi ac arweiniad i glercod ledled Cymru, yn ogystal ag amrywiaeth yn y presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi clercod. Yn gyffredinol, roedd 18 allan o bob un o'r 22 awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnig hyfforddiant clercod yn 2005, naill ai i glercod awdurdod lleol a/neu glercod oedd ddim yn glercod awdurdod lleol.

Wedi nodi'r angen am hyfforddiant o ansawdd uchel, a hyfforddiant gwahaniaethol i glercod, un o argymhellion y gwaith ymchwil oedd y dylid cynhyrchu rhaglen hyfforddi rhenciog, genedlaethol, fyddai'n gweddu i glercod profiadol ac amhrofiadol²⁹. Ar lefel awdurdod lleol, argymhellwyd fod pob awdurdod lleol yn cynnal "fforymau clercod"³⁰, ac y dylid eu gwneud yn agored i bob clerc, heb ystyried a oeddent wedi'u cytundebu drwy'r awdurdod lleol ai peidio.

Roedd y gwahaniaethiad yn y gwasanaethau a gynigiwyd i glercod nad oeddent yn perthyn i awdurdod lleol yn cael ei amlygu fel mater o bryder. Arweiniodd hyn yr ymchwilwyr i nodi'r angen am swydd ddisgrifiad safonol a chanllawiau cyflog i

²⁸ Mae chwech o'r saith awdurdod lleol nad ydynt yn darparu gwasanaeth clerco yn darparu swydd ddisgrifiad i glercod, ac mae pob un ohonynt yn darparu canllawiau cyflog i glercod. Fodd bynnag, o'r 11 awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaeth clerco, dim ond 3 sy'n darparu swydd ddisgrifiadau i gyrrff llywodraethol ysgolion sy'n derbyn y cynnig o wasanaeth clerco, tra mai dim ond 5 o'r rhain sy'n darparu canllawiau cyflog.

²⁹ Cymeradwyid ganddynt fod Lefel 1 yn cael ei anelu at glercod newydd ac y dylent ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau fel ysgrifenyddion ac yn cynnwys pynciau tebyg i agenda a pharatoi a threfnu cyfarfodydd, cymryd cofnodion a storio gwybodaeth. Dylai Lefel 2 gwmpasu swyddogaethau ysgrifenyddol a chynghori'r clerc a chynnwys pynciau fel gweithdrefnau cyfarfodydd, cyfarfodydd pen set, llythyru ar ran y corff llywodraethol a ffin dylanwad y clerc.

³⁰ Cynigia'r fforymau hyn y cyfle i dderbyn y datblygiadau diweddaraf ar newidiadau deddfwriaethol ac i drafod materion o bryder cyffredinol ac i rannu ymarfer gorau mewn ardaloedd tebyg i gosod agenda, dulliau cymryd cofnodion a chadw cofnodion.

glercod i sicrhau cysondeb yn lefel sylfaenol gwasanaeth clercio a chyflog i glercod am eu gwaith.

Yr argymhellion mwy cyffredinol ar gyfer trefniadau clercio oedd:

Fod awdurdodau lleol yn defnyddio gweithdrefnau ffurfiol i sicrhau monitro effeithiol o berfformiad clercod cyrff llywodraethol naill ai gan yr awdurdod lleol neu gan gyrff llywodraethol unigol.

Dylid cynhyrchu set o weithdrefnau monitro cenedlaethol i gynorthwyo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol unigol.

Dylai awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaeth clercio gyfyngu'r nifer o gyrff llywodraethol a glercir gan bob swyddog, o bosib drwy gynyddu nifer y swyddogion awdurdod lleol sy'n clercio cyrff llywodraethol.

Yn amlwg mae'r dystiolaeth o waith ymchwil 2005 yn sail bwysig i'r adolygiad hwn o hyfforddiant i glercod cyrff llywodraethol a pherfformiad clercio ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw trefniadau clercio yng Nghymru wedi aros yn ei unfan ers 2005, fel y datgelwyd drwy ddarn pellach o waith ymchwil, a wnaed dair blynedd yn ddiweddarach, i hyfforddi a chymorth i gyrff llywodraethol.

Darpariaeth hyfforddi awdurdodau lleol i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru

Yn 2008, comisiynwyd gwaith ymchwil i ddarpariaeth hyfforddi llywodraethwyr gan awdurdodau lleol³¹, ac er nad oedd y gwaith yn benodol am glercod cyrff llywodraethol, nododd nifer o broblemau sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn.

Fel yn 2005, canfu'r ymchwilwyr amrywiadau sylweddol yn lefelau staffio'r UCLI ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, heb gydberthynas glir rhwng maint poblogaethau llywodraethwyr awdurdodau lleol a'r nifer o staff oedd yn gweithio'n unswydd i Gymorth Llywodraethwyr³². Ymhellach cafwyd gwybod am amrywiadau arwyddocaol eraill oedd yn effeithio ar lefel adnoddau dynol yn y gwahanol UCLI³³. Wedi'i gyfuno â hyn oedd y ffaith fod y mwyafrif o swyddogion yn yr UCLI awdurdod lleol gyda chyfrifoldebau eraill³⁴.

O arwyddocâd arbennig yw bod nifer yr awdurdodau lleol sydd *ddim* yn cynnig gwasanaeth clercio rhwng 2005 a 2008 wedi cynyddu o saith i un ar ddeg, sy'n golygu erbyn 2008 (dwy flynedd cyn yr adolygiad presennol) mai dim ond hanner yr

³¹ *Darpariaeth Awdurdod Lleol i Lywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru*, Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddiant Llywodraethwyr ac Ymchwil, 2008.

³² Er enghraifft, doedd gan Abertawe (1,422 o lywodraethwyr) a Gwynedd (1,736 o lywodraethwyr) ddim ond 2 aelod o staff yn eu UCLI, ac roedd gan y ddau unigolyn yn y ddau awdurdod lleol gyfrifoldebau eraill y tu allan i'r uned. Mewn cymhariaeth roedd gan Merthyr Tudful (412 o lywodraethwyr) chwech aelod o staff yn ei UCLI a Thorfaen (529 o lywodraethwyr) bedwar (ac unig gyfrifoldeb y ddau yw cynorthwyo llywodraethwyr.

³³ Er enghraifft roedd y gwahaniaethiad rhwng aelodau rhan amser ac amser llawn y staff yn arwyddocaol.

³⁴ Dim ond naw awdurdod lleol sydd â staff a'u hunig gyfrifoldeb yw cynorthwyo'r llywodraethwyr, tra, mewn pedwar awdurdod lleol mae prif gyfrifoldeb y staff i gyd yn yr UCLI y tu allan i gymorth llywodraethwyr.

awdurdodau lleol yng Nghymru oedd yn cynnig gwasanaeth clericio. Canfuwyd hefyd fod tuedd daearyddol sylweddol yn narpariaeth gwasanaeth clericio'r awdurdodau lleol, yn gymaint nad oedd gwasanaeth yn cael ei gynnig gan yr un o awdurdodau Gogledd Cymru, tra roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn Ne Cymru yn cynnig gwasanaethau clericio³⁵. Er hynny, ychydig o gydberthynas a ganfuwyd rhwng maint yr awdurdod lleol a nifer y swyddogion yn yr UCLI, na rhwng maint yr awdurdod lleol a darpariaeth gwasanaeth clericio'r awdurdod lleol.

Fodd bynnag, prif ffocws y gwaith ymchwil fu ceisio canfod maint a natur hyfforddiant llywodraethwyr a gynigir gan awdurdodau lleol. Y dystiolaeth oedd nad oedd hyfforddi llywodraethwyr³⁶ yn ddim ond un o sawl dyletswydd swyddogion yr UCLI, a hynny gydag eithriad o ddau awdurdod lleol. Ni threuliodd yr un swyddog UCLI yng Nghymru fwy na 50% o'i amser ar hyfforddi llywodraethwyr tra bod 14 ohonynt wedi treulio llai na 30% o'u hamser ar hyfforddi llywodraethwyr. Fodd bynnag canfu'r ymchwilwyr gysylltiad rhwng hyfforddi a darparu gwasanaeth clericio. Dim ond tri allan o'r wyth swyddog oedd yn treulio 30% neu fwy o'u hamser ar hyfforddi llywodraethwyr oedd hefyd yn darparu gwasanaeth clericio awdurdod lleol i'w hysgolion. Mewn geiriau eraill roedd yr awdurdodau lleol *nad oedd* yn cynnig gwasanaeth clericio yn debyg o gael mwy o amser i'w roi i hyfforddi llywodraethwyr. Mae'r ffaith fod clericio cyrff llywodraethol yn cael ei ddyfynnu fel dyletswydd llafurus wedi arwain yr ymchwilwyr i gasglu fod yr awdurdodau lleol sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn debyg o roi canran llai o'u hamser i hyfforddi llywodraethwyr. Ymhellach, awgrymwyd ble darparwyd gwasanaeth clericio gan awdurdod lleol, y tybiwyd nad oedd sesiynau hyfforddi ffurfiol i glercod yn angenrheidiol.

Fodd bynnag, roedd yr ymchwilwyr yn cydnabod nad oedd hwn yn gasgliad grymus, a gall y berthynas rhwng darpariaeth clericio a darpariaeth hyfforddi fod yn llawer mwy cymhleth na hyn.

Symudodd yr ymchwilwyr ymlaen wedyn i edrych ar natur yr hyfforddiant a gynigir gan awdurdodau lleol a chanfod 22 pwnc a gwmpaswyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2006 a 2008. Roedd y pum pwnc mwyaf cyffredin³⁷ yn cynnwys Cyflwyniad i Lywodraethwyr Newydd (pob awdurdod lleol), Gwarchod y Plentyn (21 awdurdod lleol), Materion Addysg Anghenion Arbennig (20 awdurdod lleol), a Monitro Ariannu/Cyllideb (20 awdurdod lleol). Cynigiwyd hyfforddiant i glercod gan 16 awdurdod lleol, oedd yn cynrychioli gostyngiad cyffredinol ers 2005³⁸.

Mae hyn yn taflu'r berthynas honedig rhwng darpariaeth clericio a hyfforddi i fwy o amheuaeth, o ystyried rhwng 2005 a 2008 fod nifer yr awdurdodau lleol oedd yn darparu gwasanaeth clericio *a'r* awdurdodau lleol oedd yn cynnig hyfforddiant i glercod wedi gostwng.

³⁵ Gydag eithriad o Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Bro Morgannwg.

³⁶ Diffiniwyd 'hyfforddiant' fel cwmpasu trefnu, bod yn bresennol neu bod yn gyfrifol am sesiynau unigol, dadansoddi data etc., ond nid oedd yn cynnwys hyfforddiant 'anffurfiol' tebyg i gynghori cyrff llywodraethol neu lywodraethwyr unigol ar faterion cyfreithiol neu gweithredol.

³⁷ Wedi'u cwmpasu gan 20 neu fwy o awdurdodau lleol rhwng 2006 a 2008 fel y diffiniwyd gan eu hymddangosiad mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr awdurdod lleol.

³⁸ Pan oedd 18 o awdurdodau lleol yng Nghymru'n cynnig hyfforddiant i glercod.

Ffactor arall o ddiddordeb i'r adolygiad hwn oedd y canfyddiad fod hyfforddiant i glystyrau o gyrff llywodraethol³⁹ yn cynyddu yn ei boblogrwydd, gyda phedwar ar ddeg o awdurdodau lleol yn cynnig y gwasanaeth hwn rhwng 2006 a 2008 a dau arall yn dechrau yn 2008. Ni wnaeth unrhyw un o'r awdurdodau lleol nodi iddynt ddarparu unrhyw ffurf ar ddysgu o bell rhwng 2006 a 2008 (er i *lywodraethwyr*) ac eithrio un a ddywedodd ei fod wedi gosod gwybodaeth ar wefan yr awdurdod⁴⁰.

Ymgwymerodd pob un o'r awdurdodau lleol â rhyw ffurf o fonitro a gwerthuso rhaglenni hyfforddi, a'r dull mwyaf poblogaidd o bell ffordd (yn wir yr un cyffredinol) oedd ffurflenni gwerthuso wedi'u cwblhau ar ddiwedd y sesiynau hyfforddi gan y rhai oedd yn bresennol. Defnyddiodd pymtheg o awdurdodau lleol o leiaf un dull arall o fonitro a gwerthuso hyfforddiant⁴¹.

Er na wnaeth y gwaith ymchwil ganolbwyntio'n benodol ar glercod, mae'n cynnig mewnwelediad defnyddiol i rai o'r problemau oedd yn effeithio darpariaeth hyfforddiant i lywodraethwyr a gynigiwyd gan awdurdodau lleol a'r cydberthynas y gall hyn fod wedi'i gael (neu beidio) ar ddarpariaeth gwasanaeth clercio llywodraeth leol yn 2008. Mae hefyd yn datgelu gostyngiad yn y cyfartaledd o awdurdodau lleol sy'n cynnig gwasanaeth clercio ers y gwaith ymchwil blaenorol, o bosibl yn awgrymu gogwydd ar i lawr yn narpariaeth gwasanaeth clercio awdurdodau lleol.

3.4 Crynodeb o'r prif bwyntiau

Mae'r adolygiad strategol wedi cyflawni sawl pwrpas:

Mae'n crynhoi'r anghenion statudol i glercod cyrff llywodraethol ysgolion fel y gosodwyd allan yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Mae'n adolygu'r dystiolaeth ymchwil ddiweddar sy'n ymwneud â threfniadau clercio, a hyfforddiant a chymorth i glercod yng Nghymru.

Mae'n datgelu fod ymarferion clercio'n amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda thair prif fodel wedi'u gosod yn eu lle:

Clercod awdurdod lleol wedi'u hapwyntio drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gydag awdurdod lleol.

Aelod o staff yr ysgol nad yw ar staff addysgu'r ysgol (er enghraifft clerc ysgol neu fwrser) yn gweithio fel clerc.

³⁹ Y ffordd mwyaf cyffredin o ddarparu'r math hwn o hyfforddiant oedd trefnu sesiynau i gorff llywodraethol ysgol uwchradd ac i gorff llywodraethol ysgolion Cynradd oedd yn "bwydo'r" ysgolion uwchradd.

⁴⁰ Cydnabu'r ymchwilwyr eu bod yn "amheus" os oedd hyn yn golygu "hyfforddi" mewn gwirionedd.

⁴¹ Roedd hyn yn cynnwys: holi llywodraethwyr unigol; arolygon drwy'r awdurdod lleol i gyd o'r cyrff llywodraethol; adborth gan lywodraethwyr Cyswllt; y defnydd o bôl piniwn proffesiynol; ac adroddiadau o hyfforddi mewn cyfarfodydd cyrff llywodraethol gan lywodraethwyr a fu'n bresennol yn yr hyfforddiant.

Rhywun o'r gymuned leol yn gweithio fel clerc.

Mae'n crynhoi rhinweddau cymharol pob un o'r modelau.

Mae'n datgelu fod y lefel o gymorth a chyfleoedd hyfforddi a ddarperir ac a ddefnyddir gan gyrff llywodraethol yn amrywio llawer.

4. Gweithgaredd clericio y corff llywodraethu

4.1 Cyflwyniad


Fel y dangoswyd uchod, mae trefniadau gweithgaredd clericio cyrff llywodraethol wedi amrywio'n eang ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Amcan yr ymchwil hwn oedd sefydlu sut mae'r gwahanol fodelau o glercio yn gweithio yn ymarferol, perfformiad y clercod wrth gyflawni eu dyletswyddau, i ddarparu offer gwerthuso y gellir ei ddefnyddio i werthuso perfformiad clerc, ac i adolygu maint a natur y cymorth a'r hyfforddiant sydd ar gael i glercod.

Cynhwysodd yr adolygiad raglen eang o waith ymchwil ansoddol a meintiol. Cynhaliwyd dau arolwg dwyieithog i glercod a chadeiryddion cyrff llywodraethol gyda chyfradd ymateb o 261 (clercod) a 301 (cadeiryddion). Fe wnaeth tua 11% o'r ymatebwyr i bob arolwg ateb y cwestiynau yn y Gymraeg.

4.2 Darpariaeth gwasanaeth clericio yr awdurdod lleol

Mae nifer yr awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG clericio i rai neu i bob un o'r cyrff llywodraethol wedi aros yn gyson ers 2008; mae naw awdurdod lleol yn cynnig i bob un o'r cyrff llywodraethol; dau yn cynnig gwasanaeth rhannol, ac mae 11 awdurdod lleol nad yw'n cynnig CLG clericio o gwbl.

Ffigur 2 Hyd a lled darpariaeth clericio awdurdodau lleol



Ymhlith yr UCLI sy'n cynnig CLG clericio, mae faint o staff awdurdodau lleol sy'n gweithio fel clercod i gyrff llywodraethol hefyd yn parhau i amrywio'n fawr. Mewn


un awdurdod lleol ar hyn o bryd mae 18 aelod unigol⁴² o staff yn gweithio fel clercod i gyrff llywodraethol, tra mewn ardal arall nid oes ond tri o staff yr awdurdod lleol yn darparu'r gwasanaeth. Yn y mwyafrif o awdurdodau ymgwymerir â'r clerccio gan aelodau o'r tîm UCLI. Fodd bynnag, mae bron i bumed ran o'r UCLI sy'n cynnig y CLG yn defnyddio staff adrannau eraill yr awdurdod lleol i ddarparu'r gwasanaeth. Mae hyn yn newid arwyddocaol ers 2005, pan mai dim ond tri o'r pymtheg awdurdod lleol oedd yn cynnig CLG clerccio i rai neu bob un o'r ysgolion oedd yn dibynnu ar yr UCLI yn unig i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae rhai CLG yn blaenoriaethu ysgolion arbennig; er enghraifft yng Ngheredigion a Phen-y-bont ar Ogwr targedir darpariaeth i ysgolion cynradd, neu yng Nghaerdydd ble caiff ysgolion uwchradd eu blaenoriaethau i'r CLG. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan rai swyddogion UCLI yn awgrymu nad yw awdurdodau nad ydynt yn cynnig CLG yn rheolaidd, yn cynnig gwasanaeth clerccio dros dro dan rai amgylchiadau, er enghraifft yn ystod cyfuniadau neu i ysgolion sy'n wynebu anawsterau.

Fel y sefydlwyd yn yr adolygiad llenyddol uchod, mae'n dal i fod yn ddewis i'r corff llywodraethol unigol os ydynt yn dymuno derbyn y CLG. Trafodir rhai ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewis mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn. Mae'r graff isod (yn darlunio'n unig yr awdurdodau lleol hynny sy'n cynnig CLG clerccio) yn dangos y gyfran o'r ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n dewis derbyn y gwasanaeth mewn perthynas â nifer yr ysgolion yn yr awdurdod lleol perthnasol.

⁴² Mewn rhai achosion mae hyn yn cynnwys aelodau o'r staff nad ydynt wedi'u lleoli yn yr uned cefnogi llywodraethwyr.

Ffigur 3 Cyfran sy'n derbyn CLG clericio ar lefel cynradd ac uwchradd




Mewn nifer fach o awdurdodau lleol (i gyd yn Ne Ddwyrain Cymru) mae bron iawn i bawb yn derbyn y CLG. Fodd bynnag, mewn awdurdodau eraill ble darperir CLG, mae nifer trawiadol o gyrff llywodraethol yn cael eu clericio drwy ffyrdd eraill. Amcan allweddol yr ymchwil hwn fu ystyried y gefnogaeth a'r hyfforddiant oedd ar gael i glercod nad oeddent yn perthyn i awdurdod lleol yn yr ardaloedd hynny oedd yn cynnig y gwasanaeth, yn ogystal â'r ardaloedd ble *na chynigir* CLG clericio.

Roedd saith deg un y cant o'r cadeiryddion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn dod o awdurdodau lleol oedd yn cynnig gwasanaeth clericio CLG. Fodd bynnag, dim ond

56% o'r sampl cyfan o gadeiryddion oedd â chlerc awdurdod lleol wedi'i gytundebu i gorff llywodraethol perthnasol drwy CLG. Golyga hyn fod 44% o'r atebwyr yn cael eu cefnogi yn eu swyddogaeth fel cadeirydd gan naill ai clerc o'r ysgol neu o'r gymuned.

Cafodd arolwg y clercod ymateb ychydig yn wahanol yn nhermau trefniadau clerco, fel y nodir yn y siart isod:

Ffigur 4 Ymatebwyr Arolwg clerco yn ôl y math o glerc




Daeth llai na chwarter o'r ymatebion oddi wrth glercod yr awdurdodau lleol, tra daeth y mwyafrif oddi wrth glercod mewn ysgol. Clercod oedd yn annibynnol o'r ysgol a'r awdurdod lleol oedd y ganran leiaf o ymatebwyr.

Daeryddiaeth a laith

Mae'r map isod yn dangos pa awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd yn cynnig darpariaethau rhannol, cyffredinol neu ddim darpariaeth, a dengys tuedd daeryddol arwyddocaol yn narpriaeth CLG clerco.

Ffigur 5 Darpariaeth clerco awdurdod lleol




Mae darpariaeth clerco awdurdod lleol yn tra-arglwyddiaethu yn Ne Ddwyrain Cymru ac i raddau llai yng Ngorllewin a De Orllewin Cymru. Ni chynigir gwasanaeth clerco gan yr un o awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

Adlewyrchir y duedd hon yn y data sy'n cyfeirio at ble mae arolwg y clerco yn dod ohono, o ystyried nad oedd yr un o'r ymatebion o Ogledd a De Orllewin Cymru gan

glercod awdurdodau lleol a gyflogwyd drwy CLG. Roedd bron pob ymatebydd o Dde Orllewin Cymru a dros ddwy ran o dair o'r clerccod o Ogledd Cymru yn aelodau staff mewn ysgol, fel y dangosir yn y graff canlynol.


Ffigur 6 Rhanbarthau⁴³ fesul y math o glerc



Dengys y graff isod yn achos y tri math o glerc fod y mwyafrif wedi cwblhau'r arolwg yn Saesneg. Fodd bynnag, mae'r gyfran o glercod cymuned, ac i raddau helaethach y rhai sydd mewn ysgol ac wedi cwblhau'r arolwg yn y Gymraeg ychydig yn uwch, sy'n debyg o adlewyrchu rhaniad daearyddol yr ymatebwyr – roedd bron iawn i hanner yr *holl* glercod mewn ysgolion yn y sampl yn dod o Ogledd Cymru.

⁴³ Mae'r rhain wedi'i seilio ar y Rhanbarthau APADGOS safonol, fel a nodwyd yn Hydref 2010.

Ffigur 7 Math o glerc yn erbyn iaith



Mae cyffredinolrwydd clercod sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn arbennig o wir am un awdurdod lleol ble mai dim ond tri chlerc allan o gyfanswm o 120 oedd ddim yn siarad Cymraeg.

Fodd bynnag, mae adborth o fwy nag un corff llywodraethol o ysgol cyfrwng Cymraeg yn awgrymu nad yw'r cyflenwad o glercod sy'n gallu Cymraeg yn cwrdd â'r gofyn mewn rhai rhannau o'r wlad "does ganddynt [yr awdurdod lleol] mo'r gallu i gynnig gwasanaeth [clercio] drwy gyfrwng y Gymraeg". Roedd un cadeirydd yn Ne Ddwyrain Cymru oedd yn recriwtio clerc cymuned wedi "synnu" i gael cais gan siaradwr Cymraeg.

Fodd bynnag, o ystyried fod ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn arbennig yn y De Ddwyrain, yn darparu ar y cyfan i blant o gartrefi cyfrwng Saesneg, mae cyfarfodydd cyrff llywodraethol yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg beth bynnag. Teimlai un llywodraethwr "nid iaith yw'r prif fater ... byddai'n well gen i gael clerc da sy'n siarad Saesneg".

4.3 Cost clercio

Nid yw'r gost sylfaenol am ddarparu clercio yn gyson nac ychwaith yn dryloyw, ac mae'r gost am glercio CLG a maint yr honorariwm a delir am glercio yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Mewn achosion ble mae clercio i'r corff llywodraethol yn cael ei gynnwys yn swydd ddisgrifiad aelod o staff yr ysgol, mae canfod y gost go iawn am y swyddogaeth clercio hyd yn oed yn fwy astrus.

Mae hefyd amrywiadau yn lefel ymrwymiad yr awdurdod lleol, yn nhermau sefydlu cost am y gwasanaeth ac am weinyddu'r cyflog i glercod nad ydynt yn perthyn i'r awdurdod lleol. Mewn achosion ble mae clercio awdurdod lleol yn cael ei gynnig, mae CLG yn cael eu cynnig yn flynyddol i gyrrff llywodraethol i dderbyn yn ôl yr angen, gyda'r gost am y gwasanaeth yn cael ei dynnu o gyllideb flynyddol yr ysgol. Mewn rhai achosion, er nid pob un, mae ysgolion yn cael arian wedi'i ddosrannu yn

benodol er mwyn clercio fel rhan o ddsraniad fformiwla, ond mewn achosion eraill mae'n rhaid i'r arian gael ei dalu o gyllidebau creiddiol. Ble na fydd CLG yn cael ei gynnig, neu heb ei dderbyn, fe all yr UCLI gymryd y cyfrifoldeb o dalu cydnabyddiaeth drwy eu hadrannau cyflogi, ac eto byddai'r gost wedi'i debydu o'r gyllideb briodol. Mewn awdurdodau eraill, mae'r UCLI yn fwy ar wahân a chyfrifoldeb yr ysgol a/neu'r corff llywodraethol yw penderfynu ar y swm ac i dalu'r clerc. Ble mae clerc yr ysgol neu weinyddwr yn clercio i'r corff llywodraethol byddai'r tâl yn cael ei gynnwys fel arfer yn y cyflog blynyddol.

Materion ariannol a daearyddol a welir fel y ffactorau pwysicaf sy'n rhwystro rhai awdurdodau lleol rhag cynnig gwasanaeth clercio. Awgrymodd un rhanddeiliad "nid yw'r awdurdodau mwyaf, y rhai gwledig yn darparu clercio am ei fod yn rhy ddrud" tra bod ardaloedd eraill yn fwy "clos" ac mae darparu gwasanaeth yn fwy hyfyw. Mae'r broblem ariannol yn berthnasol i awdurdodau lleol ac ysgolion, gan ei fod yn gofyn am adnodd sylweddol (dynol ac ariannol) i gynnig y gwasanaeth, ond gall fod yn gymharol ddrud i ysgolion i brynu i fewn i'r CLG, ac "yn rhai achosion mae ysgolion yn teimlo y gallent ei wneud yn rhatach eu hunain".

Costau cytundeb lefel gwasanaeth

Ymhlith yr awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG clercio, mae cost y gwasanaeth yn amrywio cryn dipyn. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig graddfa wahaniaethol (er enghraifft, gwasanaeth safonol/premiwm, cost uwch ar gyfer cyrff llywodraethol ysgolion uwchradd neu raddfa sy'n gweddu i faint yr ysgol). Y gost flynyddol isaf am CLG clercio ar y funud yw £444, tra'r mae'r gost uchaf yn £2,500⁴⁴, gydag ystod o gostau yn syrthio rhwng yr eithafion hyn. Cost cymedr CLG, ymhlith y rhai sy'n codi, yw £1,177⁴⁵ ac yn achos yr wyth awdurdod lleol sy'n cynnig gwasanaeth clercio, mae'r gost flynyddol yn cynnwys clercio i rai pwyllgorau.

Roedd gan fwy nag un clerc awdurdod lleol bryder am awdurdodau lleol yn codi cyn ised â £500 ac yn awgrymu fod y gwasanaeth wedi derbyn "cymhorthdal sylweddol" neu fod "y gwasanaeth yn dlotach". Yn yr un ffordd roedd un swyddog o'r UCLI yn un o'r awdurdodau oedd yn codi cost uwch yn teimlo fod CLG yn cynnig "gwasanaeth cytbwys" a bod y tâl yn "gost realistig" am gynnig y gwasanaeth.

O safbwynt defnyddiwr y gwasanaeth, nid oedd llywodraethwyr, mewn mwy nag un awdurdod lleol, ddewisodd defnyddio clercio cymharol ddrud CLG yn rhy feirniadol o'r gost, ac yn gwneud y pwynt fod y clerc wedi "gwneud mwy nag sydd raid". Roedd un cadeirydd yn gryf dros barhau â'r gwasanaeth ac yn credu y byddai'n "ddrutach" i ddefnyddio gwasanaeth o safon debyg o rywle arall.

Gwnaeth un cadeirydd y sylw "does dim wedi'i ddweud erioed am arian, mae'r [clerc] bob amser ar ochr arall y ffôn", a theimlwyd ei fod bob amser yn mynd ymhellach na'r gofyn dan y CLG safonol. Yn yr un modd cadarnhaodd swyddogion yr UCLI a gynhwyswyd yn y gwaith ymchwil ansoddol, ddull cymharol hyblyg at lefel y gefnogaeth a roddir yn y CLG. Mewn un awdurdod lleol (ble mae CLG safonol yn weddol agos at y cyfartaledd yng Nghymru) mae'r gwasanaeth yn ymwneud â phob

⁴⁴ Am Wasanaeth Premiwm.

⁴⁵ Amcangyfrif yn unig yw hyn, gan fod rhai awdurdodau lleol yn cynnig cyfradd amrywiol.

un o'r prif gyfarfodydd plws y cyfarfodydd pwyllgor statudol yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid oes "unrhyw ddull gosodedig ble darperir gwasanaethau" yn yr ardal hon. Nid yn unig mae clercod awdurdodau lleol yn gweithio mewn cyfarfodydd cyllid ysgolion uwchradd "heb gost ychwanegol", ond hefyd yn gwneud hynny mewn rhai ysgolion cynradd mewn achosion "ble cawsant anawsterau ariannol".

Gwnaeth un clerc y sylw hwn o safbwynt gwahanol a mynnu ar waethaf trefniadau cytundebu clir fod "rhaid ysgolion yn disgwyl llawer gan eu clercod ... yn arbennig ysgolion uwchradd". Teimlai hi y byddai'n anodd gwrthod darparu cefnogaeth ychwanegol neu arweiniad. Beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu yw bod gwerth go iawn y gwasanaeth clerco awdurdod lleol yn amrywio hyd yn oed yn fwy na chost sylfaenol y CLG.

Costau clerco heb fod yn rhai AALI


Er bod y gwahaniaeth rhwng y gost uchaf a chost isaf y CLG yn sylweddol, mae'r swm a delir i glercod nad ydynt yn gweithio i awdurdodau lleol hyd yn oed yn fwy gwahaniaethol ac yn llawer llai tryloyw. Roedd sawl un o'r rhanddeiliaid yn ymwybodol fod maint yr honorariwm neu'r taliad uniongyrchol i glercod nad oeddent yn gweithio i awdurdodau lleol yn gallu bod yn eithafol o amrywiol, fel bod "dim cydraddoldeb parch ledled yr awdurdodau lleol yn nhermau pa mor dda y cânt eu hystyried". Awgrymodd un sylwebydd fod hyn yn bennaf am "nad yw'r amodau bob amser yn glir".

Wedi dweud hynny, mewn rhai awdurdodau ble mae rhai neu bob un o'r cyrff llywodraethol yn apwyntio clerc nad yw'n gweithio i'r awdurdod lleol mae'r UCLI yn parhau i gynnig arweiniad ar y swm y dylid ei dalu i'r clerc ac mae ganddynt ran ym mhrosesu'r cyflog. Datgelodd y gwaith ymchwil ansoddol y gall clercod annibynnol gael eu talu mewn rhandaliadau blynyddol neu fisol. Er enghraifft mae un awdurdod lleol sy'n cynnig clerco i rai cyrff llywodraethol yn talu clercod annibynnol⁴⁶ yn uniongyrchol ac "yn gwneud y gwaith papur i gyd" sy'n gymhleth o ystyried fod angen i'r clerc gael ei "roi ar y rhestr cyflogau" bob blwyddyn i dderbyn un taliad blynyddol. Mewn awdurdod lleol arall ble na chynigir CLG clerco, mae'r UCLI yn cymryd cyfrifoldeb am hysbysebu am glercod i gyrff llywodraethol, am osod anghenion y swydd ac am weinyddu'r taliadau misol.

Mae'r graff isod yn dangos cyfran yr awdurdodau lleol ym mhob bob un o'r tri chategori sy'n cynnig cyngor i'r cyrff llywodraethol ar gyflogi clerc yn annibynnol (er enghraifft swydd ddisgrifiadau neu ganllawiau cyflogau). Fel y gellid disgwyl, mae arweiniad ar recriwtio yn llawer mwy mynych mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnig CLG clerco nag yn yr ardaloedd ble cynigir y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn gyffredinol. Yn ddiddorol, nid yw'r awdurdodau lleol sy'n cynnig gwasanaeth i rai ysgolion yn cynnig dim ond canllawiau i'r cyrff llywodraethol sy'n recriwtio clercod yn annibynnol.

⁴⁶ Gall fod yn rhiant neu'n aelod o'r gymuned leol, neu'n swyddog yn yr awdurdod lleol sydd wedi'i gytundebu fel clerc yn ei hawl ei hun, ac nid drwy CLG drwy'r UCLI.

Ffigur 8 Darpariaeth arweiniad wrth gyflogi clercod annibynnol



Serch hynny, hyd yn oed yn yr ardaloedd ble mae'r UCLI yn cynnig swydd ddisgrifiad safonol ac/neu yn rhan o recriwtio clercod, gellir cael anghysonderau sylweddol ym maint yr amser a dreulir mewn gwirionedd gan glercod annibynnol yn y swyddogaeth hon. Er enghraifft, mynnodd un clerc ei fod wedi clercio ddwywaith gymaint o brif gyfarfodydd mewn blwyddyn academiaidd ers derbyn y swydd ag oedd wedi'i nodi yn wreiddiol yn y swydd ddisgrifiad.

Mewn awdurdodau lleol eraill, yn benodol mewn ardaloedd ble roedd y mwyafrif o gyrff llywodraethol yn defnyddio CLG clercio, "ychydig iawn" mae'r UCLI yn ei wybod am faint mae'r ychydig o gyrff llywodraethol sy'n cyflogi clercod annibynnol yn ei dalu am y gwasanaeth. Doedd un swyddog ddim yn ymwybodol o'r cyllid er iddo awgrymu fod cyrff llywodraethol yn "tueddu i fynd am y dewis rhataf wrth gyflogi rhywun sydd wedi'i sefydlu eisoes yn yr ysgol".

Canfuwyd fod gwerthfawrogiad o swyddogaeth clerc y corff llywodraethol yn amrywio fwy ymhlith clercod annibynnol a chyrrff llywodraethol *nad* oeddent yn dewis defnyddio CLG. Gall hyn yn ei dro effeithio ar lefel tâl roedd y clercod yn ei dderbyn. Roedd sawl un o'r clercod a gynhwyswyd yn y gwaith ymchwil yn gweithio'n wirfoddol, ac yn derbyn dim am eu gwasanaeth, ac mewn un achos doedd y rhan fwyaf o'r llywodraethwyr eu hunain ddim yn ymwybodol o'r trefniadau ariannol. Roedd clerc arall yn wreiddiol yn "synnu" i ganfod ei bod i gael tâl: "Roeddwn i wedi cymryd y buaswn i'n wirfoddolwr 'run fath â'r llywodraethwyr". Eto mae hyn yn cadarnhau'r dystiolaeth fod yr union gost am glercio sy'n annibynnol o'r awdurdod lleol yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ac mewn rhai achosion yn cael ei roi heb gostio dim i'r corff llywodraethol.

Casgliadau

O ystyried y modelau gwahanol o drefniadau clericio ledled Cymru, yn anochel bydd peth amrywiaeth yng nghost darpariaeth clericio. Fodd bynnag, tra bod y gwahaniaeth yng nghost darpariaeth clericio yn sylweddol, mae hyd yn oed mwy o anghysondeb yng nghost clericio i gyrff llywodraethol nad ydynt yn dewis CLG. Yr hyn sydd efallai yn bryderus yw diffyg tryloywder ynglŷn â faint mae'r gyrff llywodraethol yn ei dalu am y gwasanaeth yn annibynnol. Mae'r ffactor hwn, ynghyd â'r diffyg meincnodi ar lefel cenedlaethol neu hyd yn oed ar lefel leol, yn debyg o gyfrif am yr ansicrwydd cyffredinol gan ymarferwyr ynglŷn â chost clericio yn y pen draw. Mae hyn wedi'i gysylltu'n agos â'r disgwyliadau am swyddogaeth cleriod y gyrff llywodraethol, a ganfuwyd i amrywio'n eang hefyd, fel y trafodir yn yr adrannau canlynol.

4.4 Crynodeb o'r prif bwyntiau

Cynhaliwyd dau arolwg dwyieithog ar gyfer cleriod a chadeiryddion gyrff llywodraethol gyda graddfa ymateb o 261 (cleriod) a 301 (cadeiryddion). Fe wnaeth tua 11% o'r ymatebwyr ateb cwestiynau yn Gymraeg.

Mae nifer yr awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG clericio naill ai i rai neu i bob un o'r gyrff llywodraethol, wedi aros yn gyson ers 2008; mae pedwar awdurdod lleol yn ei gynnig i bob un o'r gyrff llywodraethol, saith yn cynnig gwasanaeth rhannol, tra nid yw 11 o awdurdodau yn cynnig CLG clericio o gwbl.

Mae darpariaeth clericio awdurdodau lleol yn tra-arglwyddiaethu yn y De Ddwyrain ac i raddau llai yng Ngorllewin a De Orllewin Cymru. Nid oes un o awdurdodau Gogledd Cymru yn cynnig gwasanaeth clericio.

Ymhlith yr UCLI sy'n cynnig CLG clericio, mae nifer y staff awdurdod lleol sy'n gweithio fel cleriod i gyrff llywodraethol yn amrywio'n fawr o dri mewn un awdurdod lleol i 18 mewn un arall.

Mae bron iawn i bumed ran o'r UCLI sy'n cynnig y CLG yn defnyddio staff o adrannau eraill oddi fewn i'r awdurdod lleol i gynnig y gwasanaeth. Mae hyn yn cynrychioli newid arwyddocaol ers 2005, pan nad oedd ond tri o'r pymtheg awdurdod lleol oedd yn cynnig clericio CLG i rai neu i bob un o'r ysgolion yn dibynnu yn unig ar CLG i ddarparu'r gwasanaeth.

Mewn nifer fach o awdurdodau lleol (i gyd yn Ne Ddwyrain Cymru) mae pawb bron yn dewis defnyddio CLG. Fodd bynnag, mewn awdurdodau eraill ble cynigir CLG, mae niferoedd arwyddocaol o gyrff llywodraethol yn cael eu clericio drwy ffyrdd eraill.

Dewis y corff llywodraethol unigol yw p'run ai ydyn nhw'n dymuno dewis defnyddio CLG ai peidio, ac mewn rhai awdurdodau ble cynigir CLG mae nifer arwyddocaol yn cael eu clericio drwy dulliau eraill – fel y nodwyd yn y ffaith fod 15% o ymatebwyr arolwg y cadeiryddion yn dod o awdurdodau lleol ble roedd CLG yn cael ei gynnig ond a oedd yn cael eu cynorthwyo yn eu swyddogaeth fel cadeirydd gan naill ai cleric o'r ysgol neu o'r gymuned.

Nid oes digon o gyflenwad o glercod cyfrwng Cymraeg mewn rhai rhannau o'r wlad.

Ymhlith yr awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG clerco, mae cost y gwasanaeth yn amrywio'n sylweddol.

Gall y swm a delir i glercod nad ydynt yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol wahaniaethu hyd yn oed yn fwy ac mae'n llawer llai tryloyw na'r model CLG.

Mae gwahaniaethau yn lefel ymrwymiad yr awdurdod lleol, yn nhermau sefydlu'r gost am y gwasanaeth ac am weinyddu'r tâl i glercod nad ydynt yn rhan o'r awdurdod lleol.

Mewn rhai awdurdodau ble mae rhai neu bob un o'r cyrff llywodraethol yn apwyntio clerc nad yw'n rhan o'r awdurdod lleol mae'r UCLI yn darparu canllaw ar y swm y dylid ei dalu ac mae ganddynt ran mewn prosesu'r tâl.

Mae arweiniad ar recriwtio yn llawer mwy mynych mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnig CLG clerco nag yn yr ardaloedd ble cynigir y gwasanaeth.

5. Swyddogaeth a pherfformiad clercod cyrff llywodraethu

5.1 Trosolwg perfformiad clerccio

Mae swyddogaethau gorfodol clercod cyrff llywodraethol fel y cawsant eu diffinio yn rheoliad 43 o Reoliadau Llywodraethol Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 yn cynnwys chwech o gyfrifoldebau gweinyddol penodol yn ogystal ag angen i berfformio mathau eraill o swyddogaethau y gellid eu penderfynu gan y corff llywodraethol o dro i dro. Fel y crybwyllwyd eisoes mae'r rheoliadau hefyd yn dweud y gall y clercc gynnig cyngor i'r corff llywodraethol ar swyddogaethau a gweithdrefnau'r corff.

Bu i'r rhanddeiliaid i gyd ddynodi fod cyfrifoldeb "deublyg" yn swyddogaeth y clercc, sef dyletswyddau ysgrifenyddol ac ymgynghorol wrth gynnig cyngor i'r corff llywodraethol ar "faterion trefniadol a chyfansoddiadol". Fodd bynnag roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd roedd yr ail swyddogaeth yn cael ei ddehongli.

Ar lefel yr ymarferwr, roedd pob un o swyddogion a chlercod yr UCLI a'r mwyafrif o'r llywodraethwyr yn ymwybodol mai cyfrifoldeb y clercc oedd amserlennu cyfarfodydd, cymryd cofnodion a'u dosbarthu ac mewn rhai achosion, gosod yr agenda. Gwnaeth un llywodraethwr y sylw "mae'n fwy na chymryd cofnodion" ond teimlai hyd yn oed yn y swyddogaeth ymgynghorol, y byddai natur y cyngor yn ymwneud â gweithdrefn neu bolisi sy'n delio'n benodol â threfn lywodraethol, er enghraifft "cyngori'r corff llywodraethol ar beth y gall ei drafod neu na all ei drafod". Dywedodd un swyddog UCLI y dylai'r clerccod fod y "man galw cyntaf i'r cadeirydd os oedd ganddo/ganddi gwestiynau", tra roedd cadeirydd un corff llywodraethol yn cyffelybu swyddogaeth clercc y corff llywodraethol i glerc y llys mewn cyd-destun cyfreithiol.

Roedd hyd yn oed sylwebyddion gyda dim ond dealltwriaeth fras o swyddogaeth clerccod cyrff llywodraethol yn ymwybodol o wahaniaethau yn safonau clerccio, hyd yn oed yn yr un awdurdod lleol: "Mae gen i ddehongliad cul o waith clerccod ... maent yn darparu cymorth gweinyddol i gyrff llywodraethol ond mae'n gwahaniaethu o un corff llywodraethol i'r llall". Mynegodd y mwyafrif o rhanddeiliaid allweddol bryder am y gwahaniaeth hwn "y broblem fwyaf gyda chlerccod yw cysondeb".

5.2 Modelau gweithgaredd clerccio

Doedd rhai rhanddeiliaid allweddol ddim yn mynegi tuedd gref un ffordd na'r llall tuag at un model penodol neu'i gilydd – "mae arfer da a drwg ym mhob un o'r dulliau" – ond yn teimlo "ei fod yn angenrheidiol yn fwy na dim arall i gael swyddogaethau clir a swydd ddisgrifiadau, yn ogystal â hyfforddiant a chodi statws eu safleoedd".

Roedd gwybodaeth, ac nid yw hyn yn syndod, yn adlewyrchu amgylchiadau lleol ymhlith yr ymarferwyr. Er bod clerccod a llywodraethwyr ar y cyfan yn ymwybodol o fodolau gwahanol mewn rhannau eraill o Gymru, roedd dealltwriaeth o sut roeddent yn gweithio yn llai manwl. Yn ddiddorol, roedd nifer fawr o lywodraethwyr (gan gynnwys rhai oedd â phrofiad o ddau neu dri gwahanol fathau o glercio) yn gryf o blaid y model penodol oedd ganddynt ar y pryd. Dylid nodi fod llawer o ddiffygion y

gwahanol fodelau a nodwyd yn dod gan y rhai oedd yn fwy cyfarwydd â model amgen.

Soniodd llawer o'r rhanddeiliaid a'r ymarferwyr am "resymau hanesyddol" fel dylanwadau ar y ddarpariaeth a'r dewis derbyn CLG clerco awdurdod lleol. Awgrymodd un swyddog o'r UCLI fod "ysgolion uwchradd ar y cyfan yn fwy annibynnol ... mae ganddynt fynediad at fwy o adnoddau ... mae hefyd yn beth diwylliannol ... maent ar y cyfan yn gwerthfawrogi lefel o annibyniaeth o'r awdurdod lleol yn fwy na'r ysgolion cynradd". Awgrymodd sylwebydd arall fod "staff ysgolion cyfun fel arfer yn fwy medrus ac felly mewn gwell lle i weithredu fel clerco"

5.3 Trefniadau cytundebol a chyflenwi gwasanaeth

Gwasanaeth clerco awdurdod lleol

Roedd y rhanddeiliaid ar y cyfan yn gytûn ble mae'r awdurdod lleol yn darparu CLG clerco mae dyletswyddau'r clerco fel arfer wedi'u diffinio'n gliriach ac y mae mwy o atebolrwydd, o ystyried fod "y CLG yn gosod allan yn glir y tâl a'r amodau".

Cymeradwywyd yr awdurdodau lleol a ganfuwyd gan rhanddeiliaid fel rhai oedd yn cynnig gwasanaeth clerco rhagorol am "ansawdd y gwasanaeth, dogfennau cyfarwyddyd a chydgyssylltu'r trefniadau yn gyffredinol". Yn ystod arolygiadau Estyn canfuwyd yr enghreifftiau gorau o gymorth mewn awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaeth clerco canolog. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid at fanteision logistaidd clerco awdurdod lleol, gan fod ganddynt wybodaeth dda a chysylltiadau gyda'r awdurdod lleol a'u bod yn fan cyswllt canolog.

Cryfder y gwasanaeth clerco a gynigir gan un UCLI yn Ne Ddwyrain Cymru yw fod y CLG clerco ym ymhlith gwasanaethau eraill a gynigir gan yr awdurdod lleol fel cyllid ac adnoddau dynol, a byddai'n cael ei gynnig gan yr un unigolyn. Y fantais o fod yn awdurdod lleol cymharol fach, yn cynnig "gwasanaeth cynhwysfawr" yw bod y swyddog unigol "yn gwerthfawrogi cyd-destun lleol yr ysgol". Roedd adborth un corff llywodraethol yn cymeradwyo'r ffaith fod "y clerco yn darparu gwasanaethau eraill ac yn eistedd i mewn ar lawer o gyfarfodydd eraill".

Er bod rhai cyrff yn dewis cynnal peth pellter o'r awdurdod lleol drwy apwyntio clerco yn annibynnol, gwerthfawrogwyd cysylltiad agosach gyda'r UCLI gan rai llywodraethwyr. Dywedodd pennaeth un ysgol uwchradd "byddem yn hoffi cadw'r gwasanaeth. Fel arall byddai'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol yn cael ei dorri". Awgrymodd un cadeirydd nad yw'r corff llywodraethol "ond yn delio" â'r clerco, ond yn cael "yr argraff" fod yr UCLI yn "dda iawn". Pwysleisiodd sawl llywodraethwr fod y cymorth yn ymestyn ymhellach na'r clerco unigol i gynnwys rhai oddi mewn a thu draw i'r UCLI: "mae'n rhaid ei fod o fantais ... cael rhywun sy'n gyswllt uniongyrchol â'r awdurdod lleol".

Cyfeiriodd llawer o wahanol awdurdodau at y sicrwydd oedd yn cael ei gynnig gan CLG "rydych chi'n gwybod yn union beth gewch chi" drwy "gcontract cyfrwymol". Defnyddiodd un sylwebydd y gyfatebiaeth o roi gwasanaeth i gar mewn modur dydan ofal gwneuthurwr y car yn hytrach na delio â rhywun annibynnol. Gwnaeth un cadeirydd y sylw (gyda phryder) ar yr estyniadau arfaethedig i gyfrifoldebau

cyfarwyddwyr, gan ddweud ei fod yn teimlo fod dewis derbyn CLG clericio yn gwneud iawn i ryw raddau yn yr ystyr ei fod yn “trosglwyddo atebolrwydd i’r awdurdod lleol”. Cyfeiriodd sawl llywodraethwr at y “sicrwydd eich bod yn gwybod fod pethau’n cael eu gwneud yn iawn”. Roedd un cadeirydd yn credu mai “mewn awdurdodau lleol eraill mae llawer mwy o gyfrifoldeb ar gadeiryddion”. Roedd clercod awdurdodau lleol yn ymddangos fel pe baent yn ymwybodol o’u atebolrwydd dan delerau’r CLG, er enghraifft fod angen rhoi cyngor o ffynhonnell arall gyda’r “rhybudd y gall fod yn anghywir”.

Teimlai sawl rhanddeiliad fod clercod awdurdod lleol ar y cyfan yn fwy pendant, yn rhannol oherwydd eu bod yn hyderus yn eu gwybodaeth, ac yn rhannol oherwydd eu bod yn cadw eu hannibyniaeth o’r ysgol. Dywedodd un llywodraethwr fod eu clerc “yn cadw’r cadeirydd mewn trefn ... ac mae’n gadarn ond nid yn ymwithgar”. Roedd corff llywodraethol arall yn canfod fod mewnbwn y clerc yn y trafodaethau o gymorth gan ei bod “yn tynnu sylw at oblygiadau” unrhyw beth mae’r corff llywodraethol yn ei fwriadu ac “yn gwneud yn siŵr ein bod yn trefnu cyfarfodydd”.

Ymhlith y sylwebyddion sy’n ffafrio model CLG, roedd y mwyafrif yn gweld mai adnoddau oedd y ffactor allweddol oedd yn cyfyngu ar y ddarpariaeth gyffredinol: “byddai’n ddelfrydol pe bai pob ysgol yn defnyddio clerc awdurdod lleol ... ond byddai logisteg a chost hynny yn afreal ... yn arbennig gan fod cyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu torri fwy a mwy ... dim ond dirywio mae’r sefyllfa’n debyg o wneud”. Cytunodd eraill “gwelsom leihad mewn clercod awdurdodau lleol drwyddi draw” yn bennaf oherwydd “cost ... timau cymorth llywodraethol yn gwisgo hetiau gwahanol”.

Fodd bynnag roedd agweddau tuag at fodel clerc yr awdurdod lleol yn amrywio, a’r diffyg pennaf a ddyfynnwyd fwyaf oedd y “mater o adnoddau ... prinder clercod” er nad oedd y safbwynt hwn wedi’i rannu’n eang ymhlith y cyrff llywodraethol sydd ar hyn o bryd yn dewis defnyddio CLG clericio a gafodd eu cynnwys yn yr ymchwil ansoddol. Er enghraifft, awgrymodd sawl rhanddeiliad a chadeiryddion (yn bennaf y rhai *nad* oeddynt yn defnyddio clericio CLG) y gall fod yn anodd cysylltu â chlercod awdurdodau lleol ar fyr rybudd, tra bod clercod ysgolion “yn adnoddau mwy ymroddgar ... mae materion ysgol [yn] fwy ar flaen eu meddwl”.

Gwnaeth un clerc awdurdod lleol y sylw y gall “rheoli amser fod yn anodd” os oes yna “broblem” gydag un o’r ysgolion. Cydnabu swyddog o UCLI arall fod “pwysau yn yr awdurdodau lleol gan fod gan glercod swyddogaethau eraill ar wahân i fod yn glercod” er maent yn cael amser rhydd yn lle oriau’r cyfarfodydd gyda’r nos. Roedd llawer o ymatebwyr gydag a heb brofiad o glercod awdurdodau lleol yn credu ei bod yn annoeth i glercod awdurdodau lleol i fod yn gyfrifol am nifer fawr o gyrff llywodraethol. Roedd gan un swyddog o UCLI oedd yn cynnig CLG clericio i bob ysgol “bryderon dwys” am glerc unigol oedd yn gyfrifol am fwy na naw neu ddeg o gyrff llywodraethol.

Yr ail broblem yw anghysondeb personél: “mae angen cael parhad di-dor gan y clerc ac nid yw hynny bob amser yn digwydd gyda chlercod awdurdodau lleol”. Awgrymwyd hefyd y gall ansawdd swyddogion amrywio, yn rhannol oherwydd cynhwysedd, a all arwain at anghysondeb arwyddocaol yn ansawdd y gwasanaeth. Teimlai un rhanddeiliad er enghraifft, mai “clerc awdurdod lleol oedd y gorau dan amgylchiadau priodol ... ond yn ymarferol bu bob amser wahaniaethau”.

Fodd bynnag, pwysleisiodd sawl swyddog o'r UCLI bwysigrwydd parhad di-dor, ac er bod achosion (er enghraifft mamolaeth) ble mae angen cael rhywun yn lle clerc rheolaidd, yr arfer cyffredin yw bod yr un unigolyn yn clercio i awdurdod lleol penodol.

Gwasanaeth clercio nad yw yn un awdurdod lleol

Y dewis arall i gytundebu clerc awdurdod lleol yw naill ai defnyddio aelod o staff yr ysgol "gan amlaf ysgrifennydd yr ysgol" neu recriwtio rhywun o'r gymuned leol. Cyflwyno gwasanaeth clercio drwy ddull clystyrau yw model arall, sy'n golygu un ysgol yn trefnu gwasanaeth clercio ac yn ei osod ar gytundeb i ysgolion eraill yn yr ardal leol. Y teimlad cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid allweddol oedd bod clerod sydd heb fod mewn ysgolion yn llai cyffredin, er "ble mae'n digwydd gall weithio'n dda". Er enghraifft, mynnodd un clerc cymuned i ysgol gynradd yng Ngogledd Cymru ei bod yn "adnabod yr ysgol yn dda" a'i bod yn "hyblyg gyda chyfarfodydd", ac yn priodoli hyn i'r ffaith nad oedd "yn gorfod jyglo dwy neu dair ysgol".

Yn yr un ffordd un "mantais fach" o gael clerc mewn ysgol yw bod ganddo/ganddi "o bosib fwy o amser". Sylwodd un rhanddeiliad, a awgrymodd fod clerod awdurdodau lleol wedi'u gorymestyn, fod clerod sy'n seiliedig mewn ysgolion "yn gallu canolbwyntio mwy". Roedd un cadeirydd yn teimlo y gellid cael gwybodaeth yn gyflymach ac yn haws pan fydd clerc mewn ysgol: "Rydw i'n gwybod ble mae Tara⁴⁷ yr holl amser ... mae'n gweithio'n dda iawn yma". Roedd cadeirydd arall mewn awdurdod lleol nad oedd yn cynnig CLG o gwbl yn fwy eithafol yn ei safbwynt, gan gydnabod fod "yn rhaid i rai ysgolion rannu clerc" ond gan ychwanegu "na fydden nhw yn hoffi hynny, [rydym] eisiau rhywun sydd ar gael i ni".

Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno â hyn ac roedd un gadeiryddes yn arbennig yn cofio ei phrofiad o glerc mewn ysgol yn y gorffennol oedd ag amryfal gyfrifoldebau eraill: "mae'r dyddiau wedi hen fynd pan oedd ysgrifenyddes yr ysgol yn gwneud dim ond casglu arian llefrith". Teimlai fod swyddogaeth bod yn glerc i'r corff llywodraethol eto fyth yn ddyletswydd arall yr ychwanegwyd at gylch gwaith oedd eisoes yn llawn.

Awgrymwyd ei fod yn anoddach cadw darpariaeth safonau clercio cyson mewn awdurdodau lleol gyda darpariaeth gyfyngedig (neu ddim) darpariaeth clercio awdurdod lleol, yn rhannol oherwydd arbenigedd mwy amrywiol ymhlith clerod nad ydynt yn perthyn i awdurdodau lleol, ac yn rhannol oherwydd bod y trefniadau i raddau helaeth yn annibynnol ar yr awdurdodau lleol gyda mwy o fonitro cyfyngedig yn dilyn "ansawdd y clercio" ar draws gwahanol gyrrff llywodraethol.

Mae'r mater o fonitro perfformiad yn cysylltu â phryder arall a grybwyllwyd gan sawl rhanddeiliad ac ymarferwyr a awgrymodd y gellid cyfyngu gorwelion cyrrff llywodraethol gan arbenigedd y clerc, ac "dych chi ddim yn gwybod beth nad ydych chi'n ei wybod". Awgrymodd un swyddog UCLI "os yw corff llywodraethol yn dod ymlaen yn dda â'r clerc efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r hyn y gallent ei gael". Cafodd y pwynt ei ddarlunio'n berthnasol gan un cadeirydd a dywedodd "Marion⁴⁸ fu'r clerc erioed ... bu yma am ddeng mlynedd". Os oes gan yr awdurdod lleol lai o

⁴⁷ Newidiwyd yr enw i warchod anhysbysrwydd.

⁴⁸ Newidiwyd yr enw i warchod anhysbysrwydd.

fewnwelediad i sgiliau a medrau clercod nad ydynt yn perthyn i awdurdodau lleol, gall hyn ddatblygu i fod yn fwy o broblem.

Mae'n debygol mai llywodraethwyr sydd â phrofiad o fwy nag un model yw'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i wneud sylw ar y ffordd y maent yn cymharu. Mewn un ardal ble roedd defnyddio clerco awdurdod lleol yn digwydd yn rhannol, cyfeiriodd un cadeirydd at lefel y cymorth a dderbyniodd y corff llywodraethol gan yr awdurdod lleol ers iddynt ddefnyddio CLG. Yn y gorffennol pan oedd ganddynt glerc oedd yn yr ysgol roedd yr UCLI mae'n debyg "yn fwy amharod i gynnig cymorth" i'r clerco blaenorol a'r corff llywodraethol.


5.4 Dyletswyddau ysgrifenyddol

Cyflwyniad

Y rhanddeiliaid allweddol oedd yn fwyaf cyfarwydd â'r ddeddfwriaeth a amlinellodd brif swyddogaethau ysgrifenyddol clerco y corff llywodraethol – galw, mynychu a chadw cofnodion cyfarfodydd⁴⁹, a chynnig cymorth gweinyddol i gyrff llywodraethol, ble mae angen.

O ystyried fod y swyddogaeth hon yn hawdd i'w diffinio ac yn swyddogaeth orfodol clercod cyrff llywodraethol, nid yw'n syndod fod y clercod fu'n rhan o'r arolwg yn mesur eu hunain yn weddol uchel ar brif agweddau eu swydd.

Ffigur 9 Perfformiad cyfrifoldebau ysgrifenyddol yn ôl y math o glerc (arolwg clercod)




Ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y tri math gwahanol o glerc, er ymhob swyddogaeth roedd clercod cymuned yn mesur eu hunain yn is ar gyfartaledd.

⁴⁹ Yn benodol i sicrhau fod cyfarfodydd â chworwm; i ddarparu cofnodion; i wneud yn glir beth ellir a beth na ellir ei wneud; i fynd ar drywydd gweithrediadau, er enghraifft cael mynediad i wybodaeth gan yr awdurdod lleol.

Mae'r graff canlynol hefyd yn dangos mai ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y tri model clericio yn y ffordd yr ymatebodd cadeiryddion i rai o swyddogaethau allweddol ysgrifenyddol eu clercod.

Ffigur 10 Perfformiad cyfrifoldebau ysgrifenyddol yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)



Gwasanaeth clericio awdurdod lleol

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg, mae clercod awdurdodau lleol yn amlwg yn gweld eu hunain fel rhai sydd cystal â'r clercod sy yn yr ysgol neu hyd yn oed yn well ym mhob swyddogaeth a restrir yn y tabl uchod, ac eithrio anfon gwaith papur ymlaen llaw gyda digon o rybudd. Yn arolwg y cadeiryddion, gosodwyd clercod awdurdodau lleol yn uwch na chlercod cymuned ym mhob agwedd, er bod clercod sydd yn yr ysgolion yn cael eu gweld fel rhai gwell ar gyfartaledd am drefnu cyfarfodydd rheolaidd a darparu gwaith papur *perthnasol* ymlaen llaw na'r clercod a gytundebwyd drwy CLG. Mae'r pwynt olaf yn arbennig o ddiddorol, o ystyried yn ystod yr ymchwil ansoddol, un o'r cryfderau'r model CLG a ddyfynnwyd yn fwyaf cyffredin oedd bod y clerc ar y cyfan yn well am ddiweddarau'r dogfennau polisi cyfredol i'r llywodraethwyr. Fodd bynnag ymylol yw'r gwahaniaeth ar draws y swyddogaethau i gyd.

Er fod ychydig o enghreifftiau yn ystod y gwaith maes ansoddol ble roedd sylwebyddion yn awgrymu efallai na fyddai gan glercod awdurdodau lleol gymaint o amser i'w roi i ysgolion unigol, ar y cyfan roedd rhanddeiliaid a llywodraethwyr yn cymeradwyo'r strwythur gweinyddol a gynigir gan CLG. Ymhellach, nid oedd enghreifftiau o adborth beirniadol ar swyddogaethau ysgrifenyddol clerc yr awdurdod lleol gan lywodraethwyr oedd wedi dewis defnyddio CLG. Roedd y lleiafrif o'r sylwadau negyddol yn dod o'r cyrff llywodraethol ble na chynigir CLG na'i ddefnyddio, neu am glercod ysgol neu cymunedol.

Teimlai un rhanddeiliad fod clercod awdurdod lleol yn fwy cyson yn eu swyddi ysgrifenyddol, gan fabwysiadu "dull yr awdurdod lleol o gofnodi", tra roedd cadeirydd yn disgrifio eu clerc fel "bron yn glerc proffesiynol", sy'n drylwyr wrth ddilyn

gweithdrefnau sydd eu hangen i gyfarfodydd y corff llywodraethol. Awgrymodd cadeirydd arall, wrth gymharu eu clerc awdurdod lleol gyda'i brofiad blaenorol o glerc mewn ysgol, fod y model CLG yn dod â "dimensiwn gwahanol ... gan sicrhau'r weithdrefn gywir, er enghraifft wrth ofalu fod y cofnodion yn cael eu llofnodi". Yn yr un ffordd roedd pennaeth mewn ysgol wahanol ond mewn sefyllfa debyg yn teimlo'n dawelach ei feddwl fod "y clerc newydd yn gwybod faint o bobl ddylai fod ar y bwrdd ... gofynion statudol a chyfreithiol". Mae hyn eto'n cyfeirio at sicrwydd ac atebolrwydd, ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gall rhai cyrff llywodraethol fod yn fwy dibynnol ar glerc awdurdod lleol er mwyn "gwneud yn siŵr fod pethau trefniadol yn gywir".

Gellid gweld fod y manteision gweithredol a gynigir gan yr UCLI ehangach fel mantais, er enghraifft roedd un llywodraethwr yn croesawu'r ffaith y gellid cyfieithu'r cofnodion yn fewnol.

Gwasanaeth clericio heb fod yn un awdurdod lleol

Mae'r graff ar dudalen 33 yn dangos fod y clerccod sydd mewn ysgolion yn debyg ar y cyfan i glercod awdurdodau lleol yn y ffordd yr oeddent yn mesur eu perfformiad yn rhai o brif swyddogaethau ysgrifenyddol clerc. Roedd hyn hefyd yn wir am y ffordd roedd cadeiryddion yn mesur clerccod mewn ysgolion. Roedd yr unig anghysondeb ymylol yn cyfeirio at brydlondeb, yn nhermau darparu digon o rybudd i lywodraethwyr cyn y cyfarfodydd, ac anfon gwaith papur ymlaen llaw. Yn y ddwy swyddogaeth hon roedd y cadeiryddion yn gosod clerccod mewn ysgolion ar gyfartaledd ar waelod y tri math o glerc. Fodd bynnag yn nhermau perthnasedd y gwaith papur ymlaen llaw, y clerccod ysgol oedd yn derbyn y graddau uchaf ar gyfartaledd.

Ar draws pob agwedd o'r gwaith roedd clerccod cymunedol yn gosod eu hunain yn is na chlerccod awdurdod lleol a chlerccod mewn ysgolion. Gellir gweld hyn fel adlewyrchiad ar hunanhyder y clerccod nas cyflogir gan yr ysgol na'r awdurdod lleol. Er enghraifft, gwnaeth un clerc cymuned oedd wedi'i lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru, y sylw "Dwi ddim yn credu mod i'n cwrdd â fy nisgwyliaid fy hun". Yn ychwanegol, pan ofynnwyd iddynt am eu hagweddau tuag at eu swyddogaethau, roedd y gwahaniaeth yng ngraddfa'r cyfrifoldebau a enwyd gan glercod nad oeddent yn gweithio i awdurdod lleol yn awgrymu, er bod y clerccod yn credu efallai eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau, fod hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y ffordd mae swyddogaeth ysgrifenyddol y clerc yn cael ei gweld gan y clerccod a'r llywodraethwyr. Er enghraifft, roedd un clerc mewn ysgol yn deall fod ei swyddogaeth i gynnwys "cadw trefn ar gyfnod pob llywodraethwr yn y swydd a chysylltu â'r awdurdod lleol pan fyddai tymor ei wasanaeth yn dod i ben". Mewn achosion eraill mae disgwyliadau (clercod a chyrrff llywodraethol) yn fwy cyfyngedig i'r tasgau craidd o gadw cofnodion ac anfon agenda allan. Yn groes i hynny, roedd clerccod awdurdodau lleol ar y cyfan yn fwy cyson wrth ganfod eu swyddogaethau gweinyddol.

Gall amser fod yn ffactor arall, gan fod clerccod cymuned yn debyg o fod â swyddi neu gyfrifoldebau eraill a all gael blaenoriaeth dros sicrhau fod tasgau gweinyddol yn cael eu cyflawni ar unwaith. Cydnabu un clerc, er enghraifft, fod ei chymhwyster ôl radd yn "cael blaenoriaeth". Mae felly'n ddiddorol yn nhermau arolwg y cadeiryddion, y gwerthuswyd clerccod cymuned yn uwch na'r clerccod mewn ysgol o ran bod yn brydlon wrth roi rhybudd am gyfarfodydd ac wrth anfon gwaith papur ymlaen llaw, ac

yn y ddau gylch yma roedd y raddfa ar gyfartaledd gystal â sut roedd cadeiryddion yn gweld clercod awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ymylol oedd gwahaniaethau yn y mesuriadau yn y ddau arolwg, a does dim gweithgaredd ble mae un o'r tri model yn ymddangos yn arwyddocaol waeth neu yn well.

Mae un mater arall sy'n gallu arwain at sut mae'r swyddogaeth yn cael ei ddirnad a'i berfformio gan glercod cymuned. Datgelodd yr ymchwiler ansoddol sawl enghraifft mewn mwy nag un awdurdod lleol ble nad yw'r cleric yn cael ei dalu gan y corff llywodraethol, ac mae rhai sylwebyddion wedi awgrymu y gall hyn fod yn risg i iselhau statws cydnabyddedig swyddogaeth y cleric ar y sail ei fod yn troi'n "fenter wirfoddol yn hytrach na swydd gyflogedig".

Awgrymwyd y gall clercod cymuned ddod ag amrywiaeth o sgiliau i'r rôl, yn gyffredinol oherwydd profiad perthnasol blaenorol, naill ai mewn cymhwyster addysgiadol neu (yn fwy cyffredin) mewn cymhwyster gweinyddol. Roedd gan un cleric cymuned er enghraifft, "brofiad o weithio i nifer o wahanol bwyllgorau" a chafodd ei gymeradwyo am fod yn arbennig o effeithlon gan gadeirydd corff llywodraethol. Roedd cleric arall mewn ysgol hefyd yn cleric i'r cyngor tref lleol ac wedi eistedd ar bwyllgorau lleol eraill, ac roedd hyn wedi dysgu sgiliau cofnodi iddi a'i gwneud yn gyfarwydd â gweithdrefnau cyfarfodydd ffurfiol.

Roedd cadeirydd un corff llywodraethol nad oedd bob amser wedi cael cleric awdurdod lleol yn disgrifio cleric blaenorol oedd yn yr ysgol fel "anferthol o effeithlon". Nid oedd yn anghyffredin i lywodraethwyr, sydd ar hyn o bryd â chlerc awdurdod lleol, i gymeradwyo medrau gweinyddol cleric blaenorol oedd yn cleric cymuned neu'n cleric yn yr ysgol, er eu bod yn aml yn gwneud hynny mewn cymhariaeth â pherfformiad salach mewn gallu ymgynghorol neu yn ei wybodaeth/gwybodaeth o bolisi (trafodir isod).


Mewn un awdurdod lleol ble nad yw CLG yn cael ei gynnig o gwbl, mae swyddogaeth weinyddol y cleric yn amrywio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae hyn yn debyg o fod yn adlewyrchiad ar y ffaith fod y mwyafrif o glercod ysgolion cynradd yn yr ardal hon yn dod o'r tu allan ac yn yr achosion hyn "yn aml y pennaeth sy'n rhedeg pethau". Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd yn yr awdurdod lleol hwn, fel rheol aelod o staff yr ysgol sy'n ymgymryd â chlercio a'r "swyddog gweinyddol sy'n gosod yr agenda".

Tra bod manteision o gael gweithdrefn weinyddol safonol yn cael ei weld fel cryfder y model CLG, cyfeiriwyd at agwedd mwy hyblyg a llai ffurfio clercod nad ydynt yn perthyn i'r awdurdod lleol mewn sawl achos. Er enghraifft cymeradwyodd un llywodraethwr o Ogledd Cymru hyblygrwydd cleric yn yr ysgol yn ei chymhwyster ysgrifenyddol gan ei disgrifio fel "cyfleus" ac yn cyfathrebu'n "ddidrafferth" gan gysylltu drwy ffôn, llythyr neu e-bost: "beth bynnag sy'n siwtio'r llywodraethwr". Enghraifft arall o "gerdded yr ail filltir" oedd cleric cymuned yn Ne Ddwyrain Cymru a ddangosodd ei ofal am lywodraethwr oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar, drwy gysylltu ag ef ar wahân.

Fodd bynnag, ni adlewyrchwyd hyn yn yr adborth gan y cadeiryddion ar berfformiad "unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan y corff llywodraethol" ble roedd clercod

ysgol ac i raddau helaeth clercod cymuned yn derbyn graddfeydd cyfartaledd cymharol is na chlercod awdurdodau lleol.

Ffigur 11 Perfformiad clercc mewn ‘unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan y corff llywodraethol’ (arolwg cadeiryddion)



5.5 Gwybodaeth ac arweiniad

Cyflwyniad

O ran darparu cyngor ac arweiniad awgrymwyd gan sawl rhanddeiliad a llawer o lywodraethwyr fod gan glerc effeithiol wybodaeth dda ar draws ystod eang o feysydd “cyffredinolwr nid arbenigwr”. Teimlai un rhanddeiliad fod meysydd gwybodaeth y mae clerccod eu hangen yn fwy na'r rhai a nodir yn y rheoliadau “rhywun sy'n gyfoes yn ei wybodaeth am bolisi trefniadol ac addysgiadol ... gyda pheth gwybodaeth gyfreithiol i lywio'r cadeirydd os oes angen”. Roedd rhanddeiliaid eraill yn gwahaniaethu rhwng y meysydd hyn gan awgrymu mai swyddogaeth y clercc oedd cynnig “cymorth ymgynghorol ar faterion trefniadol ar y cyfan ... ddim yn gymaint ar bolisi addysg”.

Er mai'r farn gyffredin oedd nad oes disgwyl i glercod gael “gwybodaeth arbenigol ym mhob maes”, roedd rhanddeiliaid a llywodraethwyr fel ei gilydd yn cydnabod gwerth y clercc sy'n ymwybodol o ffynonellau eraill o arweiniad a gwybodaeth “er enghraifft, cyswllt allweddol yn yr awdurdod lleol neu linell gymorth Llywodraethwyr Cymru”.

Mae deall swyddogaeth a chyfrifoldeb y corff llywodraethol fel sefydliad hefyd yn hanfodol i alluogi clerccod i ddarparu cyngor uniongyrchol ar bolisi cyffredinol neu weithdrefn, ac i gyfeirio'r gadair at arweiniad pellach ar benderfyniadau polisi penodol. Mae hyn yn cysylltu â chyfrifoldeb pellach sydd gan y clerccod i cadw eu hunain “yn gyfoes gyda'r polisi ddaw gan LICC neu'r awdurdod lleol” a


“chyfathrebu gwybodaeth i’r corff llywodraethol a darparu’r dogfennau angenrheidiol”. Ychwanegodd un rhanddeiliad fod rhai o’r swyddogaethau hyn yn “mynd uwchben a thu hwnt i graidd cyfrifoldebau ysgrifenyddol” ac “y gallent gael eu hepgor weithiau os nad yw’r clerc yn gwneud ei waith yn iawn”.

Mae barn ar yr hyn y mae cynhwysedd ymgynghorol ei olygu yn amrywio cryn lawer mewn gwahanol UCLI ac ymhlith cyrff llywodraethol. Teimlai swyddog UCLI mewn awdurdod lleol nad oedd yn cynnig CLG “nad oedd disgwyl i glercod fod mewn safle ymgynghorol” a chofiodd am “broblem” a gododd “mewn cwpl o achosion” ble “roedd clerc wedi mynegi ei farn/barn ei hun”. Yn yr un ffordd nid oedd cadeirydd corff llywodraethol yng Ngogledd Cymru yn gweld clerc (mewn ysgol) mewn safle ymgynghorol, ond fel “cyswllt rhwng athrawon, pennaeth a llywodraethwyr”. Yn ddiddorol mynnodd y clerc i’r un corff llywodraethol fod “y Pennaeth neu’r Cadeirydd yn gallu troi ataf i ofyn unrhyw beth i mi”.

Teimlai sylwebyddion, oedd yn fwy cyfarwydd â’r swyddogaethau yn rheoliadau 2005, fod y geirio amwys o ddarparu corff llywodraethol “gyda chyngor ar ei swyddogaethau a’i weithdrefnau”⁵⁰ yn gyfrifol am y gwahanol ddehongliadau o swyddogaeth y clerc. Mewn achosion eraill roedd hyn hefyd yn adlewyrchu disgwyliadau mwy cyfyngedig ar ran y corff llywodraethol o ddyfnder y cymorth y dylai clercod ei gynnis: “mae’r swydd ymgynghori yn eithaf amhendant ... dydyn ni ddim yn disgwyl i’r clerc roi cyngor ar bethau penodol, dim ond i roi cyngor cyffredinol i ni”. Cydnabu un clerc cymuned yn Ne Ddwyrain Cymru fod “y busnes cyfraith yn gallu bod yn anodd ... ond dydw i ddim yn credu eu bod [y corff llywodraethol] yn disgwyl hynny”.

Dengys y graff isod sut roedd clercod yn ystyried eu gwerth wrth ddarparu cyngor. Yn yr achos hwn mae’r gwahaniaethau yn yr hunan ganfyddiadau rhwng y gwahanol fathau o glercod yn fwy amlwg.


Ffigur 12 Darpariaeth arweiniad yn ôl y math o glerc (arolwg clercod)



⁵⁰Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Mae canfyddiadau arolwg y cadeiryddion hefyd yn fwy gwahanol, er ar gyfartaledd roedd cadeiryddion yn ystyried fod gwerth clercod cymuned yn uwch na chlercod oedd mewn ysgolion.

Ffigur 13 Darpariaeth arweiniad yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)



Gwasanaeth clerco awdurdod lleol

Mae'r canlyniadau o'r ddau arolwg yn awgrymu ar gyfartaledd fod clercod awdurdodau lleol yn cael eu gweld, ac yn gweld eu hunain yn well na chlercod o'r naill fath neu'r llall nad ydynt yn gweithio i awdurdodau lleol, o ran cynnig cyngor a hysbysu llywodraethwyr. Ymhellach, roedd cadeiryddion yn ystyried fod clercod awdurdodau lleol yn well nag yr oedd clercod awdurdodau lleol yn canfod eu hunain ar y ddwy agwedd.

Cafodd y canfyddiad hwn ei gadarnhau'n gryf drwy ymchwil ansoddol ble roedd gwybodaeth ac arweiniad clercod unigol, wedi'i dynnu o'u profiad fel clercod ac o'u safleoedd yn yr awdurdod lleol, yn cael ei weld fel rhai o brif fanteision y model hwn. Roedd hyn yn benodol yn nhermau gwybodaeth am gyfraith trefn lywodraethol ac anghenion trefniadol cyfarfodydd: "[mae'r clerc] yn gwybod pa fath o wybodaeth y dylai'r cadeirydd fod yn ei rannu gyda'r llywodraethwyr".

Manteision arbenigedd ehangach o'r awdurdod lleol a phrofiad o gyrff llywodraethol eraill oedd rhai o'r manteision mwyaf y dywedir eu bod yn cael eu cynnig gan glercod awdurdodau lleol, sy'n awgrymu eu bod yn darparu cyngor cyd-destunol o glercio mewn mwy nag un ysgol: "cawn wybod os yw'r problemau'n rhai generig neu'n benodol i'n hysgol ni". Cytunodd eraill fod y clerc yn dod â "phrofiad o ysgolion eraill" a hefyd gan "glercod eraill".

Disgrifiodd un pennaeth eu clerc awdurdod lleol fel "siop un stop" am gyngor a gwybodaeth a sylwodd ei bod hi hefyd yn gallu "cyfeirio at ei chydweithwyr" pethau nad oedd hi'n wybod ei hunan. Teimlai sawl clerc arall fod y swyddogaeth yn aml yn gallu golygu cyfeirio cadeiryddion neu benaethiaid at y wybodaeth gywir: "os nad wyf yn ei wybod fy hunan gan amlaf rydw i'n gwybod ble i ganfod y wybodaeth". Mae tawelwch meddwl "eich bod yn gwybod fod gennych gefnogaeth yn nhermau gwybodaeth a gweithdrefn" hefyd yn fantais y model CLG. Mynnodd un clerc

awdurdod lleol ei fod “yn darparu mwy o gefnogaeth y tu allan i gyfarfodydd y cyrff llywodraethol rwy'n eu clericio ... cysylltu ag adnoddau dynol er enghraifft”.

Credai clerc awdurdod lleol arall fod yr angen am wasanaeth clericio wedi'i ganoli (ac yn gyson) yn arbennig o bwysig o ystyried “y gwahanol lefelau o brofiad a gwybodaeth am faterion cyfreithiol ymhlith y cadeiryddion”. Yn yr un ffordd roedd sawl cadeirydd nad oeddent bob amser wedi penodi clerc awdurdod lleol yn teimlo mai'r wybodaeth a'r profiad y maent hwy'n ei gynnig yw'r prif fantais, a oedd mewn rhai achosion yn gwrthgyferbynnu'n gryf â phrofiadau blaenorol.

Ymddangosai fod barn ynglŷn â pha mor bell y gallai ac y dylai clerc awdurdod lleol ddarparu cyngor mewn meysydd eraill yn fwy amrywiol. Credai rhai sylwebyddion fod clercod awdurdodau lleol yn gyffredinol yn fwy cyfarwydd â'r polisi addysgol, gydag un unigolyn yn disgrifio'r clerc awdurdod lleol yn “brofiadol broffesiynol” sy'n “wybodus iawn am gyfraith addysgol ac am weithdrefn”. Fodd bynnag dywedodd un llywodraethwr mewn ysgol arall “fydden ni ddim yn disgwyl i'r clerc ddarparu cyngor manwl ar faterion addysgol, ond byddai yn gwybod ble i ddod o hyd iddo”. Dim ond ychydig iawn o sylwebyddion oedd yn llai brwdfrydig yn eu hadborth gan nodi mai “bylchog” oedd eu clerc awdurdod lleol yn ei wybodaeth ac yn ei safle ymgynghorol.

Gwasanaeth clericio nad yw'n rhan o'r awdurdod lleol

Roedd canlyniadau arolygon y clercod a'r cadeiryddion yn dangos fod y clercod mewn ysgolion a'r clercod cymuned wedi derbyn graddfeydd is ar y cyfan na'r clercod awdurdod lleol am gynnig cyngor ac nad oedd y llywodraethwyr eu hunain yn teimlo'n hyderus ynglŷn ag ansawdd y cyngor. Yn achos clercod cymunedol, roeddent yn gweld eu perfformiad yn sylweddol is na chlercod yr awdurdod.


Credai'r mwyafrif o'r rhanddeiliaid fod cryn amrywiaeth ym mherfformiad y clercod nad oeddent yn rhan o'r awdurdod lleol, sy'n gallu dibynnu ar swydd ddisgrifiad gwaith y clerc yn ogystal â medr unigol a phrofiad. Mae tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu fod anghysondebau yn y safbwyntiau ar beth *ddylai* swyddogaeth ymgynghorol y clerc ei gynnwys, yn fwy ymhlith clercod nad ydynt yn rhan o awdurdod lleol. Doedd un clerc cymuned a leolwyd yn Ne Ddwyrain “ddim yn siŵr os gallaf fynegi fy marn”. Roedd clerc cymuned arall yng Ngogledd Cymru yn teimlo'r un fath “ddim yn siŵr faint mae disgwyl i'r clerc i'w wybod”.

Mantais allweddol clerc mewn ysgol yw ei fod/bod yn debyg o gael “mwy o wybodaeth am yr ysgol unigol”. Fodd bynnag cafodd hyn ei amodi gan lawer o sylwebyddion drwy ddweud, tra bod ymwybyddiaeth cyd-destunol yn gallu bod o fantais, a bod y trefniant yn debyg o “gostio llai i'r ysgol” gellid canfod diffyg mewn gwybodaeth am bolisi a gwybodaeth drefniadol. Roedd un clerc awdurdod lleol yn teimlo y byddai'n “amhosibl” i gynnig “lled y cyngor” pe na bai hi yn yr awdurdod lleol ac roedd sawl un arall yn yr un sefyllfa'n gwneud yr un pwynt. Disgrifiodd un yn arbennig y profiad o glercio i gorff llywodraethol ble roedd clerc annibynnol wedi bod yn y swydd o'i blaen: “yn eu cyfarfod cyntaf nid oeddent hyd yn oed yn ymwybodol o brotocol cyfarfod”. Roedd cadeirydd nad oedd bob amser wedi dewis CLG yn mynnu “roeddem yn rhoio ymlaen gan wneud beth roeddem bob amser wedi'i wneud” gyda'r clercod mewn ysgol oedd yno'n flaenorol, ond gwnaeth dewis CLG ddod â

“dimensiwn gwahanol ... gan ddod â phrofiad o broblemau mewn cyrff llywodraethol neu ysgolion eraill”.

Adlewyrchir yr agwedd hon yn gryf yn yr adborth cymharol gan gadeiryddion ynglŷn â deall deddfau trefn lywodraethol ymhlith pob math o glerc. Bu i 90% o gadeiryddion gyda chlercod o awdurdodau lleol eu gwerthuso fel naill ai da (30%) neu ardderchog (60%) yn eu dealltwriaeth o gyfraith trefn llywodraethu ysgol. Mae hyn yn cymharu â dim ond 52% o gadeiryddion gyda chlercod ysgol, a dim ond 42% o gadeiryddion â chlercod cymuned yn gwerthuso eu clercod naill ai yn dda neu'n ardderchog. Ymhlith y garfan olaf, gwerthuswyd 13% o'u clercod yn wael neu'n wael iawn (mae hyn yn cymharu â dim ond 2% o gadeiryddion gyda chlercod o awdurdod lleol).


Ffigur 14 Deall cyfraith trefn llywodraethu ysgol yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)



Y maes penodol ble y bu i sawl clerc nad oedd yn rhan o awdurdod lleol nodi bwch yn eu gwybodaeth oedd mewn cyfraith trefn lywodraethol ac i raddau helaeth mewn polisi addysgol ehangach. Roedd un clerc cymuned o Ogledd Cymru yn dweud ei fod “yn hapus iawn i help ... ond yn nhermau cyfraith trefn lywodraethol yn benodol mae gennyf ddealltwriaeth sylfaenol”. Roedd y corff llywodraethol oedd yn cael ei glercio gan y sylwebydd yn fodlon iawn gyda'i pherfformiad yn gyffredinol, ond cymedrolwyd eu safbwynt rywfaint gan eu dealltwriaeth o gyfraith addysg a farnwyd i fod “cystal ag y gellid ei ddisgwyl ... does neb ohonom yn gyfreithwyr”.

Ymhellach, roedd adborth gan y cadeiryddion ar ddealltwriaeth eu clercod o bolisi addysg ehangach a chyfraith yn gyffredinol yn awgrymu ar waethaf rhai safbwyntiau i'r gwrthwyneb, fod clercod awdurdodau lleol ar y cyfan yn cael eu hystyried orau. Bu bron i 90% o gadeiryddion a chlercod awdurdod lleol CLG werthuso eu clerc naill ai'n dda neu'n ardderchog, sy'n cymharu â dim ond 46% o gadeiryddion â chlercod ysgol a 44% o gadeiryddion â chlercod cymuned.

Ffigur 15 Deall polisi addysgol ehangach a'r gyfraith yn ôl y math o glerc (arolwg cadeiryddion)



Fodd bynnag, roedd yr agwedd fwy negyddol hon o sgiliau a gwybodaeth clercod nad oeddent yn rhan o awdurdodau lleol ymhell o fod yn unfrydol ymhlith y rhai a gafodd eu cynnwys yn y gwaith ymchwil ansoddol. Mae un corff llywodraethol yng Ngogledd Cymru “yn dibynnu ar [y clerc cymuned] i ganfod beth yw'r gofynion statudol i ni fel llywodraethwyr ... ac i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn gofynion y gyfraith”.

Teimlai rhai rhanddeiliaid fod clercod mewn ysgolion yn gallu cynnig mwy na gwybodaeth cyd-destun ysgol yn unig. Mewn ysgolion uwchradd yn arbennig gall y clerc fod yn aelod cymharol hŷn o'r staff (er enghraifft trysorydd yr ysgol), sy'n debyg “o gael syniad llawer cliriach gyda ffocws mwy pendant am yr hyn sydd ei angen” o ran cyllideb yr ysgol a materion ariannol eraill. Er enghraifft, disgrifiodd un cadeirydd yng Ngogledd Cymru wybodaeth eu clerc am ddeddf addysg fel “digonol” ond fel swyddog gweinyddol yn yr ysgol roedd y corff llywodraethol yn “gwerthfawrogi” arbenigedd y clerc ar “yr ochr ariannol i bethau”.

Yn yr un ffordd, teimlai rai sylwebyddion y gall clercod cymuned gael ystod fwy amrywiol o sgiliau gan eu bod yn grŵp mwy gwahanol. Er enghraifft, os yw'r clerc yn dod o gefndir masnachol, mae'n debyg o fod “wedi arfer trefnu neu gymryd rhan mewn cyfarfod effeithiol” ac mewn rhai achosion o fod yn fwy hunan ysgogol “ac felly bydd yn cymryd cyfrifoldeb ychwanegol am ddarganfod gwybodaeth am ddeddfwriaeth ac am gyfathrebu â'r awdurdod lleol”.

5.6 Sgiliau cyffredinol

Yn ystod y gwaith ymchwil ansoddol tynnodd y llywodraethwyr sylw at y gwahanol sgiliau generig roeddent yn eu gwerthfawrogi yn eu clercod. Rhai o'r rhinweddau a ddyfynnwyd fwyaf ynglŷn â chlercod awdurdodau lleol a rhai nad oeddent yn rhan o awdurdod lleol oedd “sgiliau rhyngpersonol da”, “cefndir masnach da”, “y gallu i

gyfathrebu ag awdurdod lleol”, hyblygrwydd a dibynadwyedd a sgiliau cyfathrebu da gyda llywodraethwyr.

Ymhlith y cyrff llywodraethol oedd yn recriwtio clercc yn annibynnol, roedd rhai o'r rhinweddau yn fwy amlwg ac yn aml yn dod oddi wrth waith blaenorol neu brofiad gwirfoddol. Er enghraifft roedd gan glerc cymuned gefndir mewn Addysg Bellach a chafodd ei gymeradwyo gan y corff llywodraethol am fod “yn effro” ac o gael “perthynas dynamig gyda'r bobl berthnasol yn yr awdurdod lleol”. Gwelwyd clercc cymuned arall a fu'n hir yn ei swydd fel un oedd yn “deall ethos yr ysgol” a hefyd oedd yn “dda iawn mewn pethau ymarferol ... yn ymwneud ag adeiladau, etc.”.

5.7 Persbectif a gwrthrychedd

Gwasanaeth clerccio awdurdod lleol

Tra bo'r adran uchod yn dynodi fod manteision clerccod awdurdodau lleol yn nhermau gwybodaeth a phrofiad yn cael eu cydnabod yn weddol eang, mae'r farn ar ba mor ddiduedd y gall clerccod awdurdod lleol fod yn fwy rhanedig. Un o'r pryderon cyffredin a fynegir am gyrff llywodraethol yn cael eu clerccio gan aelod o staff yr ysgol yw ynglŷn â'r berthynas rhwng y pennaeth a'r clercc. Yn wrthgyferbyniol i hynny, nid yw clercc awdurdod lleol “yn mynd i gael ei ddylanwadu/dylanwadu gan y pennaeth” ac felly mae'n “fwy gwrthrychol”. Adnabu un sylwebydd fod clercc awdurdod lleol “heb gymaint o wybodaeth am yr ysgol [a chlercc yn yr ysgol]” ond teimlai i ryw raddau “fod hyn yn fantais” ar sail fod gwybodaeth gyd-destunol yn gallu ei wneud “yn fwy anodd i fod yn wrthrychol”.

Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo fod sefyllfa'r clercc yn yr awdurdod lleol yn gallu achosi risg posibl o wrthdaro buddiannau o ran eu hagosatrwydd at fuddiannau'r awdurdodau lleol. Yn ymarferol gall hyn olygu “pwysau o ran amser ochr yn ochr ag ymrwymadau gwaith arall” sydd, yn ei dro, yn gallu cyfyngu ar yr adnodd y gall clercc ei roi i ysgolion unigol.

Credai rhai rhanddeiliaid fod clerccod yn ogystal â chyrff llywodraethol yn gallu bod o dan anfantais drwy drefniadau CLG. Er enghraifft os oes dadl rhwng yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethol” y gall y clercc gael ei “ddal yn y canol”.

Aeth un rhanddeiliad mor bell ag awgrymu y gall clerccod awdurdodau lleol fod yn “gyflym i amddiffyn yr awdurdod lleol” yn hytrach na blaenoriaethu buddiannau'r ysgol “gall bos [y clercc] yn yr awdurdod lleol ddwyn pwysau arno/arni mewn rhai enghreifftiau”.

Fodd bynnag, tra roedd ymarferwyr yn nodi hyn fel risg posibl, roedd llawer o lywodraethwyr a phenaethiaid yn awyddus i amddiffyn niwtraliaeth eu clercc awdurdod lleol. Cydnabu un pennaeth y gall “tyndra” godi os nad yw'r corff llywodraethol “yn cytuno â rhywbeth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud” ond roedd yn ddiysgog nad oedd y clercc “yn dangos rhagfarn” ac “nad yw byth yn gwthio agenda'r awdurdod lleol”. Awgrymodd un llywodraethwr fod clercc awdurdod lleol yn gallu cyflawni swyddogaeth bwysig cyfryngwr “os yw'r corff llywodraethol yn anghytuno â'r awdurdod lleol”.

O bersbectif y clerc, roedd cydnabyddiaeth “ei fod yn gallu gwneud iddo ef/hi deimlo’n chwithig os bydd corff llywodraethol yn beirniadu cydweithiwr” yn yr awdurdod lleol. Ond doedd un clerc ddim yn gallu meddwl am enghraifft ble roedd hi’n “teimlo ei bod wedi’i chyfaddawdu yn ei swyddogaeth fel gweithwraig gyflogedig gan yr awdurdod lleol” ac mae’n ymddangos y bydd y llywodraethwyr fel arfer yn gwneud ystum cyfeillgar er mwyn dangos “nad ydyn nhw’n pwysu ar fy ngwynt i”.

Roedd un rhanddeiliad oedd yn siarad o Lywodraethwyr Cymru yn teimlo mai grymuster cytundeb CLG a’r ffordd roedd yn cael ei ddehongli oedd y ffactorau allweddol: “mae gofyn i anghenion CLG gael eu hysgrifennu yn y ffordd gywir a’i gymryd yn yr ysbryd iawn ... fel y dylid setlo pob problem”.

Y rhan fwyaf o’r amser roedd clercod awdurdodau lleol yn cael eu hamgyffred fel rhai oedd o anghenraid yn ddiuedd. Er roedd mwy nag un llywodraethwr wedi mynegi pryder y gallai pethau newid os bydd angen i awdurdodau lleol gwtogi ar eu gwasanaeth clercio. Gallai hyn roi clercod mewn sefyllfa anodd os disgwylir iddynt, gan yr awdurdod lleol, roi llai o amser i glercio: “efallai y byddai’n clerc yn teimlo ei bod/ei fod wedi’i rwygo rhwng y bos yn neuadd y sir a’n buddiannau ni”.

Gwasanaeth clercio nad yw’n rhan o’r awdurdod lleol

Awgrymodd nifer o randdeiliaid allweddol ei fod yn anoddach i glercod mewn ysgol aros yn ddiuedd dros faterion dadleuol, yn arbennig mewn achosion ble mae’r pennaeth yn tra arglwyddiaethu. Os yw’r clerc hefyd yn gweithio yn yr ysgol “mae’r ddynmeg yn wahanol ... yn y berthynas a’r pennaeth” ac “efallai ei fod er budd i’r pennaeth gadw mwy o reolaeth”. Yn yr un ffordd awgrymwyd y gall clerc mewn ysgol “fod yn llai hyderus na chlerc awdurdod lleol i herio’r cadeirydd”.

Mae arwyddion y gall clerc mewn ysgol gael ei weld mewn swyddogaeth fwy gwasaid. Er enghraifft gwnaeth un llywodraethwr ysgol uwchradd y sylw fod y ffaith fod y clerc “yn gweithio’n dawel” yn gryfder pwysig. Mewn achos arall dywedodd y cadeirydd fod “y clerc yn gwybod eu bod yn atebol i’r pennaeth”.

Yn ychwanegol, tra roedd cael gwybodaeth gyd-destunol am yr ysgol yn cael ei gydnabod fel mantais i ryw raddau awgrymodd sawl sylwebydd ei fod “yn gallu ei wneud yn fwy anodd i aros yn wrthrychol”. Roedd un unigolyn yn arbennig o bryderus am ddiffyg dulliau gwarchod yn erbyn rhagfarn ac annoethineb: “byddai’n rhaid i’r clerc fod yn ymwybodol iawn o gyfrinachedd...byddai’n dibynnu ar unplygrwydd yr unigolyn”. Mewn gwrthgyferbyniad un o brif fanteision bod â chlerc wedi ei dynnu o’r gymuned ehangach oedd y berthynas â gwrthrychedd: “os nad ydynt yn rhan o’r ysgol wedyn does dim gwrthdaro buddiannau” ac “maen nhw’n llai tebyg o fod yn rhagfarnllyd”.

Serch hynny, cafodd y pryderon hyn am berthynas anaddas rhwng y pennaeth a’r clerc, a rhagfarn y clerc ei wrthddweud gan lawer o lywodraethwyr oedd â phrofiad o glerc ysgol. Er enghraifft roedd un pennaeth yn teimlo fod eu clerc ysgol “â dealltwriaeth dda iawn o’r ysgol, ond mae bob amser yn wrthrychol”. Pwysleisiodd un clerc mewn ysgol, yr angen “i fod yn synhwyrol ... mae’n bwysig i nodi penderfyniadau yn hytrach na phob sill a ynganir”. Mewn awdurdod lleol arall ble nad

oedd CLG wedi'i gynnig o gwbl, ystyrid fod y pennaeth a'r clerc yn "parchu ei gilydd yn fawr iawn ... mae'r pennaeth yn gofyn am ei chyngor".

5.8 Crynodeb o'r prif bwyntiau

Mae dealltwriaeth gyffredinol fod swyddogaeth clercio yn "ddeblyg" yn nhermau swyddogaethau ysgrifenyddol ac yn y swyddogaeth ymgynghorol wrth gynnig cyngor i'r corff llywodraethol ar "faterion trefniadol a chyfansoddiadol".

Mae'r safbwyntiau ar beth mae'r cymhwyster cynghorol yn ei gynnwys yn amrywio'n sylweddol mewn gwahanol UCLI ac ymhlith cyrff llywodraethol.

Mae hefyd adnabyddiaeth gyffredinol fod peth gwahaniaethiad mewn safonau clercio, hyd yn oed yn yr un awdurdod lleol.

Mae prif fanteision y model CLG yn cynnwys:

- Dyletswyddau clerc wedi'u diffinio'n gliriach a mwy o atebolrwydd.

- Sail gwybodaeth y clerc a'u safle yn yr awdurdod lleol.

- Yn gyffredinol clercod (awdurdod lleol) sy'n fwy hyderus yn eu gwybodaeth eu hunain, yn fwy pendant ac mae ganddynt fwy o annibyniaeth oddi wrth yr ysgol.

- Arbenigrwydd ehangach yn yr awdurdod lleol a phrofiad o gyrff llywodraethol eraill.

- Manteision gweinyddol a gynigir gan yr UCLI ehangach.

Mae diffygion y model CLG yn cynnwys:

- Pryderon am adnoddau cyfyngedig yn arwain clercod unigol i fod yn gyfrifol am nifer fawr o gyrff llywodraethol.

- Amrywiaethau yn ansawdd y swyddogion.

- Gall safle'r clerc yn yr awdurdod lleol achosi gwrthdaro buddiannau.

Mae prif fanteision y dulliau eraill i'r model CLG yn cynnwys:

- Dull mwy hyblyg a llai ffurfiol clercod nad ydynt yn rhan o awdurdod lleol.

- Lefel o gymorth wedi'i ganolbwyntio yn fwy o ystyried fod y clerc ddim ond yn gyfrifol am nifer fach o ysgolion (os nad ysgol sengl).

Y prif fanteision o gael clerc mewn ysgol yn benodol yn cynnwys:

- Mae'r clerc yn gyfarwydd â'r cyd-destun lleol.

- Lleolir y clerc yn yr ysgol ac mae'n hawdd cysylltu ag ef/hi.

Gall y clerc (yn arbennig mewn ysgolion uwchradd) fod yn aelod cymharol hŷn o'r staff (er enghraifft trysorydd yr ysgol), gyda lefel uchel o sgiliau a dealltwriaeth.

Mae'r prif fanteision o gael clerc o'r gymuned yn arbennig yn cynnwys:

Gall y clerc ddod ag amrywiaeth o sgiliau i'r swyddogaeth, o brofiad perthnasol blaenorol, naill ai mewn safle addysgol neu weinyddol;

Gall y clerc gynnig gwrthrychedd sy'n annibynnol o'r awdurdod lleol ac o'r ysgol.

Mae diffygion y dulliau eraill yn cynnwys:

Mwy o anhawster yn cynnal safonau cyson o glercio.

Monitro perfformiad mwy cyfyngedig ar draws gwahanol gyrff llywodraethol.

Y risg fod gorwelion y gyrff llywodraethol yn gallu cael eu cyfyngu gan arbenigedd y clerc.

Cystadleuaeth am flaenoriaethau gan swyddi neu gyfrifoldebau eraill sydd gan y clerc cymuned neu cyfrifoldebau gweinyddol eraill gan y clercod mewn ysgolion.

Y risg fod clercio gwirfoddol yn gostwng statws ymddangosiadol swyddogaeth y clerc.

Cryn amrywiaeth ym mherfformiad y clercod nad ydynt yn rhan o awdurdod lleol yn dibynnu ar swydd ddisgrifiad gwaith y clerc yn ogystal â gallu unigol a phrofiad.

Mae diffygion cael clerc mewn ysgol yn benodol yn cynnwys:

Gall fod yn anoddach i glercod mewn ysgolion i aros yn ddiuedd dros faterion dadleuol ble mae'r pennaeth yn tra arglwyddiaethu.

Gall clercod mewn ysgolion gael eu hamgyffred mewn swyddogaeth fwy gwasaidd gan y pennaeth a gweddill y corff llywodraethol.

6. Canllawiau a chefnogaeth i glercod cyrff llywodraethu

6.1 Lefel strategol

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Chanllawiau Llywodraethwyr Ysgol i'r Gyfraith yw'r prif ffynonellau o ganllawiau dogfennol i glercod cyrff llywodraethu ar lefel genedlaethol. Mae'r rheoliadau'n bodoli "er mwyn sicrhau bod popeth yn cael sylw o safbwynt cyfreithlondeb" ond teimlai rhai sylwebwyr fod "angen am ganllawiau cenedlaethol penodol i Gymru ar gyfer clercod", megis y llawlyfr i glercod a chadeiryddion sydd ar gael yn Lloegr ac sydd wedi cael ei ddisgrifio fel un "defnyddiol a throsglwyddadwy ... er bod y polisi'n gwahanol, mae'r broses yr un fath".

Mae'r cymorth a'r adnoddau a gynigir gan Lywodraethwyr Cymru hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth, sydd wedi cael ei ddisgrifio gan un rhanddeiliad fel "cyfaill beirniadol". Fodd bynnag, awgrymodd un cynrychiolydd Llywodraethwyr Cymru fod "rhaid o'r materion a godwyd gan lywodraethwyr eraill ynghylch pethau y gallai clercod eu hateb petaent wedi cael hyfforddiant addas".

Fodd bynnag fel wnaeth amryw o glercod llywodraeth leol dynnu sylw at Lywodraethwyr Cymru fel ffynhonnell bwysig o wybodaeth: "Dw i'n ffonio [Llywodraethwyr Cymru] yn aml i holi eu barn" neu "i gyfeirio llywodraethwyr at Llywodraethwyr Cymru" os yw'r mater yn un neilltuol o gymhleth. Fe wnaeth y mwyafrif o glercod a gyfwelwyd yn ystod yr ymchwil ansoddol gyfeirio at Llywodraethwyr Cymru, ac roeddent yn gyffredinol ffafriol eu barn ar y sefydliad. Roedd un sylwebydd yn gwerthfawrogi'n llinell gymorth yn enwedig "sydd yno i fynd i'r afael â materion penodol". Teimlai un clerc mewn ysgol fod llenyddiaeth Llywodraethwyr Cymru'n "ehangu eich ffordd o feddwl".

Yn ystod yr ymchwil ansoddol cafodd yr unig safbwyntiau negyddol ar Llywodraethwyr Cymru eu mynegi gan ddau lywodraethwr, ac roedd yr agwedd yn fwy difater na beirniadol: "Dydw i erioed wedi cysylltu â Llywodraethwyr Cymru ... ond dyw eu cyhoeddiadau erioed wedi creu argraff arnaf". Yn ogystal, yn y ddau achos hwn, teimlai'r corff llywodraethu fod y clerc (awdurdod lleol) yn hynod o wybodus, ac yn ffynhonnell ddigonol o wybodaeth ar gyfer y corff llywodraethu.

6.2 Cefnogaeth ar lefel leol

Caiff cefnogaeth a chanllawiau ar lefel awdurdod lleol eu canfod yn aml fel yr hyn sydd fwyaf gwerthfawr i glercod er bod cydnabyddiaeth eang yr un pryd nad yw'r ddarpariaeth yn gyson mewn unrhyw ystyr: "nid yw'n faes chwarae cyfartal ledled Cymru o safbwynt pa gymorth y mae clercod yn ei gael".

Mae rhai awdurdodau'n cynnal fforwm clercod sy'n golygu "cyfarfod o'r holl glercod pob tymor i gymharu syniadau". Lle caiff fforymau eu hwyluso mae'r adborth gan glercod yn gadarnhaol iawn, er mai un ffactor sy'n eu tansellio yw y gall fod yn anodd cael amser yn rhydd i fynychu – sy'n broblem neilltuol i glercod ysgolion sy'n gweithio oriau ysgol. Roedd un clerc ysgol, a oedd yn cael cefnogaeth gref gan y prifathro i fynychu fforymau, yn eu hargymell yn gryf, ond ychwanegodd "rydych yn

gweld yr un wynebaw [yn y fforwm] o hyd ... dyw hi ddim yn hawdd i bawb gael amser i ffwrdd”.

Mae'r adborth gan y rhan fwyaf o glercod yn awgrymu mai'r cyngor a'r canllawiau anffurfiol a ddarperir gan y UCLI dros y ffôn a thrwy e-bost yw'r hyn sydd fwyaf cyffredin a'r pwysicaf yn y pen draw. Disgrifiodd un clerc yn y gogledd y “cymorth dros y ffôn” fel rhywbeth a oedd yn “achubiaeth”. Roedd clerc cymuned yn ne-ddwyrain Cymru yn yr un modd yn gwerthfawrogi'r canllawiau anffurfiol “wrth godi'r ffôn”. Dywedodd un clerc ysgol “Dw i'n gwybod y pethau sylfaenol ac os oes arnaf angen mwy, dw i'n gofyn [i'r swyddog UCLI]”, tra bod clerc ysgol mewn awdurdod lleol arall yn disgrifio'r UCLI fel rhywbeth sydd “wedi ei daenu'n denau ond sy'n dda iawn ... bob amser yn ddefnyddiol”.

Fe fydd gwybodaeth berthnasol yn ogystal yn cael ei anfon yn gyffredinol trwy e-bost, er enghraifft mae un awdurdod lleol yn anfon adroddiad misol i bawb o'r llywodraethwyr, sy'n cynnwys newyddion cyfoes a diweddariadau ar ddeddfwriaeth. Mae UCLI arall yn cynhyrchu Cylchlythyr Llywodraethwyr yn cynnwys cornel clercod sy'n darparu gwybodaeth addas⁵¹. Fodd bynnag roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu gwerth gwybodaeth ddogfennol, ar y sail “mai'r cwestiwn mawr yw a yw'r wybodaeth yma [canllawiau] yn cyrraedd y clercod ... gall negeseuon e-bost fynd ar goll ... mae cyfathrebu mor bwysig”. Teimlai un clerc ei fod yn aml yn “bur gyffredinol” ac mai'r “canllawiau ad hoc” dros y ffôn neu trwy e-bost sydd fwyaf defnyddiol.

Roedd lleiafrif o lywodraethwyr yn mynegi pryder ynghylch y gwahaniaethu yn y lefel o gymorth a gynigir i gyrff llywodraethu (ac yn ei dro, eu clercod) ar sail eu penderfyniad i ymgymryd â'r CLG clercio. Fe wnaed y sylw gan gadeirydd corff llywodraethu gyda chlerc llywodraeth leol bod yr UCLI wedi bod yn “fwy cyndyn” i gynnig cyngor ar “faterion cyfreithiol”, er enghraifft, yn y gorffennol pan oedd clerc yn yr ysgol gan y corff llywodraethu.

Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrth-ddweud gan un clerc UCLI yn gweithio mewn awdurdod lleol a oedd yn gwneud defnydd rhannol o'r CLG clercio. Disgrifiodd rhywfaint o hylifedd rhwng y gwasanaeth y mae cyrff llywodraethu yn eu derbyn trwy'r CLG clercio a'r gefnogaeth a roddir i gyrff llywodraethu (a chlercod) trwy gymorth safonol i lywodraethwyr, er enghraifft rhoi “cyngor i glercod ysgolion ar eirio cofnodion” neu ar gyfer “cyngor ar benodi llywodraethwyr cymunedol er enghraifft”.

6.3 Crynodeb o'r prif bwyntiau

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Chanllawiau Llywodraethwyr Ysgol i'r Gyfraith yw'r prif ffynonellau o ganllawiau dogfennol ar gyfer clercod cyrff llywodraethu ar lefel genedlaethol.

Mae Llywodraethwyr Cymru hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth.

⁵¹ Er enghraifft awgrymiadau am agendâu cyfarfodydd, anogaeth i ethol y cadeirydd/is-gadeirydd, diweddarau/adolygu manylion cyswllt y llywodraethwyr a strwythur y pwyllgor, a chadarnhau trefniadau'r calendr.

Caiff cymorth a chanllawiau ar lefel awdurdod lleol eu canfod yn aml fel yr hyn sydd fwyaf gwerthfawr i glercod er bod cydnabyddiaeth eang yr un pryd nad yw'r ddarpariaeth yn gyson mewn unrhyw ystyr.

Y cyngor a'r canllawiau anffurfiol a ddarperir gan y UCLI dros y ffôn a thrwy e-bost yw'r hyn sydd fwyaf cyffredin a'r pwysicaf yn y pen draw.

Lle caiff fforymau eu hwyluso mae'r adborth gan glercod yn gadarnhaol iawn, er mai un ffactor sy'n eu tanseilio yw y gall fod yn anodd cael amser yn rhydd i fynychu – sy'n broblem neilltuol i glercod ysgolion sy'n gweithio oriau ysgol.

7. Hyfforddiant i glercod

7.1 Cyfrifoldeb am hyfforddi clercod

Teimlai'r mwyafrif o randdeiliaid a llywodraethwyr mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, yn rhannol os nad yn gyfan gwbl, yw hyfforddi clercod. Roedd rhai ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yn rhannu'r farn hon, o blith cyrff llywodraethu sy'n ymgymryd â CTG clerco ac o blith rhai nad ydynt. Yn achos clercod llywodraeth leol yn enwedig awgrymwyd mai gan yr UCLI y mae'r cyfrifoldeb "gan eu bod yn darparu'r gwasanaeth ... nid [cyfrifoldeb] y corff llywodraethu [ydyw] gan eu bod nhw'n talu am y gwasanaeth".

Teimlai un sylwebydd y dylai awdurdodau lleol nid yn unig ddarparu'r hyfforddiant ond y dylent hefyd gyflawni "rôl codi ymwybyddiaeth" gan fynd ati o ddifrif i annog clercod i fynychu. Honnai amryw o glercod cymunedol iddi fod yn anodd mynychu hyfforddiant a gynigiwyd oherwydd ymrwymadau gwaith eraill. Hyd yn oed yn achos clercod ysgolion, mae tystiolaeth i awgrymu y gallu dyletswyddau eraill ysgol ei gwneud hi'n anodd i gael amser yn rhydd i fynychu hyfforddiant. Yn wyneb y ffaith mai amser a logisteg yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb, teimlai rhai fod angen i UCLI gynnig rhaglenni hyfforddi hyblyg i gynnwys clercod mewn gwahanol amgylchiadau, er enghraifft, trwy "becynnau dysgu o bell". Teimlai prifathro yng ngogledd Cymru a oedd â chlerc ysgol ar gyfer y corff llywodraethu y dylai fod cymelliadau ariannol i glercod gael eu rhyddhau ar gyfer hyfforddiant: "mae angen i ysgolion gael ei talu i gyfarfod y costau hyn [ar gyfer staff cyflenwi]".

Teimlad nifer sylweddol o randdeiliaid, swyddogion UCLI a llywodraethwyr oedd, er mai dyletswydd awdurdodau lleol yn bennaf yw darparu hyfforddiant, fod hefyd rôl i gyrff llywodraethu symbylu galw a galluogi eu clercod i fynychu: "efallai y dylem bwysu am fwy o wybodaeth". Galwyd ar brifathrawon yn benodol i flaenoriaethu hyfforddiant clercod ar gyfer clercod sy'n gweithio mewn ysgolion trwy ddyrannu amser i fynychu cyrsiau.

Ychydig o sylwebwyr a deimlai fod y cyfrifoldeb yn gorwedd ar unrhyw un lefel, a theimlai'r mwyafrif fod angen iddo gael ei rannu, i raddau helaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu. Teimlai rhai fod y cyfrifoldeb am hyfforddi'n "gorwedd gyda phawb", gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Roedd amryw o randdeiliaid ac ymarferwyr yn cytuno â'r pwynt hwn, gan wneud y sylw fod gan Lywodraeth y Cynulliad rôl "mewn gosod cyfeiriad".

Roedd rhai'n cydnabod ei bod "yn anodd i Lywodraeth y Cynulliad gan fod gan bob un o'r awdurdodau lleol wahanol fodelau". Fodd bynnag, roedd cefnogaeth sylweddol i Lywodraeth y Cynulliad wneud hyfforddiant yn orfodol i glercod ac awgrymwyd hefyd y "dylai monitro perfformiad fod yn rhan o hynny". Awgrymodd un sylwebydd y byddai gwneud hyfforddiant i glercod yn orfodol yn sicrhau cydraddoldeb darpariaeth, drwy fod y penderfyniad i ddarparu hyfforddiant neu beidio i glercod ar hyn o bryd yn "fater dadleuol" i awdurdodau lleol. Teimlid hefyd y byddai hyn yn "codi statws clercod" ac yn cyflwyno dealltwriaeth fwy safonol o'r hyn y mae rôl clerco yn ei olygu.

Teimlai rhai llywodraethwyr fod angen i glercod eu hunain gymryd cyfrifoldeb am fynychu hyfforddiant: “dylent fanteisio ar y cyfle gan eu bod nhw’n cael eu talu”. Mae hyn yn gysylltiedig â mater arall ynghylch ymwybyddiaeth, a’r angen i glercod fod yn effro i’r hyfforddiant sydd ar gael, yn ogystal ag i UCLI hyrwyddo hyfforddiant yn effeithiol. Daeth y mater hwn i’r golwg mewn un awdurdod lleol lle cynigir hyfforddiant clercod yn flynyddol; roedd clerc yn yr awdurdod lleol yn galw am hyfforddiant “amlach” ar y sail nad oedd hi “wedi cael unrhyw hyfforddiant ers chwech neu saith mlynedd” ond iddi “fynychu pob un a gafodd ei gynnal”].

Ymysg y rhai a deimlai fod cyfrifoldeb ar glercod eu hunain roedd un llywodraethwr yn feiriadol o Lywodraeth y Cynulliad a’r awdurdod lleol am ddarparu cyngor annigonol ar yr hyn yr oedd angen i glercod ei wneud a bod yn ymwybodol ohono: “pe bai ganddynt ddisgrifiad swydd yna byddai’n **rhaid** iddynt wneud hyn, ac felly byddai’n rhaid i’r awdurdod lleol ei ddarparu”.

Roedd gwahaniaethau nodedig yn yr agweddau ymysg llywodraethwyr tuag at hyfforddiant clercod a hyn yn ddibynnol ar a oedd gan yr awdurdod lleol glerc awdurdod lleol ai peidio. Roedd yn farn gyffredin ymysg cyrff llywodraethu sydd wedi ymgymryd â CLG fod hyfforddiant ffurfiol yn amherthnasol: “rydym yn talu am y gwasanaeth, doedden ni ddim yn ymwybodol o unrhyw hyfforddiant y mae’r clerc yn ei dderbyn”.

Roedd yr agwedd hon yn adlewyrchu nid yn unig difaterwch mewn rhai achosion, ond cydnabyddiaeth fod y rhan fwyaf o sgiliau a gwybodaeth y clercod yn dod o “hyfforddiant wrth weithio” ac o’r profiad o weithio mewn ysgolion eraill, a bod hyfforddiant clercod “i raddau helaeth yn ymwneud â siarad gyda chlercod eraill”.


7.2 Darpariaeth hyfforddiant i glercod

Mae hyfforddiant i glercod yn digwydd ar lefel awdurdod lleol yn bennaf, er bod yna UCLI sy’n darparu hyfforddiant mewn cydweithrediad ag awdurdodau eraill. Roedd y mwyafrif o randdeiliaid yn ansicr ynghylch faint o hyfforddiant oedd ar gael i glercod, a theimlai llawer fod y ddarpariaeth yn dameidiog ac “er bod yr awdurdodau lleol gorau’n darparu hyfforddiant ... mae eraill nad ydynt ... mae’n dibynnu ar adnoddau’n ogystal â blaenoriaethau”

Fodd bynnag, y gwirionedd yw mai un awdurdod lleol yn unig yng Nghymru sydd heb fod yn cynnig hyfforddiant clercod ar hyn o bryd (UCLI ydyw sy’n cynnig y CLG clerco i bob ysgol). Mae’r graff isod yn datgelu pob awdurdod lleol nad yw’n cynnig CLG clerco’n darparu hyfforddiant clercod (sef ar gyfer clercod ysgolion a chymunedol).

Fodd bynnag, bydd un o’r ddau awdurdod lleol sy’n cynnig gwasanaeth clerco i’r holl ysgolion yn darparu hyfforddiant i glercod awdurdod lleol *yn unig*, er bod hyn hefyd yn wir am tua pumed ran o awdurdodau lleol sy’n cynnig CLG clerco i rai ysgolion. Beth mae hyn ei olygu, fodd bynnag, yw mai’r sefyllfa mewn pedwar awdurdod lleol yw na chynigir hyfforddiant gan yr awdurdod lleol i glercod mewn ysgolion a chlercod yn y gymuned (naill ai am na chynigir hyfforddiant o gwbl, neu ei fod yn cael ei gynnig i glercod awdurdod lleol yn unig).

Ffigur 16 Darpariaeth hyfforddiant i glercod yn ôl math o awdurdod lleol



Mae amwysedd sylweddol ynghylch darpariaeth hyfforddiant i glercod, ac er bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o glercod yn gallu cael hyfforddiant llywodraethwyr, mae rhai'n ansicr a yw awdurdodau lleol "yn ei ddarparu'n benodol ar gyfer clercod". Mae rhai wedi awgrymu bod blaenoriaeth yn cael ei roi'n gyffredinol i hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr, yn enwedig cadeiryddion ar y sail ei bod hi'n ofynnol yn statudol i ddarparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu.

Mae cost yn amlwg yn ystyriaeth allweddol ac er bod darpariaeth hyfforddiant awdurdodau lleol i glercod "yn gyffredinol am ddim ... nid yw'n orfodol i hyfforddiant ar gyfer clercod fod am ddim", ac wrth i adnoddau "ddod yn fwy o broblem" mae rhai awdurdodau'n cynnig hyfforddiant i glercod unwaith y flwyddyn yn unig.

Mae amser a logisteg hefyd yn ffactorau, sy'n arbennig o wir mewn awdurdodau lleol mwy lle mae yna "ysgolion bach sydd wedi eu gwasgaru'n eang ... mae rhai clercod na wnânt deithio". Awgrymodd un swyddog UCLI ei bod "yn dod yn fwy anodd i gael pobl i fynychu ... gan fod ganddyn nhw ymrwymadau eraill". Gall hyn fod yn fwy o ystyriaeth i glercod mewn ysgolion, gan y gall fod yn broblem cael amser yn rhydd i fynychu hyfforddiant, yn enwedig mewn ysgolion cynradd lle mae adnoddau dynol yn fwy cyfyngedig.

Mewn awdurdodau lleol gyda graddau uchel o ymgymryd â'r CLG clericio, mae'n haws ac yn rhatach hyfforddi clercod awdurdodau lleol yn fewnol, a lle mae niferoedd neilltuol o isel o glercod heb fod yn rhai awdurdod lleol, mae'n dod yn llai ymarferol fyth i ddarparu hyfforddiant i grwpiau bach iawn. Arferai un UCLI ddarparu "hyfforddiant i glercod dros dro" i glercod heb fod yn rhai awdurdod lleol mewn ysgolion cyfun, ond maent wedi rhoi'r gorau i'w gynnig, yn bennaf gan fod fwy neu lai bawb bellach yn ymgymryd â'r CLG clericio. Yn ogystal, awgrymodd rhai swyddogion

UCLI eu bod nhw (a'r cyrff llywodraethu) mewn awdurdodau lleol gydag ychydig yn unig o glercod heb fod yn rhai awdurdod lleol, yn llawer mwy datgysylltiedig oddi wrth yr awdurdod lleol, ac nad yw presenoldeb yn rheolaidd hyd yn oed pan fo sesiynau ar gael i glercod ysgol neu gymunedol.

Er hynny, mae'n gyffredin i hyfforddiant gael ei ddarparu i glercod awdurdod lleol a chlercod eraill, hyd yn oed os nad oes cysondeb yn hyn o beth. Mae chwe awdurdod lleol ar hyn o bryd yn cynnig hyfforddiant ffurfiol neu achrededig (mae pedwar ohonynt nad ydynt yn cynnig CLG clerco o gwbl). Ar y cyfan, cyflwynir hyfforddiant rhannol achrededig mewn sesiynau grŵp, fodd bynnag, mae un awdurdod lleol yn cynnig modiwlau ar-lein achrededig i glercod.

Drwy bob un o'r 22 o awdurdodau lleol, hyfforddiant anffurfiol ac anachrededig yw'r math mwyaf cyffredin o ddigon – mewn sesiynau grŵp gan amlaf. Mae 17 o awdurdodau lleol yn cynnig hyfforddiant anffurfiol i grwpiau, tra bod 10 o awdurdodau lleol yn cynnig math arall o hyfforddiant anffurfiol (sesiynau cynefino un-i-un ar gyfer clercod heb fod yn rhai awdurdod lleol neu hyfforddiant mewnol i glercod awdurdod lleol er enghraifft).

Nid yw cydweithio ag awdurdodau lleol eraill wrth gyflwyno hyfforddiant i glercod yn digwydd ar raddfa eang. Mae hanner yr awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG clerco'n cydweithio'n achlysurol ag awdurdodau eraill i ddarparu hyfforddiant. Ymysg awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnig CLG mae'r cyfan o'r 27% ohonynt yn cydweithio ar hyfforddiant i glercod (9% yn aml). Mae'r gyfran o awdurdodau lleol sy'n cydweithio ar hyfforddiant yn aml ar ei uchaf mewn gwirionedd ymysg y rhai sy'n cynnig gwasanaeth clerco i bob corff llywodraethu (11%), er eu bod hwy fel cyfanrwydd yn llai tebygol o wneud hynny, drwy mai 11% yn unig sy'n cydweithio'n achlysurol.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi ceisio cynnig hyfforddiant ar-lein, ond nid yw hyn wedi digwydd ar raddfa helaeth. Dau awdurdod lleol yn unig sy'n darparu modiwlau ar-lein (un achrededig) ar hyn o bryd, fodd bynnag teimlai nifer o glercod (yn enwedig clercod cymunedol) y byddai hyfforddiant ar-lein a fforymau ar-lein yn llawer mwy hwylus nag unrhyw fath arall o hyfforddiant.

Mae sesiynau hyfforddi clercod yn parhau rhwng awr a dwy awr yn y tri chwarter a mwy o awdurdodau lleol sy'n cynnig hyfforddiant. Mae tri awdurdod lleol yn cynnig hyfforddiant hanner diwrnod, ac mewn un awdurdod lleol dywedir bod hyfforddiant i glercod yn ddiwrnod o hyd. Mae bron bob UCLI yn defnyddio rhyw ffurf o ddeunyddiau neu adnoddau mewn sesiynau hyfforddi i glercod; mae llai nag un o bob pump o'r cyrff llywodraethu nad ydynt yn cynnig CLG o gwbl, ac ychydig dros un o bob deg o'r rhai sy'n cynnig clerco awdurdod lleol i bob corff llywodraethu, heb fod yn defnyddio unrhyw ddefnyddiau penodol o gwbl. Mae dros dri chwarter o awdurdodau lleol sy'n darparu hyfforddiant yn cyflwyno deunyddiau a ddatblygwyd yn fewnol, ac mae dros chwarter yn defnyddio deunyddiau a ddatblygwyd gyda phartneriaid. Mae cyfran debyg yn darparu hyfforddiant gan ddefnyddio deunyddiau o rywle arall, ac ymysg yr ymatebion ysgrifenedig i'r arolwg UCLI ac o'r ymchwil ansoddol, y modiwl hyfforddiant i glercod a gynhyrchwyd gan Ganolfan Hyfforddi Llywodraethwyr Cymru Gyfan yw'r un a grybwyllwyd amlaf. Roedd ymwybyddiaeth o'r modiwl yn weddol gyffredin ymysg yr UCLI a gynhwyswyd yn yr ymchwil

ansoddol, ac fe wnaeth amryw o awdurdodau lleol a oedd yn honni defnyddio deunyddiau a ddatblygwyd yn fewnol, gydnabod bod y modiwl wedi ei ddefnyddio fel sail.

Roedd yr adborth gan glercod heb fod yn rhai awdurdod lleol sydd wedi mynychu hyfforddiant yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; cafodd ei ddisgrifio gan un clerc yng ngogledd Cymru fel “trwyadl iawn ac o safon uchel iawn”. Roedd y ffaith ei fod ar gael yn agos i’r ysgol a bod y corff llywodraethu a’r prifathro’n gefnogol yn golygu: “Dw i [y clerc] ddim yn meddwl y byddai’n bosibl ei wella”.

Fe wnaeth clerc arall yng ngogledd Cymru ddisgrifio hyfforddiant a gafodd yn ddiweddar “ynghylch cyfansoddiad y corff llywodraethu” fel rhywbeth “defnyddiol iawn” a oedd hefyd yn cynnig “y cyfle i siarad gyda chlercod eraill”. Yn yr un modd, cafodd cyfarfodydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru eu disgrifio fel rhai “defnyddiol iawn” wrth “ddiweddarau gwybodaeth am reoliadau”. Maent hefyd yn denu cynrychiolaeth dda o awdurdodau lleol ac felly’n gyfle delfrydol ar gyfer rhwydweithio. Mewn un awdurdod lleol, mae dau aelod o’r UCLI yn mynychu’r cyfarfod ac wedyn yn “adborthi i weddill y tîm”. Roedd llawer o glercod yn croesawu’r cyfle “i drafod syniadau a chyfarfod clercod eraill” yn gymaint â’r hyfforddiant ei hun.

Teimlai un clerc ysgol fod y fforwm a gynhelir gan yr awdurdod lleol (nad yw’n cynnig clercio o gwbl) “yn diwallu holl anghenion hyfforddi clercod” trwy gynnig cyfle ar gyfer trafodaeth a rhannu arferion gorau. Un o’r prif resymau fod y fforymau’n “dda iawn” yw fod ganddynt “gydbwysedd da” yn mynychu, a’u bod yn cynnwys amrywiol weithgareddau: “mae cwis yn ffordd dda o rannu gwybodaeth”. Roedd amryw o glercod yn gweld fforymau fel y ffordd fwyaf gwerthfawr o hyfforddi, ac yn gyfrwng i’r “awdurdod lleol] yn ein diweddarau ni am bolisi”. Cafodd gwerth sesiynau grŵp ei gydnabod gan un clerc cymuned yn ne-ddwyrain Cymru a oedd wedi cael hyfforddiant cynefino un-i-un “defnyddiol iawn” (wedi ei ddarparu gan yr UCLI), ond mae’n gresynu at y ffaith ei bod, oherwydd ymrwymadau gwaith, yn colli “sesiynau grŵp ffurfiol” ac felly nad yw hi “byth yn cyfarfod clercod eraill”.

Daeth yn amlwg yn ystod yr ymchwil ansoddol fod hyfforddiant i glercod awdurdodau lleol yn aml yn anffurfiol ei naws. Dywedodd un rhanddeiliad mai’r dull cyffredin a ddefnyddir yw “hyfforddi swyddogion yn fewnol” neu “mentora clercod newydd”. Cafodd hyn ei gadarnhau gan un clerc awdurdod lleol a ddisgrifiodd ei phrofiad o hyfforddiant cychwynnol fel “mwy o ddysgu trwy brofiad ... dysgu trwy chwarae rhan o’r dechrau”. Mantais arall clercod awdurdod lleol yw’r graddau o wybodaeth sydd ganddynt eisoes, rhywbeth na ellir ei gynnwys yn hawdd mewn sesiwn hyfforddi safonol: “o safbwynt yr ochr ymgynghorol, fe fyddent yn gwybod hynny p’run bynnag”. Mae ganddynt hefyd y fantais o weithio gyda chlercod eraill, sy’n rhoi’r cyfle i rannu profiadau ac arferion gorau.

Mewn rhai awdurdodau lleol gwahoddir clercod i fynychu sesiynau hyfforddi llywodraethwyr. Fodd bynnag, fe wnaeth amryw o glercod dynnu sylw at y ffaith fod gan lywodraethwyr a chlercod anghenion hyfforddiant gwahanol iawn, safbwynt a gadarnhawyd gan amryw o lywodraethwyr yn ogystal. Fe wnaeth un prifathro yn ne-orllewin Cymru ganmol yr hyfforddiant cynefino a’r fforymau clercod a hwyluswyd gan y UCLI, ond roedd ganddo amheuan ynghylch clercod yn mynychu hyfforddiant llywodraethwyr, nad oedd yn “arbennig o berthnasol”. Awgrymodd un clerc ysgol hir

ei phrofiad y gall hyfforddiant llywodraethwyr yn aml fod “yn canolbwyntio ar y cwricwlwm ... ac nid wedi ei anelu at glercod”. Teimlai ei bod yn anaddas iddi hi'n benodol ar y sail fod “llawer o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnwys yr rhywbeth yr wyf yn ei wybod o ganlyniad i weithio yn yr ysgol”. Fe wnaeth clercod eraill y pwynt fod angen i hyfforddiant clercod ganolbwyntio ar gyfraith llywodraethu a gweithdrefnau clerco yn hytrach nag ar bolisi addysg cyffredinol.

Fodd bynnag, mae rhai clercod wedi mynychu digwyddiadau allweddol penodol hyfforddi llywodraethwyr (er enghraifft ar Gyfraith Amddiffyn Plant) neu gyrsiau cyffredinol ar “gymryd cofnodion” er enghraifft, y cafwyd hwy i fod yn ddefnyddiol er gwaetha'r ffaith nad ydynt yn “hyfforddiant ar gyfer clercod yn benodol”.

7.3 Gwerthuso hyfforddiant clercod

Mae ychydig o dan dri chwarter (83%) o'r holl gyrff llywodraethu'n gwerthuso sesiynau hyfforddi i glercod mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, er bod 18% o awdurdodau nad ydynt yn cynnig CLG, un o'r ddau awdurdod sy'n ei gynnig i bob ysgol a thraean o'r rhai sy'n cynnig CLG clerco i bob ysgol, heb fod yn gwerthuso hyfforddiant o gwbl. Ymysg y rhai sy'n gwneud hynny, y dull mwyaf cyffredin yw trwy ffurflenni adborth ar ôl hyfforddiant a gwblheir gan glercod – fe gyflawnir hyn ym mhob un o'r awdurdodau lleol sy'n weddill nad ydynt yn cynnig CLG, yn yr awdurdod lleol arall sy'n ei gynnig i bob ysgol, ac mewn 44% o'r awdurdodau sy'n cynnig clerco i bawb. Yr unig ffurf arall o werthuso a gyflawnir yw trwy ffurflenni adborth a gwblheir gan gyrff llywodraethu lle mae'r cleric wedi cael ei anfon ar hyfforddiant. Fodd bynnag, un awdurdod lleol yn unig (sy'n cynnig clerco i bob corff llywodraethu) a oedd yn honni defnyddio'r dull hwn. Fe wnaeth yr ymchwil ansoddol ddatgelu enghraifft mewn un awdurdod lleol lle mae'r UCLI yn defnyddio taflenni adborth er mwyn darganfod anghenion hyfforddi i glercod yn y dyfodol.

Mae adborth anecdotaidd wedi dangos bod clercod yn gyffredinol gefnogol i hyfforddi (yn enwedig mewn sesiynau grŵp), o safbwynt cynnwys a chyflwyniad: “roedd yr hyfforddiant yn dda iawn. Cefais gymaint o wybodaeth ynghylch beth i'w wneud a phryd i'w wneud”. Ar ôl un sesiwn hyfforddiant grŵp yn ddiweddar fe wnaeth un cleric mewn ysgol ddarparu “adborth i'r prifathro ynghylch yr hyn sy'n digwydd a'r hyn sydd wedi newid”, a gafodd ei gadarnhau gan y corff llywodraethu yn y grŵp ffocws dilynol. Roedd un cleric cymuned yng ngogledd Cymru'n gallu tynnu sylw at rai manylion o gyfraith llywodraethu yr oedd hi wedi eu dysgu mewn hyfforddiant diweddar: “Dw i'n deall bod y traean wedi cael ei newid i hanner ar gyfer cymryd penderfyniadau ... angen y personél cywir ar gyfer yr is-banelau ... sicrhau bod ffurflenni buddiannau llywodraethwyr yn cael eu cwblhau ... fod gennym y nifer cywir o lywodraethwyr”. Er nad oedd pawb o'r sylwebwyr o blaid hyfforddiant parhaus, teimlai rhai clercod fod, yn wyneb cymhlethdod a natur gyfnewidiol cyfraith llywodraethu, hyfforddiant cymharol aml yn hanfodol gan ei fod yn “cadw gwylbodaeth clercod yn gyfoes”.

O safbwynt effaith hyfforddiant, roedd clercod a llywodraethwyr yn fwy tawedog, er bod rhai achosion lle'r oedd clercod yn gallu tynnu sylw at rai enghreifftiau lle'r oeddent wedi elwa yn eu rôl fel cleric yn dilyn hyfforddiant: “Dwi'n teimlo fy mod i wedi gallu trafod pethau gyda [y prifathro], pethau nad oeddwn yn ymwybodol ohonynt o'r blaen”.

Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r sylwebwyr yn cael anhawster wrth nodi enghreifftiau penodol o effaith y mae hyfforddiant wedi ei gael ar berfformiad eu cler neu eu perfformiad eu hunain: "rydym yn cwblhau ffurflen adborth safonol [ond] does dim ffordd o fesur effeithiolrwydd nac effaith hyfforddiant". Roedd un cleric wedi mynychu hyfforddiant ar ddiweddiadau deddfwriaeth, hyfforddiant yr oedd yn ei ganmol yn uchel, ond teimlai nad oedd: "dim byd wedi newid yn sylfaenol – gwybodaeth fwy diweddar". Yn yr un modd fe wnaeth cadeirydd corff llywodraethu ganmol y sesiynau hyfforddi i glercod a gynhelir gan yr UCLI ond teimlai nad oedd yn gallu dangos unrhyw wahaniaethau gweladwy yn y ffordd yr oedd y cleric yn perfformio ar ôl derbyn yr hyfforddiant hwn: "[Dwi] ddim yn gwybod. Nid ydym erioed wedi cael unrhyw broblemau gyda'r cleric". Ymddengys fod yr agwedd hon yn weddol gyffredin ymysg y mwyafrif o gyrff llywodraethu: "na, dw i ddim wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd".

Yr hyn oedd yn cael ei weld amlaf o ddigon fel y budd mwyaf o hyfforddiant oedd y cyfle i "rwydweithio a gweld sut mae clercod eraill yn perfformio ... rhannu arferion" a "thrafod syniadau a chyfarfod clercod eraill" a grybwyllwyd gan bron bawb o'r clercod a oedd wedi mynychu hyfforddiant mewn sesiwn grŵp. Yn anochel efallai, roedd y mwyafrif o glercod yn ei chael hi'n amhosibl i roi enghreifftiau o bethau penodol yr oeddent wedi eu dysgu. Teimlai amryw o glercod mai fforymau a/neu sesiynau hyfforddiant grŵp law yn llaw â "chefnogaeth dda a chyson" gan yr UCLI oedd yn cynnig y dull gorau o ddiweddarau gwybodaeth clercod a'u cadw'n gymwysedig. Roedd un cleric yng ngogledd Cymru'n "fodlon iawn gyda sut mae pethau'n gweithio" ac nid oedd yn "meddwl y gellid [gwella hyn]" o safbwynt yr hyfforddiant a gynigir i glercod.

7.4 Dulliau eraill o hyfforddi a chefnogi clercod yn y dyfodol

O safbwynt y ffordd y canfyddir dyfodol hyfforddiant a chefnogaeth i glercod, teimlai'r mwyafrif o sylwebwyr mai "cysondeb" yw'r "hyn mae arnom ei eisiau yn y pen draw ... ansawdd amrywiol sydd gennym ar hyn o bryd". Er bod yr adolygiad hwn wedi dangos rhai enghreifftiau o arferion da rhagorol, teimlai llawer o lywodraethwyr a chlercod a oedd yn canmol yr hyfforddiant a ddarperir gan eu UCLI eu hunain fod "angen edrych ar gydraddoldeb cyfle, yn ogystal â safon yr hyfforddiant sydd ar gael ... ni ddylai'r un awdurdod lleol fod o dan anfantais".

Teimlai'r mwyafrif o randdeiliaid y dylai rhyw raddau o hyfforddiant i glercod fod yn orfodol, er bod dyfnder ac amllder yr hyfforddiant yn amrywio. Er hynny y farn oedd y dylai Llywodraeth y Cynulliad chwarae rhan ar lefel statudol: "dylai hyfforddiant [i glercod] ddod yn orfodol"; "mae angen i [Lywodraeth y Cynulliad] wneud hyfforddiant yn orfodol i glercod". Teimlai un atebydd fod y canfyddiad presennol o glercod hefyd yn broblem, ac y byddai gwneud hyfforddiant i glercod yn orfodol yn "codi'r proffil ychydig". Cafodd hyder ac atebolrwydd – ar lefel unigolion y tro hwn – hefyd eu codi fel materion gan un swyddog UCLI a oedd o blaid cyflwyno hyfforddiant gorfodol i glercod, ar y sail ei fod yn "cynnig sicrwydd iddynt" o safbwynt beth yw eu rôl a'r hyn y dylent ei wybod.

Roedd gwahaniaethau barn yn codi ynghylch dwysedd hyfforddiant gorfodol, a rhybuddiodd nifer sylweddol o lywodraethwyr a chlercod yn erbyn "hyfforddi er mwyn hyfforddi" a theimlent ei bod hi'n bwysig cael y cydbwysedd iawn rhwng yr hyn y mae

ar glercod eu hangen o safbwynt eu gwaith a'r hyn a all fod yn amherthnasol i raddau helaeth: "nid ein rôl ni yw bod yn arbenigwyr polisi". Roedd un clerc er enghraifft o blaid gwneud hyfforddiant cynefino'n orfodol i bob clerc ond nid oedd yn gefnogol i hyfforddiant parhaus ddod yn un o ofynion y swydd: "does arnoch chi ddim eisiau hyfforddiant diangen". Y risg yw y gall hyfforddiant ddod yn "rhy ailadroddus".

Ar y llaw arall, teimlai clercod a llywodraethwyr eraill fod y ddarpariaeth bresennol yn annigonol a'u barn oedd "y dylai hyfforddiant ddigwydd yn amlach". Teimlai rhai rhanddeiliaid, yn wyneb diffyg "maes chwarae cyfartal ... efallai mai'r model consortia fydd y dyfodol ... [mae] angen rhywfaint o gytundeb rhwng awdurdodau lleol ei bod hi'n angenrheidiol cael rhyw feincnod ar sut i ddarparu hyfforddiant – yn gydwethredol yn ogystal". Roedd yr angen am "safoni isafswm safon hyfforddiant" yn cael ei gefnogi'n helaeth. Awgrymwyd y gallai cronni adnoddau ddarparu: "hyfforddiant yn amlach". Yn ogystal, byddai'n galluogi UCLI nad ydynt yn diwallu anghenion hyfforddiant clercod ar hyn o bryd "ddysgu oddi wrth awdurdodau eraill".

Fodd bynnag, teimlai rhanddeiliaid eraill ei bod hi'n afrealistig i anelu am fodel unfath o safbwynt trefniadau clerco a hyfforddiant: "y peth gorau yw derbyn nad oes unrhyw un peth sy'n addas i bawb". Er enghraifft, teimlad un cadeirydd y dylid cyflwyno Datblygiad Proffesiynol Parhau i glercod ar ryw lefel: "dylai fod cytundeb neu fframwaith cenedlaethol ... yn cael ei gyflawni ar lefel awdurdod lleol gan roi ystyriaeth i wasanaethau lleol". Teimlai eraill fod "angen i hyfforddiant gael ei wneud ar raddfa lai na thrwy'r wlad yn gyfan" ond bod "angen inni fod yn eglur ynghylch yr hyn sy'n edrych fel arferion da".

Roedd amryw sylwebwyr o'r farn y byddai'r trefniadau ymarferol ar gyfer hyfforddiant gorfodol i glercod yn haws na chyflwyno hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr, yn bennaf oherwydd fod statws y clerc yn wahanol: "maent yn cael eu talu am wneud gwahaniaeth ... nid gwirfoddolwyr mohonynt". Cytunai eraill fod angen i Lywodraeth y Cynulliad gymryd rôl strategol wrth orfodi hyfforddiant i glercod: "dylai fod mwy o reolaeth dros y clerc oherwydd mae'n safle cyflogedig ... felly dylai [hyfforddiant cynefino] fod yn orfodol".

Fe wnaeth amryw o glercod fynegi pryder ynghylch gormod o bwyslais ar hyfforddiant ffurfiol a theimlai llawer mai fforymau yw'r ffordd orau i glercod rannu gwybodaeth a phrofiad. O ganlyniad i'r problemau ynglŷn â mynychu sesiynau wyneb-yn-wyneb, a chydgysylltu dyddiadau buddiol i'r ddwy ochr, teimlai rhai clercod mai fforymau ar-lein fyddai fwyaf ymarferol a hygyrch. Ar lefel genedlaethol, galwodd un llywodraethwr am: "wefan arferion gorau ar gyfer clercod". Teimlai un clerc awdurdod lleol nad hyfforddiant ynddo'i hun yw'r peth mwyaf defnyddiol o angenrheidrwydd. Teimlai'n hytrach "ei bod yn bwysicach bod ar y blaen i newidiadau mewn rheoliadau ... a throsglwyddo'r wybodaeth hon i lywodraethwyr". Roedd y farn hon yn cael ei rhannu gan un cadeirydd corff llywodraethu na welai "unrhyw angen" i'r clerc fynychu hyfforddiant: "mae hi'n gwybod beth mae hi'n ei wneud".

Yn ogystal â hyfforddiant, roedd yr angen am ddisgrifiadau swyddi cymaradwy a manwl yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol er mwyn sicrhau perfformiad clerco effeithiol: "os oes gan y clerc ddisgrifiad swydd priodol, mae'n pennu eu

dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n llawer eglurach". Fe wnaeth un swyddog UCLI y sylw y byddai "rhestr wirio" o gyfrifoldebau clercod yn ddefnyddiol i glercod "yn enwedig ar gyfer cynefino". Tynnodd sylw at y ffaith "ei bod hi'n dal i gymryd blwyddyn neu ddwy i glerc feistrol ei waith" ac felly byddai'n ddefnyddiol fel "adnodd parhaol".

Awgrymwyd hefyd nad oes angen i ddisgrifiad swydd awdurdod lleol fod yn hollgynhwysol, a chyn belled â'i fod yn cynnwys y swyddogaethau gorfodol, dylai cyrff llywodraethu fod yn rhydd i "ychwanegu cyfrifoldebau ychwanegol". Yn yr un modd, pwysleisiodd eraill yr angen i sicrhau bod "yr hyn sy'n cael ei bennu mewn deddfwriaeth yn cael ei gyflawni". Teimlad un sylwebydd (a oedd o blaid hyfforddiant gweddol reolaidd) oedd y "dylai hyfforddiant fod yn y disgrifiad swydd"]".

Er mai sesiynau grŵp anffurfiol oedd yn cael eu gweld fel y math mwyaf gwerthfawr o hyfforddiant, apeliodd nifer sylweddol o glercod am ddarpariaeth hyfforddiant ar-lein, wedi ei gydgysylltu ar lefel genedlaethol i sicrhau safoni: "ychwanegiad defnyddiol fyddai pecyn ar-lein dysgu o bell i glercod yng Nghymru wedi ei sefydlu a'i reoli gan Lywodraeth y Cynulliad neu Lywodraethwyr Cymru". Roedd clercod cymuned yn enwedig yn gefnogol i hyn ar y sail y gellid ei ddefnyddio ar gyfer un unigolyn ar y tro, ac na fyddai'n golygu'r angen am amser rhydd o'r gwaith na "thaith hir i ddigwyddiad hyfforddi".

Fe wnaeth rhai clercod a llywodraethwyr fynegi dymuniad am hyfforddiant (naill ai iddynt eu hunain neu i'w clerc) mewn meysydd penodol. Cyfraith llywodraethu oedd yr hyn a grybwyllwyd fwyaf fel y bwlch mewn gwybodaeth clerco y gellid ei lenwi trwy hyfforddiant ychwanegol. Er enghraifft, teimlad un clerc – a wnaeth sylw (hynaws) ar anaddasrwydd peth o'r hyfforddiant llywodraethwyr a gynigir – oedd "gallem elwa o fwy o hyfforddiant cyfreithiol". Roedd rhai sylwebwyr o blaid hyfforddiant achrededig o bosibl trwy gyfrwng dulliau ar-lein, er mai barn rhanddeiliaid oedd hyn yn gyffredinol yn hytrach na chlercod neu lywodraethwyr.

7.5 Crynodeb o'r prif bwyntiau

Teimlai'r mwyafrif o randdeiliaid a llywodraethwyr mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, yn rhannol os nad yn gyfan gwbl, yw hyfforddi clercod.

Barn nifer sylweddol o randdeiliaid, swyddogion UCLI a llywodraethwyr oedd, er mai dyletswydd awdurdodau lleol yn bennaf yw darparu hyfforddiant, fod hefyd rôl i gyrff llywodraethu symbylu galw a galluogi eu clercod i fynychu. Mae rhywfaint o deimlad fod angen i glercod eu hunain gymryd cyfrifoldeb am fynychu hyfforddiant.

Mae cefnogaeth sylweddol i Lywodraeth y Cynulliad wneud hyfforddiant yn orfodol i glercod ac awgrymodd rhai y gallai hyn gwmpas monitro perfformiad yn ogystal.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch graddau'r ddarpariaeth o hyfforddiant i glercod; fodd bynnag, mewn gwirionedd, un awdurdod lleol yn unig yng Nghymru sydd bod fod yn cynnig hyfforddiant i glercod ar hyn o bryd (UCLI yn cynnig y CLG clerco i bob ysgol).

Ymysg y problemau sy'n cyfyngu ar ddarpariaeth hyfforddiant ac ar y nifer sy'n manteisio arno mae cost (i'r UCLI am ei ddarparu), amser a logisteg.

Ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol, hyfforddiant anffurfiol ac anachrededig yw'r math mwyaf cyffredin o bell ffordd – a hynny gan amlaf mewn sesiynau grŵp.

Mewn awdurdodau lleol gyda lefelau uchel o ymgymryd â'r CLG clerco, mae'n haws ac yn rhatach hyfforddi clerco awdurdod lleol yn fewnol.

Nid yw cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill wrth gyflwyno hyfforddiant clerco yn digwydd ar raddfa fawr.

Mae'r mwyafrif o gyrff llywodraethu'n gwerthuso sesiynau hyfforddi i glerco mewn rhyw ffurf neu'n gilydd, yn bennaf trwy ffurflen adborth yn cael ei chwblhau gan glerco ar ôl eu hyfforddiant, ac mae'r adborth yn gyffredinol gadarnhaol.

Yr hyn a oedd yn cael ei weld fel budd mwyaf hyfforddiant oedd y cyfle i rwydweithio a thrafod arferion gyda chlerco eraill.

Teimlai'r mwyafrif o sylwebwyr mai cysondeb oedd y peth pwysicaf o safbwynt hyfforddi a chefnogi clerco yn y dyfodol.

8. Monitro ac atebolrwydd

8.1 Cyfrifoldeb dros fonitro perfformiad clerc

Ni wyddai rhanddeiliaid am ddull monitro ffurfiol oedd yn gyson ledled Cymru, “ag eithrio monitro Estyn o’r cyrff llywodraethol”. Diffyg dull cenedlaethol o fonitro perfformiad a meincnodi oedd yn bennaf gyfrifol am lansio Gwobr Clercod Eithriadol i Gyrrff Llywodraethu gan Lywodraethwyr Cymru, a’r bwriad oedd yn ceisio “dwyn sylw at bwysigrwydd swyddogaeth y clerc”.

Mae’r farn yn rhanedig am y cyfrifoldeb o fonitro perfformiad clercio. Er mai’r farn gyffredinol yw mai’r awdurdod lleol sydd â’r cyfrifoldeb o sicrhau safon ofynnol gyffredinol o glercio, mae sylwebwyr yn cydnabod fod atebolrwydd yn anoddach pan fydd cyrff llywodraethol yn cyflogi eu clercod eu hunain.

Un cyfiawnhad i’r awdurdod lleol ymgymryd â swyddogaeth monitro perfformiad yw fod gan yr UCLI well dealltwriaeth o beth a olygir wrth y swyddogaeth. Yr anhawster wrth roi’r cyfrifoldeb ar y corff llywodraethol yw “dydych chi ddim yn gwybod yr hyn nad ych chi’n wybod ... ni fyddai’r cyrff llywodraethol o anghenraid yn gwybod beth *ddylai’r* clercod fod yn ei wneud”. Gall hyn fod yn broblem mewn achosion ble mae’r clerc wedi bod yn ei swydd am gyfnod hir, neu os yw’r corff llywodraethol yn amhrofiadol neu’n weddol ufudd.

Roedd llawer o lywodraethwyr yn teimlo y dylai’r awdurdod lleol wrth ddarparu’r gwasanaeth hefyd dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd y gwasanaeth. O ystyried ffurfioldeb y CLG, a’r bygythiad hollbresennol o ymgyfreithiad, roedd rhai sylwebwyr yn teimlo ei fod er lles yr awdurdod lleol i fonitro gweithredu’r gwasanaeth, er enghraifft: “os oedd y clerc yn darparu’r cyngor anghywir, byddai’r awdurdod lleol ar fai, ac efallai y byddai’n rhaid talu unrhyw gost ariannol i’r corff llywodraethol”.

Serch hynny, roedd cyfran arwyddocaol o sylwebwyr (gan gynnwys llywodraethwyr) yn teimlo y dylai’r corff llywodraethol dderbyn cyfrifoldeb am werthuso clercod y corff llywodraethol, hyd yn oed mewn achos ble y derbyniwyd CLG: “pwy yw’r client? Swyddogaeth y corff llywodraethol yw hyn”. Roedd llywodraethwr arall â safbwynt fasnachol debyg: “mae’r cyfrifoldeb arnynt hwy ... os nad yw’r clerc yn cwrdd â gofynion y CLG, yna ni fyddai’r cytundeb yn cael ei adnewyddu”. Er fod diffyg ymwybyddiaeth o’r hyn a ddisgwylir i glercod ei wneud yn cael ei weld gan rai fel cyfiawnhad i’r awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb, roedd un llywodraethwr yn teimlo “efallai y dylai cyrff llywodraethol wybod beth yw hyd a lled swyddogaeth y clerc”.

Dangosodd eraill agwedd ymylol yn unig tuag at un yn fwy na’r llall: “y corff llywodraethol sydd â’r cyfrifoldeb cychwynnol o sicrhau fod y clerc yn effeithiol ... ond mae angen rhannu cyfrifoldeb â’r awdurdod lleol”. Safbwynt arall yw fod cyfrifoldeb ar y cyd ar y corff llywodraethol “i roi adborth fel cwsmer” ac ar yr awdurdod lleol “i recriwtio a hyfforddi clercod ... i sicrhau eu bod yn abl i gwrdd â gofynion eu swyddogaeth”.

Ychydig o sylwebyddion wnaeth ganfod swyddogaeth i LICC mewn monitro perfformiad, er y cafodd ei awgrymu fod gan LICC fwy o gyfrifoldeb yn nhermau

awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnig gwasanaeth clericio neu ble mae “diffyg uned gymorth gref”. Fe wnaeth mwy nag un llywodraethwr sôn am yr angen am “gyfeiriad strategol” neu “fframwaith safonau” a ddylai “yn y pen draw ddod oddi wrth yr LICC” er ei fod wedi’i ddatblygu “mewn ymgynghoriad â llywodraethwyr”. Fodd bynnag, er fod cytundeb eang fod angen fframwaith monitro gyffredinol i asesu perfformiad clericio drwy ddangosyddion “mesuradwy”⁵², fe wnaeth rhanddeiliaid hefyd gydnabod ei bod “yn anodd asesu gwybodaeth polisi, sy’n oddrychol”.

Ymhellach does yna ddim cytundeb o bell ffordd fod dulliau cyfredol o fonitro yn diffygiol, ac fod angen system gadarnach. Logisteg ac adnoddau yw’r prif ffactorau wnaeth arwain rhai sylwebyddion i wrthwynebu newid. Fe wnaeth llywodraethwyr eu hunain fynegi pryder am oblygiadau’r gost i awdurdodau lleol i gymryd swyddogaeth mwy arwyddocaol mewn monitro perfformiad yng nghyd-destun “yr hinsawdd cyfredol” ac awgrymu y byddai angen i unrhyw gynllun fod yn finimalaidd: “cyffyrddiad ysgafn yn unig – dim biwrocratiaeth”. Roedd eraill yn wyliadwrus o roi gormod o gyfrifoldeb ar y corff llywodraethol ar y sail fod “llywodraethwyr yn wirfoddolwyr ac mae gennym broblem eisoes gyda recriwtio”. Awgrymwyd hefyd y “gallai hyn roi pwysau ychwanegol ar y clerc” yn arbennig yn achos clercod cymuned oedd heb fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau hunanwerthuso.

Serch hynny, y farn gyffredinol oedd y gallai matrices hunanasesiad syml fod yn ddefnyddiol, cyhyd â’i fod yn syml i’w gwblhau, ac nad yw’n rhoi baich ychwanegol arwyddocaol ar awdurdodau lleol wrth goladu ac adrodd ar ddata: “efallai y byddai system ar-lein yn gweithio...i glercod a chadeiryddion ei gwblhau”.

8.2 Monitro trefniadau clericio


Amcan allweddol i’r ymchwil hwn oedd i sefydlu cyfansoddiad y gweithlu clericio, o ran y cyfanswm o bob math o glerc sy’n gweithio yng Nghymru. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn dangosom y cyfran o gyrff llywodraethol oedd yn derbyn CLG clericio ym mhob awdurdod lleol, o’i gymharu â’r holl ysgolion yn yr awdurdod lleol. Gwyddom hefyd y nifer o unigolion sy’n gweithio fel clercod awdurdod lleol. Fodd bynnag, er fod awdurdodau lleol yn cadw cofnodion sylfaenol o glercod nad ydynt yn rhai awdurdod lleol, nid yw’r cofnodion hyn yn helaeth. Fe wnaeth un swyddog o’r UCLI gynnig dim ond “bras amcangyfrif” o’r gyfran o clercod ysgol yn hytrach na chlercod cymuned.

Dengys y tabl isod y lefel o ymwybyddiaeth ymysg yr holl awdurdodau lleol⁵³ o’r nifer o gyrff llywodraethol mewn awdurdod oedd yn defnyddio staff yr ysgol fel clercod o’i gymharu â nifer y cyrff llywodraethol oedd yn cyflogi unigolion eraill (hy o’r tu allan i’r ysgol) fel clercod.

⁵² Er enghraifft: gyrru dogfennau i lywodraethwyr cyn y cyfarfod; amlygu eitemau sydd angen mwy o sylw/trafodaeth; mynd ar drywydd tasgau a gweithredoedd.


⁵³ Yn cynnwys y rhai sy’n cynnig a’r rhai nad ydynt yn cynnig CLG.

Ffigur 17 Ymwybyddiaeth awdurdod lleol o'r cyfran o glercod ysgol/cymuned



Mae hefyd gogwydd amlwg yn yr awdurdodau sydd ac nad ydynt yn coladu'r wybodaeth hon, fel y nodir yn y graff isod. Mae'r holl awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG clericio i rai neu'r holl ysgolion yn cadw data ar y cyfrannau o glercod ysgol/cymuned; mae hyn, fodd bynnag, yn wir am lai na deg y cant o'r awdurdodau nad ydynt yn cynnig CLG (yn ei hanfod, un UCLI).

Ffigur 18 Ymwybyddiaeth awdurdod lleol o'r cyfran o glercod ysgol/cymuned (yn ôl y math o awdurdod lleol)



Mae rhai rhanddeiliaid yn feirniadol o'r diffyg amlwg hwn o fanwl gywirdeb: "dylai awdurdodau lleol wybod yr ymraniad rhwng clercod ysgol a rhai nad ydynt yn rhan o'r ysgol". Awgrymwyd fod hyn yn ddiffyg archwiliad ar ran yr awdurdodau lleol,

ac yn ystod y cyfweiliadau, nid oedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r paralel canfyddadwy rhwng cynnig CLG a monitro arferion clerco ym mhob corff llywodraethol, roedd rhai yn casglu mai dyma fyddai'r sefyllfa.

8.3 Dulliau o fonitro perfformiad clerco

Monitro perfformiad clerco awdurdod lleol

Ymysg awdurdodau oedd yn cynnig CLG dim ond hanner oedd yn hawlio iddynt fabwysiadu dull ffurfiol o fonitro ansawdd y gwasanaeth clerco, ac fe wnaeth dau o ymatebwyr o'r UCLI roi disgrifiad gair am air o'r gweithdrefnau hyn. Yn y ddau achos roedd yn golygu adolygiad o'r gwasanaeth yn flynyddol wedi'i wneud gan y cyrff llywodraethol. Drwy'r ymchwil ansoddol daeth yn amlwg mai dyma'r dull mwyaf cyffredin. Mae un awdurdod lleol, er enghraifft, yn gwneud adolygiad blynyddol o'r holl wasanaethau⁵⁴ a gynigir i gyrff llywodraethol a bydd "yn rhoi adborth am y sylwadau negyddol i glercod unigol".

Mewn awdurdod lleol arall mae rheolwr yr UCLI yn gwneud ymweliad monitro blynyddol i gyfarfod bob un o'r clercod awdurdod lleol, ac yn cwblhau adroddiad ysgrifenedig byr ar berfformiad y clerc mewn swyddogaeth weinyddol a chynghorol. Trafodir perfformiad clerco unigol hefyd yn ystod gwerthusiad staff yn yr awdurdod lleol hwn.

Mae'r mwyafrif o'r UCLI yn cadw cofnodion, er mewn rhai enghreifftiau "does yna ddim proses ffurfiol o fynd drwy'r cofnodion", ac roedd coladu'r cofnodion yn cael ei weld fel mwy o broses weinyddol na mecanwaith cydlynol i fonitro perfformiad clercod.

Fodd bynnag darganfuwyd fod dull anffurfiol o fonitro perfformiad clerco yn lled gyffredin ac roedd sawl swyddog UCLI yn onest am yr adborth ad hoc all ddod gan bennaethiaid a llywodraethwyr, o natur gadarnhaol a negyddol: "am mai awdurdod lleol bach ydyw, rych chi'n cael adborth llafar da". Mae cyfathrebu a "rhwydweithio rhwng penaethiaid hefyd yn ffactor bwysig" ac mae'n ymddangos "nad yw penaethiaid yn brin o ddatgan eu barn". Er nad yw hyn yn broses sydd wedi'i ffurfioli, roedd y mwyafrif o swyddogion o'r UCLI yn hyderus y "byddent yn gwybod os oedd unrhyw broblemau gyda chlerc [yr awdurdod lleol]".

Roedd y mwyafrif o lywodraethwyr yn fodlon gyda'r ffordd roedd perfformiad clerc yr awdurdod lleol yn cael ei fonitro, fel rheol drwy "ffurflenni adborth". Meddai un llywodraethwr oedd yn siarad o brofiad mewn ysgol arall "nid yw'r broses o newid clerc yn anodd ... os ydych yn anhapus gyda'r gwasanaeth".


Monitro perfformiad clerco sydd heb fod yn rhan o'r awdurdod lleol

Y safbwynt cyffredin (storiol, mae'n wir) ymhlith rhanddeiliaid oedd fod monitro clercod heb fod yn rhan o'r awdurdod lleol yn llawer llai eang yn yr awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG, nag yn yr awdurdodau ble mae'r cyrff llywodraethol yn apwyntio eu

⁵⁴ Gan gynnwys y gyflogres, cyllid, materion cyfreithiol, adnoddau dynol a chlercio.

clercod yn annibynnol. Yn seiliedig ar arolwg swyddogion UCLI, dim ond i raddau mae'r dybiaeth hon yn wir. Mae'r graff isod yn awgrymu fod monitro clercod sydd heb fod yn rhan o awdurdod lleol yn cael ei wneud gan brin hanner yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. O ddiddordeb arbennig yw'r ffaith mai hyd yn oed mewn awdurdodau lleol ble mae'r clercod i gyd naill ai mewn ysgol neu'n glerc cymuned, dim ond hanner y swyddogion UCLI sydd yn rhan o fonitro perfformiadau'r clercod hyn – ac yn wir, nid yw'r gyfran yn uwch nag ymhlith awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG i rai ysgolion.

Ffigur 19 Monitro perfformiad clerc heb fod yn un awdurdod lleol yn ôl y math o glerc



Ymhellach, wedi ei seilio ar waith ymchwil ansoddol, mae'n ymddangos ble mae UCLI yn monitro perfformiad clerc heb fod yn rhan o awdurdod lleol, mae'r broses ymhell o fod yn drwyadl. Y ffurf mwyaf cyffredin o fonitro – yn ei ystyr ehangaf – clercod heb fod yn rhan o awdurdod lleol yw gwneud cais am gopïau o gofnodion cyfarfod. Fodd bynnag, canfuwyd fod gryn dipyn o amrywiaeth yn faint roedd y broses yn cael ei blismona, gyda chyfrifoldeb helaeth yn cael ei roi ar y clercod eu hunain i gyflenwi gwybodaeth. Mae un UCLI “yn gofyn iddynt anfon y cofnodion ... ond nid yw clercod bob amser yn gwneud hyn”. Aeth un swyddog arall mor bell â dweud “os ydym yn lwcus rydym yn cael y cofnodion”. Mae trydydd UCLI yn coladu'r enwau a manylion cyswllt clercod heb fod yn rhan o'r Awdurdod Addysg Lleol ond heb wybod beth mae cyrff llywodraethol yn ei dalu i glercod heb fod yn rhan o awdurdod lleol. Yn yr un ffordd byddant yn flynyddol yn gwneud cais am gopïau o gofnodion; fodd bynnag “mae rhai ysgolion yn well nag eraill ... yn wir mae'n dibynnu ar yr ysgol” os yw'r wybodaeth hon mewn gwirionedd yn cael ei gyflwyno. Mae'r sylwadau hyn yn dod oddi wrth dri gwahanol UCLI a phob un yn cynnig gwasanaeth clercio, ond a oedd â chyrrff llywodraethol yn yr awdurdod lleol nad oedd yn dewis defnyddio CLG.

Mewn un awdurdod lleol ble nad yw clerco CLG yn cael ei gynnis, darparodd yr UCLI “fformat cofnodion cymeradwy”. Fodd bynnag nid oes reidrydd ar glercod i fabwysiadu'r fformat hwn, ac mae “gwahaniaethau” o hyd yn y ffordd mae clercod yn cynhyrchu cofnodion; tra eu bod “ar y cyfan yn iawn” maent “yn dod o hyd i gamgymeriadau sillafu” a gall rhai cofnodion fod “ychydig yn benchwiban”. Roedd clerco cymuned yn yr un awdurdod lleol “erioed wedi cael unrhyw sylw [ar y cofnodion] hyd yn oed os ydynt yn hwyr”. Awgryma'r dystiolaeth gan yr ymchwili meintiol ac ansoddol fod cymhwyster y clercod heb fod yn rhan o awdurdod lleol yn dibynnu'n drwm ar onestrwydd yr unigolyn ac/neu ar graffter yr UCLI, gan mai ychydig o dystiolaeth sydd fod awdurdodau lleol yn rheoleiddio swyddogaethau arbennig. Er enghraifft mae gofyn i bob corff llywodraethol i gwblhau Cofrestr o Fuddiannau Busnes, a fydd yn cael eu llygadu'n graff yn ystod yr archwiliad blynyddol. Mewn un ardal, mae clercod awdurdodau lleol yn mynd yn gyfrifol am sicrhau fod y cofrestr wedi'i chwblhau a bod copi'n cael ei gadw: “mae'n bolisi safonol[i glercod awdurdod lleol]”. Fodd bynnag, yn achos y cyrff llywodraethol sydd ddim yn prynu i fewn i 'r CLG “does gan yr awdurdod lleol ddim syniad os yw'r clerco yn mynnu fod y gofrestr yn cael ei chwblhau”.

Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth oedd i awgrymu fod y llywodraethwyr o dan yr argraff ffug fod UCLI yn chwarae rhan fwy na mae'n nhw mewn gwirionedd, a thra fod y rhan fwyaf o sylwebyddion yn ymwybodol fod cofnodion yn cael eu hanfon i fewn, ni chai ei weld fel rhywbeth oedd yn cael ei blismona'n fanwl mewn unrhyw ffordd: “maent yn derbyn yr agenda a'r cofnodion – felly mae'n debyg eu bod yn cadw llygaid ar [y clerco] yn y ffordd honno”. Dywedodd un clerco mewn ysgol “maen nhw'n gweld safon fy ngwaith ... ond does dim monitro ffurfiol”.

Roedd sawl un o'r clercod a'r llywodraethwyr fel ei gilydd yn ystyried yn ymarferol y byddai'r cadeiryddion a'r penaethiaid yn ymwybodol o unrhyw ddiffygion ac na fyddai cwblhau taflenni cloriannu ffurfiol “yn deud dim byd newydd”. Roedd un pennaeth yng Ngogledd Cymru yn hyderus fod perfformiad eu clerco yn gwbl foddhaol oedd yn golygu fod dull monitro ffurfiol yn ddi-alw-amdano: “dydyn ni ddim yn monitor ... mae pob peth sydd angen ei wneud yn cael ei wneud”.

Wrth gydnabod nad yw monitro perfformiad clerco mewn unrhyw ffordd yn gyffredinol, bu i'r gwaith ymchwili hefyd chwilio i ba raddau roedd yr UCLI yn darparu canllawiau i gyrff llywodraethol ar fonitro eu clercod. Hanner o'r awdurdodau lleol oedd yn cynnis CLG i rai ysgolion a dim ond pumed ran o'r awdurdodau lleol oedd yn cynnis CLG i bob ysgol oedd yn darparu canllawiau. Fodd bynnag roedd llai na phumed ran o UCLI, nad oedd yn cynnis clerco awdurdod lleol o gwbl, yn darparu canllawiau i gyrff llywodraethol i fonitro eu clercod eu hunain. Mae hyn yn bryder, yng ngoleuni'r dystiolaeth fod disgwyliadau swyddogaeth y clerco yn amrywio yn sylweddol yn arbennig ymhlith y cyrff llywodraethol nad ydynt yn prynu'r gwasanaeth canoledig. Mae swyddogion UCLI yn cytuno fod rhai swyddogion lleol yn darparu swydd ddisgrifiadau i glercod “ond nid yn gyffredinol”.

8.4 Datblygu offer gwerthuso

Fel y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad uchod, cynnyrch olaf y comisiwn hwn yw offer gwerthuso i'w ddefnyddio i fonitro perfformiad clercod y corff llywodraethol o safbwynt y cyrff llywodraethol yn ogystal â'r clercod yn gwerthuso eu hunain.

Seiliwyd yr offer hwn ar set o ddangosyddion perfformiad sy'n disgrifio perfformiad clercod. Yr arweiniad i'r dangosyddion hyn oedd swyddogaethau clercod o osodwyd yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 ac a fwriedir i gynorthwyo clercod a chadeiryddion i wneud gwerthusiad rhesymol o berfformiad yn erbyn gofynion statudol. Gellir defnyddio'r offer gwerthuso mewn fformat electronig neu ar bapur a bydd y cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol a clercod i gwblhau a choladu'r hunanasesiadau. Gwelir yn offer yn Atodiad 1. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r UCLI i ddefnyddio gwerthusiadau cyfanredol i adnabod achosion pryder neu wahaniaethau mawr rhwng gwerthusiad cyrff llywodraethol ac un eu clercc.

8.5 Crynodeb o'r prif bwyntiau

Does dim dull monitro cyson ledled Cymru, ac eithrio monitro Estyn o'r cyrff llywodraethol.

Mae dull anffurfiol o fonitro perfformiad clerccio yn weddol eang.

Mae rhai yn teimlo y dylai'r corff llywodraethol dderbyn cyfrifoldeb am werthuso clercod y corff llywodraethol, hyd yn oed mewn achos ble mae CLG wedi'i dderbyn.

Un o'r ddau awdurdod lleol sy'n cynnig CLG i bob ysgol a dim ond y bumed ran o awdurdodau lleol sy'n cynnig CLG i rai ysgolion oedd yn darparu canllawiau i lywodraethwyr/clercod ar fonitro perfformiad. Fodd bynnag, roedd llai na'r bumed ran o'r UCLI hynny oedd ddim yn cynnig clerccio awdurdod lleol clerccio o gwbl yn darparu canllawiau i gyrrff llywodraethol i fonitro perfformiad eu clercc eu hunain.

Ymysg yr awdurdodau oedd yn cynnig CLG dim ond eu hanner oedd yn hawlio eu bod wedi mabwysiadu dull ffurfiol o fonitro ansawdd y gwasanaeth clerccio.

O'r awdurdodau sy'n cynnig CLG y dull gwerthuso mwyaf cyffredin oedd drwy adolygiad gwasanaeth blynyddol a wneid gan y cyrff llywodraethol. Mewn rhai awdurdodau mae rheolwr yr UCLI yn gwneud ymweliad monitro blynyddol i gyfarfod gan bob un o'r clerccod ac mae'r UCLI yn cadw'r cofnodion.

Er bod awdurdodau lleol yn cadw cofnodion sylfaenol o glerccod sydd ddim yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol, nid yw'r cofnodion hyn yn helaeth o bell ffordd.

Mae monitro clerccod nad ydynt yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol yn cael ei wneud gan lai na hanner yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae'r monitro sy'n digwydd ymhell o fod yn drwyadl.

Fodd bynnag, does dim barn gyffredinol fod dulliau monitro cyfredol yn diffygiol, ac fod angen system gadarnach.

Serch hynny, y farn gyffredinol yw y byddai matrices hunanasesiad syml yn ddefnyddiol.

9. Casgliadau ac argymhellion

Un o'r negeseuon cryfaf sy'n deillio o'r adolygiad hwn yw nad yw llywodraethwyr eisiau newid radical i'r system glercio. Er bod rhai pryderon arwyddocaol sydd bron yn gyffredinol eu natur, yn arbennig am nad oes dull cadarn o sicrhau safon ofynnol mewn perfformiad, dangoswyd rhinweddau pob un o'r modelau clercio a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn sawl achos.

9.1 Modelau arferion clercio

Mae rhanddeiliaid sydd wedi galw am ddull mwy cyson o glercio i'r cyrff llywodraethol, drwy wasanaeth clercio awdurdod lleol yn arbennig a welir fel un "gwell a mwy effeithiol" ac un "a fyddai'n rhoi'r hyder fod cyrff llywodraethol yn cael eu gweithredu'n broffesiynol". Fodd bynnag, drwy gydol y gwaith maes roedd pendantrwydd eang gan lywodraethwyr fod eu model hwy yn gweithio'n dda iawn. Mae cyrff llywodraethol mewn rhanbarthau gwahanol yng Nghymru wedi cymeradwyo'n gryf y "gwrthrychedd", "hyblygrwydd", "dibynadwyedd" a'r profiad unigryw o wahanol gefndiroedd sydd gan eu clerc cymunedol. Yn yr un ffordd fe ddisgrifiodd un corff llywodraethol yn Ne Ddwyrain Cymru eu clerc awdurdod lleol fel "eithriadol", tra roedd cadeirydd corff llywodraethol arall yn pwysleisio "gwerth ychwanegol" dull y CLG ac oedd yn frwd yn erbyn "diflaniad y gwasanaeth hwn". Tra mae dadleuon yn erbyn y model clerc yn yr ysgol, o ran gwrthrychedd a disgresiwn, mae llywodraethwyr sydd wedi cymeradwyo'r dull hwn. Fe wnaeth cadeirydd yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, ddiweddu grŵp ffocws gyda'r erfyniad dilynol "peidiwch â cheisio gwthio ryw system arnom ni, os gwelwch yn dda. Rydym yn fodlon iawn â'r ffordd mae pethau'n gweithio ar hyn o bryd ... mae'r swyddog gweinyddol o gymorth mawr".

Mae rhesymau logistaidd amlwg pam na allai model CLG gael ei chyflwyno ym mhob awdurdod lleol, o leiaf yn y tymor byr a heb adolygiad o'r gallu cyfredol o fewn UCLI neu heb i awdurdodau lleol fod yn cydweithio i greu cymorth traws ffiniau sirol, efallai ar sail consortiwm. Os oedd, fodd bynnag, ewyllys i newid ac roedd digon o symbyliad i wneud hyn o du'r awdurdod lleol gallai fod yn bosibl i newid i fodel mwy safonedig o'r CLG.

Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai at ddiffyg arbenigedd yn ogystal ag adnoddau fel problem benodol a mynegwyd pryderon am orfodi awdurdodau lleol i ddarparu CLG: "i awdurdodau lleol sydd ddim yn cynnig [CLG] o gwbl ar hyn o bryd, byddai'n anodd ennill y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth". Ymhellach, o weld y diffyg tryloywder amlwg ynglŷn â chost go iawn clercio i'r corff llywodraethol, mae'n anodd amcangyfrif oblygiadau cyflwyno un model (yn arbennig model y CLG), ac yn arbennig o anymarferol yng ngoleuni toriadau yng nghyllid y sector gyhoeddus. Yn ychwanegol mae tystiolaeth sy'n awgrymu fod adlach gref yn debygol gan lywodraethwyr pe byddai model clercio neilltuol yn dod yn safonedig.

Roedd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn i ddarparu argymhellion a oes angen diwygio modelau eang clerod y cyrff llywodraethol. Yn sicr mae cryfderau a gwendidau ym mhob un o'r dulliau, a byddai angen archwilio'r trefniadau ariannol sydd ynghlwm ym mhob darpariaeth glercio yn fwy trwyadl cyn i unrhyw weithredu

ddigwydd. Fodd bynnag, tynnodd yr adolygiad sylw at nifer o faterion hanfodol sydd angen eu hystyried yn y dyfodol agos.

9.2 Monitro perfformiad

Mae diffyg dull effeithiol a chyson o fonitro perfformiad clerco yn bryder sy'n tanategu'r mwyafrif o'r problemau a ganfuwyd yn ystod yr ymchwil. Heb archwiliad trylwyr o berfformiad clerco – yn nhermau beth maent yn ei wneud a pha mor dda maent yn ei wneud – mae'n anodd iawn i awdurdodau lleol i ganfod arfer gwael, blaenoriaethu hyfforddiant neu ddarparu canllaw priodol. Mae'n dibynnu'n drwm ar onestrwydd y clerco i wneud y gwaith yn ddiwyd ac am nad yw llinellau awdurdod bob amser yn glir (a yw'r clerco yn atebol i'r awdurdod lleol, y pennaeth neu'r corff llywodraethol yn ei gyfanrwydd) a gall hyn olygu diffyg mewn atebolrwydd.

Yr hyn mae'r adolygiad wedi'i ganfod yw'r angen am ddull mwy ffurfiol o fonitro perfformiad clerco ar lefel awdurdod lleol ac o bosib ar lefel cenedlaethol. Er fod cyflwyno Gwobr Clerco Eithriadol wedi mynd beth o'r ffordd tuag at godi'r safon yn nhermau statws clerco, mae yna'n dal i fod diffyg gwerthuso cyffredinol a meincnodi strategol.

Mae rhan o'r comisiwn hwn wedi cynnwys creu offer gwerthuso i'r clerco i werthuso eu perfformiad eu hunain ac i'r cyrff llywodraethol i werthuso perfformiad eu clerco. Cynlluniwyd yr offer hwn wedi'i seilio ar y swyddogaethau a roddwyd yn Rheoliadau 2005, ac fe'i cyfarwyddwyd gan ddangosyddion priodol a fwriadwyd i gynorthwyo clerco a chadeiryddion wrth wneud gwerthusiad rhesymol. Mae'r fframwaith gwerthuso wedi'i dreialu yn ystod yr ymchwil hwn. Mae'r swyddogaethau a'r dangosyddion yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd fel rhan o'r adolygiad hwn yn yr arolygon ar-lein i glerco a chadeiryddion, a fwriadwyd i werthuso perfformiad mewn swyddogaethau cyffredin o safbwynt y cyflenwr (clerco) a'r galw (corff llywodraethol). Rhoddwyd y fframwaith mewn meddalwedd arolwg ar-lein, a hyn fyddai'r fformat a argymhellir wrth ddefnyddio'r offer yn y dyfodol. Fe gwblhaodd y mwyafrif o'r ymatebwyr yr arolwg ar-lein er fod yna rai a wnaeth eu cyflwyno ar bapur.

Gall yr offer gwerthuso gael ei ddefnyddio mewn fformat electronig neu ar bapur a bydd y cyfrifoldeb ar yr awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol a chlerco i gwblhau a choladu'r hunanasesiad. Bydd hyn yn darparu cyfle i UCLI i ddefnyddio'r gwerthusiadau cyfanredol i ganfod achosion pryder neu anghysondeb mawr rhwng gwerthusiadau cyrff llywodraethol a gwerthusiadau eu clerco. Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol, ac o bosib LICC i feincnodi yn erbyn meincnod cenedlaethol cynrychiadol.

Nid cynllunio a rhannu offer asesu yw'r cyfan sydd ei angen. Mae angen i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol a chlerco gymryd cyfrifoldeb am gwblhau a choladu'r hunanasesiadau. Mae angen i'r UCLI i ddefnyddio'r gwerthusiadau cyfanredol i ganfod achosion pryder neu anghysondeb mawr rhwng gwerthusiadau cyrff llywodraethol a gwerthusiadau eu clerco. Gallai awdurdodau lleol ystyried cynnal y system ar-lein gan ganiatáu dadansoddiad electronig, riportio a chynnig hyfforddiant dilynol.

9.3 Canllaw i gyrff llywodraethu a chlercod

Mae problemau eraill sy'n perthyn i atebolrwydd a thryloywder sy'n cyfrannu i'r diffyg archwiliad. Tra bod rhai awdurdodau lleol yn darparu swydd ddisgrifiadau i gyrff llywodraethol nid yw hyn yn gyffredinol, ac nid oes gweithdrefn ffurfiol i sicrhau fod clercod a chyrrff llywodraethol yn ymwybodol hyd yn oed o'r isafswm swyddogaethau a ddisgwylir gan glerc i'r corff llywodraethol. Mae hyn yn mynd law yn llaw â phroblem monitro, o ystyried ei bod yn anodd iawn gwerthuso perfformiad rôl y clerc heb syniad clir o beth yw'r swyddogaethau angenrheidiol. Mewn awdurdodau lleol ble defnyddir swydd ddisgrifiad i recriwtio clercod, mae llywodraethwyr a chlercod yn debygol o gael syniad llawer cliriach o'r hyn mae eu swyddogaethau yn ei olygu. Does dim dwywaith nad oes angen swydd ddisgrifiad cyffredin i glercod cyrrff llywodraethol a chlercod sy'n annibynnol o'r awdurdod lleol.

Mae nifer o lywodraethwyr wedi teimlo mai un o fuddion y model clerccio awdurdod lleol yw bod y disgwiliadau yn llawer mwy eglur ac wedi'u seilio ar gytundeb ffurfiol. Fodd bynnag mae rhai sylwebwyr wedi awgrymu y gallai'r swyddogaeth gael ei gwneud yn fwy tryloyw i lywodraethwyr. Does dim dwywaith nad oes angen i eglurder y rôl gael ei lledaenu'n eang, er mwyn i bob llywodraethwr ddeall yr hyn sy'n ddisgwylidig gan glerc, nid yn unig i ganfod y bylchau mewn perfformiad, ond hefyd i fod yn ymwybodol o feysydd ble nad ydynt yn gwneud defnydd llawn o'r rôl bosibl y gallai clerc ei chwarae yn y corff llywodraethol. Unwaith mae CLG yn ei le, mae'n hanfodol fod dogfen yn eitemeiddio safonau a thelerau'r CLG ar gael i'r corff llywodraethol i gyd.

Tra roedd argymhellion yr ymchwil blaenorol wedi arwain at ddatblygu swydd ddisgrifiad safonol a rhaglen hyfforddi clercod, ymddengys fod defnydd (a hyd yn oed gwybodaeth) o'r adnoddau hyn yn gyfyngedig, ar waethaf galw parhaol gan lywodraethwyr a chlercod i gael mwy o gyfeiriad strategol. Nid yw gwneud swydd ddisgrifiadau ar gael i awdurdodau lleol o anghenraid yn golygu eu bod yn cael eu defnyddio na'u bod yn cyrraedd y gynulleidfa a fwriadwyd (hy: llywodraethwyr a chlercod). Er hynny ble defnyddiwyd (neu yr addaswyd) swydd ddisgrifiad, derbyniodd gymeradwyaeth. Mae angen i hyn ddod yn gyffredin ledled yr holl awdurdodau lleol ble mae cyrrff llywodraethol yn cyflogi clercod yn annibynnol. Petai'n dod yn ofynnol i awdurdodau lleol i ledaenu swydd ddisgrifiad safonol i glercod (er gyda pheth amrywiaeth yn y cynnwys i gymryd gwahaniaethau lleol i ystyriaeth) byddai hyn yn helpu i godi safonau ymysg clercod yn nhermau cwblhau eu swyddogaethau gorfodol, yn arbennig os oedd yn cael ei gyflwyno mewn cyswllt â system monitro mwy trwyadl.

Ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu fod clercod mewn lle addas i gymryd swyddogaeth monitro'r corff llywodraethol yn gyffredinol. Mae'r ddynnameg rhwng y clerc, y pennaeth, y cadeirydd, y corff llywodraethol ehangach a'r awdurdod lleol eisoes yn amwys mewn rhai achosion. Byddai ychwanegu lefel newydd o awdurdod i swyddogaeth clerc yn debygol o greu trefn lywodraethol annaturlol a gallai, yn ei dro, danseilio ymdrechion yn y dyfodol i ddod ag eglurder a chysondeb i swyddogaeth clerc y corff llywodraethol.

9.4 Hyfforddiant a chefnogaeth i glercod corff llywodraethu

Tra roedd lleiafrif o sylwebyddion heb fod o blaid gwneud hyfforddiant i glercod yn ofyniad gorfodol i'r swyddogaeth, y farn gyffredinol oedd y dylai fod elfen o hyfforddiant gorfodol i sicrhau fod pob clerc yn cyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol. Mae'r farn yn amrywio ar natur ac amllder yr hyfforddiant y dylid ei gyflwyno. Mae rhai sy'n teimlo, o ystyried cymhlethdod cyfraith trefn lywodraethol, ac amllder y newid mewn polisi fod angen hyfforddiant yn flynyddol, neu hyd yn oed yn amlach. Fodd bynnag mae'r rhwystrau logistaidd sy'n atal rhai clercod rhag cael gafael ar hyfforddiant o unrhyw fath ar hyn o bryd yn awgrymu na fyddai hyfforddiant gorfodol yn hyfyw ar sail rheolaidd. Ymhellach, mae'r adborth gan glercod sydd wedi mynychu hyfforddiant yn weddol reolaidd yn awgrymu fod y pwyslais ar ddiweddarau newidiadau mewn polisi a gweithdrefnau yn hytrach na thorri tir newydd. Y flaenoriaeth allweddol, felly, yw cyflwyno dull cyson o ddarparu hyfforddiant cychwynnol a fyddai'n anghenraid derbyn swydd clerc i'r corff llywodraethol. Mae yna felly argymhelliad cryf i LICC i ystyried cyflwyno argymhelliad am hyfforddiant cychwynnol gorfodol i glercod cyrff llywodraethol. Byddai rhan o'r hyfforddiant hwn yn cynnwys canllaw ar ymchwilio newidiadau polisi yn annibynnol, er bod angen i benaethiaid ac UCLI gymryd peth cyfrifoldeb i sicrhau fod gwybodaeth berthnasol yn cyrraedd clercod, i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth.

Er mai argymhelliad pellach o ymchwil blaenorol oedd i bob awdurdod lleol i ddarparu fforwm i glercod, nid yw hyn yn gyfleuster cyffredinol ym mhob awdurdod lleol a hyd yn oed mewn achosion ble cânt eu cynnal, mae amryfal rwystrau logistaidd sy'n cyfyngu ar bresenoldeb clercod. Mae angen ystyried dulliau newydd er mwyn i'r fforymau fod yn hygyrch i bawb. Mynegodd nifer o glercod ddi-ddordeb mewn fforwm ar-lein, a ellid o bosib eu cyflenwi ar lefel genedlaethol. Byddai hyn yn caniatáu trawsffrwythloni sgiliau a phrofiad gan nifer llawer mwy o glercod yn gweithio mewn cyd-destun gwahanol iawn. Byddai'r cyfrifoldeb ar yr UCLI i hyrwyddo'r fforwm i glercod, ond byddai'r cydlynu ar lefel genedlaethol – gan Lywodraethwyr Cymru er enghraifft – fyddai yn isafu'r costau rhedeg, ac yn osgoi gosod cyfrifoldeb ychwanegol ar awdurdodau lleol i sefydlu a hwyluso 22 fforwm rhithwir gwahanol. Serch hynny, mae gwerth fforymau wyneb yn wyneb yn cael ei gydnabod yn eang a dylid annog awdurdodau lleol yn gryf i hwyluso'r rhain, naill ai'n unigol neu ar sail consortiwm.

Efallai y daw amser pan na fydd yr UCLI yn gallu darparu'r ehangder o wasanaeth clercio a gynigir ar hyn o bryd mewn rhai awdurdodau lleol. Yn yr achos hwn, bydd swyddogaeth hyfforddiant cychwynnol a monitro effeithiol hyd yn oed yn fwy hanfodol i sicrhau fod clercod nad ydynt yn rhan o'r awdurdod lleol yn perfformio i safon ddigonol.

10. Atodiad 1: Offer gwerthuso

10.1 Rhan 1: Offer gwerthuso i gadeiryddion cyrff llywodraethu

Gwerthuswch berfformiad clerc eich corff llywodraethol yn y meysydd penodol isod, ar raddfa o un i bedwar, wedi'i seilio ar y diffiniadau isod.

1 = Mae ef/hi yn gwbl gymwys yn y swyddogaeth hon, ac ni theimlaf y gellid gwella ei berfformiad/ei pherfformiad.

2 = Mae ef/hi yn gymwys yn y swyddogaeth hon, ond gallai wella ychydig ar ei berfformiad/ei pherfformiad.

3 = Mae gennyf bryderon am y ffordd mae ef/hi yn cyflawni'r swyddogaeth hon a gallai ef/hi elwa o beth hyfforddiant yn y maes hwn.

4 = Mae gennyf bryderon mawr am ei berfformiad/ei pherfformiad yn y maes hwn ac mae ef/hi angen hyfforddiant yn y maes hwn.

Swyddogaeth	1	2	3	4
Galw cyfarfodydd o'r corff llywodraethol Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod: Amllder cyfarfodydd. Digonolrwydd rhoi rhybudd o gyfarfodydd. Effeithiolrwydd paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol.				
Mynychu a chymryd cofnodion yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod: Lefel mynychu/cyfarfodydd a gollwyd. Cywirdeb y cofnodion. Amser gweithdroad i gofnodion cyfarfodydd.				
Cadw cofrestr o lywodraethwyr a rhoi gwybod am leoedd gwag i'r corff llywodraethol Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod: Ymwybyddiaeth y clerc o leoedd gwag fel maent yn codi. Dealltwriaeth y clerc o natur y lleoedd gwag. Ymwybyddiaeth y llywodraethwyr o leoedd gwag.				

Swyddogaeth	1	2	3	4
<p>Cadw cofrestr o bresenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd a rhoi gwybod am ddiffyg presenoldeb i'r corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Effeithiolrwydd rhoi gwybod am ymddiheuriadau ac absenoldeb anawdurdodedig.</p> <p>Rhannu, cyhoeddusrwydd cyfanswm data presenoldeb.</p>				
<p>Rhoi a derbyn rhybudd mewn perthynas ag apwyntiadau ac ymddiswyddiadau llywodraethwyr, cynnull cyfarfodydd ac anghymwysu llywodraethwyr</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Llywodraethwyr yn ymwybodol o rybuddion.</p> <p>Digonolrwydd y rhybudd a roddwyd.</p>				
<p>Rhoi gwybod i'r corff llywodraethol fel bo'r galw am weithredu cyfrifoldebau'r clerc</p> <p>Ystyriwch y dangosydd perfformiad isod:</p> <p>Lledaenu gwybodaeth y tu allan i gyd-destun cyfarfodydd.</p>				
<p>Gwneud unrhyw swyddogaeth arall a bennwyd gan y corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Hyblygrwydd a pharodrwydd i wneud swyddogaethau eraill ar sail ad hoc, er enghraifft mynychu cyfarfodydd ychwanegol neu fynd ar drywydd gweithrediadau.</p> <p>Effeithiolrwydd gwneud y swyddogaethau hyn.</p> <p>Cadw gwrthrychedd wrth roi cymorth.</p>				
<p>Darparu cyngor i'r corff llywodraethol ar gyfrifoldebau a gweithdrefnau'r corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosydd perfformiad isod:</p> <p>I ba raddau mae Llywodraethwyr yn teimlo eu bod wedi derbyn gwybodaeth ac yn hyderus am ansawdd y cyngor a roddir.</p>				

Swyddogaeth	1	2	3	4
Deall cyfraith addysg mewn perthynas â chyrff llywodraethol ysgolion yn gyffredinol.				
Deall polisi addysgol eang yn gyffredinol.				

10.2 Rhan 2: Offer hunanwerthuso i glercod corff llywodraethu

Gwerthuswch eich perfformiad fel clerc y corff llywodraethol yn y meysydd penodol dilynol, ar raddfa o un i bedwar, wedi'i seilio ar y diffiniadau isod.

1 = Rwy'n gwbl gymwys yn y swyddogaeth hon, ac ni theimlaf y gallaf wella fy mherfformiad.

2 = Rwy'n gymwys yn y swyddogaeth hon, ond gallwn wella ychydig ar fy mherfformiad.

3 = Mae gen i bryderon am y ffordd rwy'n cyflawni'r swyddogaeth hon a gallwn elwa o beth hyfforddiant yn y maes hwn.

4 = Mae gen i bryderon mawr am fy mherfformiad yn y maes hwn ac rwyf angen hyfforddiant yn y maes hwn.

Swyddogaeth	1	2	3	4
<p>Galw cyfarfodydd o'r corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Cysondeb galw cyfarfodydd? Beth mae hyn yn ei olygu?</p> <p>Digonolrwydd rhoi rhybudd o gyfarfodydd.</p> <p>I ba raddau mae agenda a phapurau yn cael eu hanfon gyda digon o rybudd.</p> <p>Effeithiolrwydd a pha mor gynhwysfawr yw'r papurau ymlaen llaw i roi gwybod i Lywodraethwyr?</p> <p>Pa mor gynhwysfawr ydyn nhw? Oedden nhw wedi'u darparu mewn da bryd?</p>				
<p>Mynychu a chymryd cofnodion yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Lefel mynychu/cyfarfodydd a gollwyd.</p> <p>Cywirdeb y cofnodion.</p> <p>Amser gweithdroad i gofnodion cyfarfodydd.</p>				

Swyddogaeth	1	2	3	4
<p>Cadw cofrestr o lywodraethwyr a rhoi gwybod am leoedd gwag i'r corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Ymwybyddiaeth fy hun o leoedd gwag fel maent yn codi. Dealltwriaeth fy hunan o natur lleoedd gwag. Dealltwriaeth llywodraethwyr o leoedd gwag.</p>				
<p>Cadw cofrestr o bresenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd a rhoi gwybod am ddiffyg presenoldeb i'r corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Effeithiolrwydd rhoi gwybod am ymddiheuriadau ac absenoldeb anawdurdodedig. Rhannu, cyhoeddusrwydd cyfanswm data presenoldeb.</p>				
<p>Rhoi a derbyn rhybudd mewn perthynas ag apwyntiadau ac ymddiswyddiadau llywodraethwyr, cynnull cyfarfodydd ac anghymwysu llywodraethwyr</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Llywodraethwyr yn ymwybodol o rybuddion. Digonolrwydd y rhybudd a roddwyd.</p>				
<p>Rhoi gwybod i'r corff llywodraethol fel bo'r galw ar weithredu cyfrifoldebau'r clerc</p> <p>Ystyriwch y dangosydd perfformiad isod:</p> <p>Lledaenu gwybodaeth y tu allan i gyd-destun cyfarfodydd.</p>				

Swyddogaeth	1	2	3	4
<p>Gwneud unrhyw swyddogaeth arall a bennwyd gan y corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>Hyblygrwydd a pharodrwydd i wneud swyddogaethau eraill ar sail ad hoc, er enghraifft mynychu cyfarfodydd ychwanegol neu fynd ar drywydd gweithrediadau.</p> <p>Effeithiolrwydd gwneud y swyddogaethau hyn.</p> <p>Cadw gwrthrychedd wrth roi cymorth a chyngor i'r corff llywodraethol.</p>				
<p>Darparu cyngor i'r corff llywodraethol ar gyfrifoldebau a gweithdrefnau'r corff llywodraethol</p> <p>Ystyriwch y dangosyddion perfformiad isod:</p> <p>I ba raddau mae gennych hyder a gwybodaeth pan ofynnir am eich cyngor gan y corff llywodraethol.</p> <p>I ba raddau mae llywodraethwyr yn teimlo eu bod wedi derbyn gwybodaeth ac yn hyderus yn ansawdd y cyngor a roddir.</p>				
<p>Deall cyfraith addysg mewn perthynas â chyrrff llywodraethol ysgolion yn gyffredinol.</p>				
<p>Deall polisi addysgol eang yn gyffredinol.</p>				